# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

3/5/24

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i’ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 9 Mai 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae’n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Diweddariad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) (Tudalennau 3 - 12)**

**4. Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2024-27 (Tudalennau 13 - 58)**

**5. Diweddariad - Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith a Lluosi (Tudalennau 59 - 64)**

**6. Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (02.02.24 a 20.03.24) (Tudalennau 65 - 100)**

**7. Diweddariad Ffrwd Waith Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu (Tudalennau 101 - 108)**

**8. Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.**

**9. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 109 - 114)**

**10. I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft (Tudalennau 115 - 118)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9fed o Fai 2024** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC)** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Er gwybodaeth** |

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**

**Fel rhan o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Ceredigion a Phowys, cytunir bydd yr Arweinydd Strategol yn adroddiad yn flynyddol ar waith ac effaith y bartneriaeth.**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**

**Cynghorydd Wyn Thomas**

**Cefndir:**

- Ers mis Medi 2021 mae Cyngor Sir Ceredigion a Phowys wedi cyd-weithio mewn partneriaeth ar elfennau o'r gwasanaeth addysg, fel y nodir o fewn y Memorandwm o Ddealltwriaeth (2023 – 2026) ar gyfer Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC). Mae'r meysydd o gyd-weithio yn cynnwys:
    - Cefnogaeth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm / datblygu'r Cwricwlwm i Gymru
    - Llwybrau Arweinyddiaeth
    - Cymorth i Athrawon Newydd Gymhwyso ac athrawon gyrfa gynnar
    - Datblygiad proffesiynol Cynorthwywyr Dysgu
    - Lleihau effaith difreintedd gwledig, sicrhau ecwiti ar gyfer pob dysgwr a gwella lles

- Ariannir y ddau Awdurdod Lleol ar wahân gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith a gynhelir gan PACC, gyda'r Arweinydd Strategol yr unig aelod o staff sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan y ddau Gyngor. Rôl yr Arweinydd Strategol yw sicrhau arweinyddiaeth strategol o'r bartneriaeth a chynnal trosolwg o effaith a gwariant y grantiau ar y cyd â swyddogion Ceredigion a Phowys.

- Yn flynyddol (mis Mehefin) cyflwynir Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru a phob chwech mis cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda swyddogion Llywodraeth

Cymru i adrodd ar y cynnydd ac effaith gwaith y bartneriaeth a'r arian grant a dderbynnir ar ysgolion ac ymarferwyr PACC.

- Mae Estyn yn monitro cynnydd y cynllun busnes a gwaith y bartneriaeth yn rheolaidd, gyda'r Arweinydd Strategol yn cyfrannu yn ystod ymweliadau arolygu, monitro a thematig y ddwy Sir.

- Yn fewnol i sicrhau llywodraethant cryf, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Phrif Weithredwyr a deiliaid portffolio'r ddwy Sir.  Yn ogystal, trefnwyd grŵp cyfeirio penaethiaid i gyfarfod yn dymhorol, gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd, pob oed ac uwchradd y ddwy Sir.  Gan weithio gyda'r Arweinydd Strategol, ei rôl yw cynnig adborth parhaus ar effaith gwaith a chefnogaeth PACC.

- Mae'r cydweithio ar draws Ceredigion a Phowys er lles ein hysgolion, ymarferwyr a dysgwyr yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda chynnydd yn y meysydd o gydweithio o ran cynnydd dysgwyr, y cydweithio rhwng swyddogion ac ymwybyddiaeth penaethiaid ac ymarferwyr o'r cynnig dysgu proffesiynol yn amlwg.

**<u>Y Sefyllfa Gyfredol:</u>**

**Adolygiad o'r flwyddyn ariannol 2023 – 2024**:

- Yn dilyn adolygiad o waith ac effaith PACC yn 2022 - 2023, gosodwyd y blaenoriaethau canlynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 – 2024:

  i. Cefnogi holl ysgolion PACC i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.
  ii. Cefnogi holl ysgolion PACC i sicrhau bod dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel, gan adeiladu arferion addysgeg, dilyniant ac asesu effeithiol gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
  iii. Datblygu cefnogaeth bellach i ysgolion i sefydlu ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr.
  iv. Cefnogi ymarferwyr PACC i ddilyn llwybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr.
  v. Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC.

- Gwelwyd cynnydd cryf yng nghyd-weithio swyddogion y ddwy Sir yn dilyn trefnu cyfarfodydd busnes i rannu a thrafod blaenoriaethau.  Un o brif nodweddion 23/24 oedd y cytuno ar gwestiynau cytûn i holi yn ystod pob gweithdy

cefnogaeth tymor yr hydref 2023 er mwyn gosod gwaelodlin i waith PACC. O'r gweithdai Hydref, cofnodwyd y canlynol fel rhai o'r prif penawdau:

- Ble mae arweinyddiaeth ysgol yn gryf, mae arweinwyr gyda dealltwriaeth gref o gryfderau a meysydd i wella eu hysgol gan arwain at flaenoriaethau miniog a chlir. Fodd bynnag mewn lleiafrif o ysgolion (yn arbennig ysgolion uwchradd a phob oed) mae'r blaenoriaethau ar adegau yn rhy eang.
- Mae llawer o ysgolion uwchradd a phob oed yn nodi'r angen i gryfhau arweinyddiaeth rheolwyr canol.
- Mae llawer o ysgolion yn ymateb yn dda i adborth rhan-ddeiliaid e.e. rhieni gydag effaith cadarnhaol. Arweinia hyn at gynnydd cryf mewn arweinyddiaeth a darpariaeth.
- Mae pob ysgol ar draws PACC wedi mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru a'r holl elfennau mandadol fel cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm i ran-ddeiliad. Fel rhan o waith ysgolion i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n dda gydag ysgolion y clwstwr / rhanbarth i gryfhau eu darpariaeth a dealltwriaeth o gynnydd. Mae hyn yn gryfder.
- Mae llawer o ysgolion yn dechrau ar y daith o sicrhau eu bod yn ymateb i heriau tlodi ac amddifadedd dysgwyr a'r gymuned ehangach fel ei fod yn rhan ganolog o holl waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at waith PACC a'r ddau Awdurdod Lleol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.
- Her sylweddol, yn arbennig ysgolion bach, yw'r capasiti a chyllid i staff mynychu cyrsiau / cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cael ei gyfyngu ymhellach gan argaeledd staff cyflenwi o safon a thrwy gyfrwng Y Gymraeg.

- Yn adlewyrchu gwerthusiadau swyddogion cefnogi ysgolion Ceredigion a Phowys o waith cadarnhaol ysgolion PACC, mae adroddiadau arolygon diweddar Estyn hefyd wedi adnabod arferion cryf. Er enghraifft, bu i adroddiad Ysgol Cenarth ym mis Hydref 2023 adrodd "*Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant y Cwricwlwm i Gymru. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu'n hyrwyddo'r weledigaeth yn llwyddiannus ac mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae cwricwlwm sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithio. Mae cwricwlwm cynhwysol yn hyrwyddo cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau, yn enwedig disgyblion ag ADY, disgyblion bregus a rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim*". Yn yr un modd, yn adroddiad Ysgol Felinfach ym mis Rhagfyr 2023 adroddwyd "*Mae'r athrawon yn cydweithio'n dda ag ysgolion yr ardal i gynllunio cwricwlwm sy'n gynhwysol a phriodol. Maent yn ei addasu'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn ymateb i ddiddordebau'r disgyblion. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu ystod addas o weithgareddau sy'n datblygu medrau rhifedd a digidol y disgyblion yn fuddiol.*

*O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cynnar yn gadarn*."

- Yn ystod tymor yr Hydref, trefnwyd chwe sesiwn dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i ysgolion PACC. Bu i fwyafrif (66%) o ysgolion PACC mynychu o leiaf un sesiwn. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o'r rhwydweithiau rhithiol a gynhaliwyd eisoes ble mai dim ond tua 10% o ysgolion PACC a oedd yn mynychu. Roedd yr adborth o'r sesiynau gan yr ymarferwyr yn gadarnhaol, gyda 98% yn nodi y bydd yn cael effaith cadarnhaol iawn / cadarnhaol ar eu hymarfer personol a 95% yn nodi effaith cadarnhaol iawn / cadarnhaol ar ymarfer yr ysgol. Yn arbennig, nododd ymarferwyr eu gwerthfawrogiad o'r adnoddau a syniadau gwerthfawr a rannwyd, a'r cyfle i gyd-weithio gydag ysgolion ar draws y ddwy Sir. Y cam nesaf ar gyfer yr ymarferwyr ac ysgolion yw sicrhau bod y dysgu yn cael ei gyflwyno o fewn yr ysgol er mwyn cryfhau'r dysgu a darpariaeth.


- Ym mis Hydref 2023, cynhaliwyd cynhadledd gyntaf PACC ar leihau effaith amddifadedd a thlodi ar gynnydd dysgwyr. Fel rhan o effaith cadarnhaol y gynhadledd pwysleisiwyd yr angen am linyn aur trwy holl waith ysgolion er mwyn cefnogi dysgwyr a theuluoedd bregus. Bu i adroddiadau gweithdai cefnogol ysgolion PACC adrodd bod y gwaith hwn yn dechrau gwreiddio o fewn llawer o ysgolion PACC. Yn ogystal, sefydlwyd tasglu tlodi plant gyda chynrychiolwyr o Geredigion a Phowys, er mwyn gweithio ar strategaethau cadarn i sicrhau'r cyfleoedd orau i bob disgybl.

- Yn dymhorol, cynhelir cyfarfod gyda'r grŵp cyfeirio penaethiaid, gyda chynrychiolaeth o'r ddwy Sir. Yn ystod y cyfarfodydd derbynnir adborth agored a gonest am waith PACC. Adroddir gan y penaethiaid bod y cylchlythyron tymhorol PACC yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a bod eu staff wedi manteisio yn fawr o gyd-weithio yn ystod y cyfleoedd dysgu proffesiynol, yn arbennig i rannu arfer dda a chydweithio ar ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Fodd bynnag, mae galw am gyd-weithio pellach ysgol-i-ysgol ar draws PACC a chyfle i rannu arfer dda.

**Cynllunio a blaenoriaethau 2024 – 2025**:

- Yn dilyn gwerthusiad o waith ac effaith PACC gan swyddogion a'r grŵp cyfeirio penaethiaid, yng nghyd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o fewn ein "Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb[1]", gosodwyd y blaenoriaethau canlynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024 – 2025:

[1] Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb (llyw.cymru)




Dysgu ac addysgu effeithiol a myfyriol:

i. Addysgeg: Trwy gydweithio lleol, clystyrau a phartneriaeth, i gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ar bob lefel i fyfyrio ac arloesi er mwyn ymgorffori arferion addysgu effeithiol fel bod pob dysgwr yn cyflawni eu llawn botensial.

Hyd at y 10fed o Ebrill, 2024, mae 38% o argymhellion Estyn ar gyfer ysgolion Ceredigion a Phowys (blwyddyn ysgol 2023/24) yn cyfeirio at elfennau o addysgu. O ganlyniad, bwriad y flaenoriaeth hon yw canolbwyntio ar safonau dysgu ac addysgu ar draws PACC er mwyn cefnogi pob ysgol i wreiddio arferion addysgeg fyfyriol, arloesol ac effeithiol fel bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf. Bydd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ysgol PACC yn cael ei gynnig ar y thema "Dysgu ar ei orau" a "Dysgu Arloesol", yng nghyd â pharhad yn y gwaith o annog ymarferwyr i ymgymryd ag ymholiadau i wella arferion addysgeg benodol. Fel rhan o adborth y penaethiaid, bydd pob ysgol yn cael eu gosod i mewn i driawdau, yn seiliedig ar eu blaenoriaethau ar gyfer 24/25, fel bod cefnogaeth ysgol-i-ysgol yn cael ei gryfhau ar draws PACC.
Trwy "Ehangu Gorwelion" bydd cyfle i ddathlu a rhannu yr arfer effeithiol a adnabyddir, gydag ysgolion arweinwyr, athrawon, cynorthwywyr a llywodraethwyr i arloeso, ysbrydoli a gwella. Bydd yr arfer effeithiol yn cael ei adnabod trwy adroddiadau Estyn ac argymhellion gan swyddogion PACC.
I gefnogi arweinwyr ysgol a llywodraethwyr i gyflawni anghenion mandadol yr ysgol i sicrhau profiadau o fewn y cwricwlwm sy'n sicrhau profiadau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig ac i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd dysgu proffesiynol i ymarferwyr, arweinwyr a llywodraethwyr PACC ar ddechrau mis Ebrill. Llwyddodd y dysgu proffesiynol hyn i amlygu'r angen i ystyried cynnwys y cwricwlwm o ran ehangder y llyfrau a'r hanes a ddefnyddir, ehangder y profiadau diwylliannol a

gynigir a rôl ysgolion wrth ymateb yn rhagweithiol ac adrodd ar ddigwyddiadau hiliol yn ofalus. I lawer, roedd y defnydd o'r term "mwyafrif byd-eang" yn hytrach na "lleiafrif ethnig" yn taro naw a phwysigrwydd gwaith DARPL yn hynod o bwysig ym mhob rhan o gymdeithas a'n hysgolion, yn arbennig ble mae'r canran o'r mwyafrif byd-eang yn isel yn sgil cyfyngder dealltwriaeth a phrofiadau'r dysgwyr.

ii. Cefnogaeth Uwchradd: Cefnogi disgyblaethau pynciol, amserlenni a HMS CBAC er mwyn hwyluso'r cyflwyniad o gymwysterau TGAU newydd o 2025.

Bwriad y flaenoriaeth hon yw cefnogi ysgolion uwchradd a phob oed i baratoi at y cymwysterau TGAU "Yn arbennig I Gymru: Yn barod i'r byd" a fydd yn cael eu cyflwyno gan CBAC o fis Medi 2025 ymlaen. Bydd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig newydd o Fedi 2027 fel y Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) yn cefnogi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Gyda hyn daw newid a galwadau sylweddol ar ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion PACC o fewn meysydd fel yr amserlenni o asesiadau di-arholiad a cheisio cynllunio cwricwlwm eang a phwrpasol yn arbennig o fewn ysgolion bach a gwledig.
Yn ogystal, ar lefel Cenedlaethol (o ganlyniadau PISA, TGAU a phrofion Cenedlaethol) ac ar lefel lleol (o adroddiadau cefnogi'r hydref, adroddiadau Estyn (hyd at y 10fed o Ebrill, 2024, mae pumed o argymhellion Estyn ar gyfer ysgolion Ceredigion a Phowys yn cyfeirio at elfennau o ddatblygiad medrau dysgwyr) ac adborth ysgolion) mae ysgolion yn pryderi am safonau medrau sylfaenol dysgwyr yn arbennig o ran mathemateg, rhifedd a medrau llythrennedd yn gyffredinol. Bydd PACC yn cefnogi ysgolion gyda hyn.
Ymddengys bod lleiafrif o athrawon / rheolwyr canol ddim yn sicr o bŵer a photensial y data meintiol sydd ar gael iddynt er mwyn bwydo'n effeithiol i mewn i'w cynllunio fel bod pob dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o'u mannau cychwyn. Bydd PACC yn cefnogi ysgolion ac ymarferwyr gyda hyn.

Amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol**:**

iii. Ecwiti: Cefnogi ysgolion i weithredu ac ymgorffori dull ysgol gyfan sy'n canolbwyntio ar y gymuned i sicrhau tegwch mewn darpariaeth a phrofiadau i liniaru effaith tlodi ac amddifadedd ar ddysgwyr a'u teuluoedd gan sicrhau dyheadau a disgwyliadau uchel i bob dysgwr.

Bwriad y flaenoriaeth hon yw parhau i gefnogi pob ysgol ar draws PACC i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad teg at addysg a chyfleoedd o fewn yr ysgol ac yn allgyrsiol er mwyn lleihau effaith tlodi.

iv. Lles a'r amgylchedd ddysgu: Cefnogi ysgolion i weithredu ac ymgorffori dull ysgol gyfan o amgylcheddau dysgu diogel a chynhwysol, sy'n cefnogi lles a chynnydd pob dysgwr yn effeithiol.

Bwriad y flaenoriaeth hon yw cefnogi ysgolion ac ymarferwyr PACC i sefydlu a gwreiddio dull ysgol gyfan gadarnhaol o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol yng nghyd ag ymarfer cadarnhaol tuag at ymddygiad yn eu hysgolion. Bydd hyn yn cefnogi pob arweinydd ac ymarferydd i ymgorffori ethos ysgol gyfan i sicrhau amgylchedd dysgu cefnogol lle bod pob disgybl yn barod i ddysgu ac ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'u dysgu.

Arweinyddiaeth cadarn a diwylliant o hunan wella parhaus:

v. Arweinyddiaeth: Cefnogi arweinwyr ar bob lefel i ddatblygu diwylliant o hunan wella parhaus fel bod pob dysgwr, ymarferydd ac ysgol yn cyrraedd eu llawn botensial.

Hyd at y 10fed o Ebrill, 2024, mae 26% o argymhellion Estyn ar gyfer ysgolion Ceredigion a Phowys yn cyfeirio at elfennau o arweinyddiaeth a'r adroddiadau cefnogi gweithdai'r Hydref yn adnabod yr angen i gefnogi gwaith arweinwyr canol yn benodol yn eu gwaith o gynnal prosesau hunan wella. Yn sgil hyn, bwriad y flaenoriaeth hon yw cefnogi arweinwyr canol yn eu gwaith, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n ddigonol ar effaith y ddarpariaeth ar y dysgu a'r addysgu o fewn eu maes o gyfrifoldeb.
Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal i geisio recriwtio ymarferwyr (yn arbennig ymarferwyr Cymraeg ac Uwchradd) i mewn i'r proffesiwn.

vi. Llywodraethant PACC: Sicrhau bod cydweithio PACC yn parhau i gefnogi holl ysgolion ac ymarferwyr Ceredigion a Phowys i gyflawni safonau arloesi, ysbrydoli a gwella effeithiol.

Bwriad y flaenoriaeth hon yw ymateb yn gadarnhaol i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2024, ble o dan arweinyddiaeth yr Athro Dylan Jones, a'r Gweinidog Addysg ar y pryd, Jeremy Miles, rhyddhawyd canlyniad eu hadolygiad o lwybr partneriaid addysg i'r dyfodol, gan adrodd eu disgwyliad o "*gydweithio lleol mwy effeithiol, rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol, gyda disgwyliad y bydd pob ysgol ac awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth. Bydd yn darparu mwy o gysondeb o ran cefnogi a grymuso, gan roi lle canolog i wella ysgolion wrth inni roi ein camau i ddiwygio addysg ar waith. Rwyf am i'r holl bartneriaid fod yn glir mai ein prif nod, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, fydd gwella deilliannau addysgol drwy ymestyn ein dysgwyr a lleihau'r bwlch cyfleoedd a thegwch".*

Ceredigion a Phowys oedd y ddau Awdurdod Lleol cyntaf i gadarnhau eu bwriad i barhau eu cydweithio ar lefel PACC, a thrwy hyn yn sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd sylweddol i swyddogion ac ysgolion y ddwy Sir.

- Gyda'r disgwyliad cenedlaethol yn adlewyrchu model PACC o gydweithio, gosodir y cyhoeddiad hwn PACC mewn sefyllfa gref iawn i'r dyfodol. Yn wir, mae'r Arweinydd Strategol yn sefyll ar Weithgor Cenedlaethol CCAC ochr yn ochr gyda'r Athro Dylan Jones, Swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Gyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol Cymru. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae PACC wedi rhannu ei model o gydweithio.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Nac oes.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** MEWNOSOD TESTUN
**Cydweithio:** MEWNOSOD TESTUN
**Cynnwys:** MEWNOSOD TESTUN
**Atal:** MEWNOSOD TESTUN
**Integreiddio:** MEWNOSOD TESTUN

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**

Nodi gwaith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**

Sicrhau bod gwaith PACC yn cyrraedd gofynion Awdurdod Lleol Ceredigion a'i holl ysgolion.

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Elen James
Clive Williams
Anwen Orrells

**<u>Swyddogaeth:</u>** Swyddog Arweiniol Corfforaethol (dros dro): Dysgu Gydol Oes
Swyddog Arweiniol Corfforaethol (dros dro): Ysgolion
Arweinydd Strategol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru

**<u>Dyddiad yr adroddiad:</u>** 16/04/2024

**<u>Acronymau:</u>**

- PACC: Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru

- CCAC:  Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- DARPL:  Diversity and Anti-Racism Professional Learning.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 4

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **9/5/24**

**Teitl:** **Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALI a'r Ysgolion 2024-27**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Er Gwybodaeth**

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
Ystyried cynnwys y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALI a'r ysgolion ar gyfer 2024-27, er ystyriaeth bellach y Cabinet

**Cefndir:**
Mae Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 yn ddarpariaeth ar gyfer Cymru'n unig, sy'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru ("LlC") ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cytundeb partneriaeth gyda chorff llywodraethol pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod. Pwrpas y Cytundeb Partneriaeth yw gwella a chynnal gwaith partneriaeth rhwng yr ALI ac ysgolion.

**Y Sefyllfa Gyfredol:**
Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu'r cytundeb a rhaid iddo gael ei adolygu bob 3 blynedd.

Bydd y Cytundeb Partneriaeth arfaethedig rhwng yr ALI a'r ysgolion yn rhedeg o Fedi 2024 tan Awst 2027. Mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Gellir crynhoi'r prif newidiadau i'r ddogfen fel y ganlyn:

- Newidiadau i derminoleg e.e. y Dysgu Sylfaen/ Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Newidiadau i ddadansoddi cynnydd disgyblion yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru
- Cynllun Trawsnewid wedi ei addasu yng ngoleuni'r pwyslais ar 3-16 y Cwricwlwm i Gymru
- Gwybodaeth ychwanegol o ran Iechyd a Diogelwch a materion yswiriant
- Mae dyletswyddau Cyrff Llywodraethol wedi'u diweddaru i adlewyrchu Canllaw LIC i'r gyfraith
- Mae rheoliadau gwarchod data wedi'u diweddaru i gyfeirio at reoliadau'r DU yn hytrach na rheoliadau Ewropeaidd

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Ddim yn berthnasol

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
Argymell y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALI a'r Ysgolion 2024-27 er cymeradwyaeth Cabinet

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
Er mwyn cael cymeradwyaeth Corff Llywodraethol bob ysgol o 1 Medi 2024 ymlaen.

**Enw Cyswllt:** Elen James a Clive Williams

**Swyddogaeth:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes a Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion

**Dyddiad yr adroddiad:** 29/3/24

**Acronymau:**
Ddim yn berthnasol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

a

**CHORFF LLYWODRAETHU YSGOL _______________**

# CYTUNDEB PARTNERIAETH YSGOLION 2024-2027

o dan

Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007

Elen James – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes
a Clive Williams - Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**CYTUNDEB PARTNERIAETH** (2024-27) dyddiedig ___________________ 2024

**RHWNG:**

**(1) CYNGOR SIR CEREDIGION** Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE (‘ALl’) yn gweithredu trwy **Ms ELEN JAMES** Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes a Mr CLIVE WILLIAMS, Swyddog Arweiniol Corfforaethol -Ysgolion

a

**(2) CHORFF LLYWODRAETHU** (‘y Corff Llywodraethu’) **YSGOL** ______________________ (‘yr Ysgol’) yn gweithredu trwy ei gadeirydd __________________________ [rhowch yr enw]

**LLOFNODWYD** ar gyfer ac ar ran **CYNGOR SIR CEREDIGION** gan Ms ELEN JAMES a MR CLIVE WILLIAMS

**LLOFNODWYD** ar gyfer ac ar ran **BWRDD LLYWODRAETHWYR YSGOL** ______________________

______________________ Cadeirydd y Llywodraethwyr

______________________ Pennaeth yr Ysgol

## TABL CYNNWYS

**I. CEFNDIR CYFREITHIOL ....5**

**II. PWRPAS Y DDOGFEN HON ....5**

**III. TYMOR ....5**

**IV. CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD LLEOL ....5**

**V. CYFRIFOLDEBAU'R CORFF LLYWODRAETHU ....6**

**VI. ADOLYGU ....7**

**VII. HYSBYSIADAU RHYBUDDIO ....8**

**VIII. CYDWEITHIO ....8**

**IX. SWYDDOGAETHAU A PHROTOCOLAU ....8**

**X. CYSWLLT ....8**

**1. TARGEDAU CYNNYDD DISGYBLION, PRESENOLDEB A GWAHARDDIADAU ....9**

1.1 CYNNYDD DISGYBLION ....9

**2. HAWL YSGOLION I GAEL CYMORTH GAN YR ALL ....11**

2.1 CAMAU A GYMERIR GAN YR ALL I FONITRO YSGOLION ....11

2.2 CYMORTH I YSGOLION A OSODWYD MEWN CATEGORI STATUDOL GAN ESTYN12

**3. RÔL YR YSGOLION A'R ALL O RAN DATBLYGU PROSES BONTIO EFFEITHIOL ....14**

3.1 DYSGWYR OEDRAN CYNRADD, TRWY-OED AC UWCHRADD – PONTIO I'R HOLL GYFNODAU ALLWEDDOL ....14

3.2 PONTIO AR DRAWS Y CONTINWWM 3 - 16 ....14

**4. CEFNOGI DYSGU PENODOL MEWN YSGOLION ....15**

4.1 DYSGU SYLFAEN ....15

4.2 CONTINWWM 3-16 ....15

4.3 DARPARIAETH 14-19 ....16

**5. CEFNOGI DISGYBLION AGORED I NIWED ....17**

5.1 PRESENOLDEB ....17

5.2 YMDDYGIAD ....18

5.3 POLISI DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWNEGOL YMHOB YSGOL ....19

5.4 CYMORTH I BLANT SY'N DERBYN GOFAL (LAC)....21

5.5 CYMORTH I DDISGYBLION SYDD Â SAESNEG YN IAITH YCHWANEGOL (SIY) .....21

5.6 DIOGELU PLANT ....22

**6. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG ....24**

6.1 CEFNOGI CYNNYDD YN Y DDARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG A GWELLA SAFONAU'R GYMRAEG....24

**7. CYMORTH BUSNES ....25**

7.1 DATA / GWYBODAETH....25

7.2 MATERION SAFLEOEDD ....26

7.3 MATERION LANDLORDIAID A THENANTIAID ....26

7.4 MATERION YSWIRIANT ....27

7.5 RHEOLI SAFLEOEDD YSGOL....27

7.6 MATERION IECHYD A DIOGELWCH ....28

7.7 YMWELIADAU ADDYSGOL ....30

7.8 Y GWASANAETH ARLWYO....31

7.9 MYNEDIAD I ADDYSG : POLISI DERBYN ....32

**8. GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHWYR....33**

**9. STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU ....35**

9.1 TREFNIADAU CYFATHREBU....35

9.2 CWYNION A CHANMOLIAETH....36

9.3 RHYDDID GWYBODAETH ....37

9.4 DIOGELU DATA ....38

9.5 MATERION DISGYBLU ....40

9.6 RECRIWTIO DIOGEL ....40

**10. GWASANAETHAU CYLLID ....42**

10.1 MATERION CYLLID....42

10.2 CYLLID CORFFORAETHOL ....42

10.3 CYFLOG, BUDDIANNAU A PHENSIYNAU....43

**11. CYMORTH BUSNES – CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH....43**

# ADRAN 1

## I. CEFNDIR CYFREITHIOL

1.1 Drwy a.197 o Ddeddf Addysg 2002 mae gan Lywodraeth Cymru ('LIC') y pŵer i fynnu bod pob awdurdod lleol ('ALI') yng Nghymru yn ymgymryd â Chytundeb Partneriaeth â chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr ALI hwnnw. Y mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 yn rheoleiddio cynnwys pob Cytundeb Partneriaeth.

1.2 Bydd y Cytundeb Partneriaeth yn nodi sut y mae ALI a phob corff llywodraethu i gyflawni'i briod gyfrifoldebau mewn perthynas ag ysgol, boed y rheiny wedi'u pennu gan ddeddfwriaeth neu wedi'u cytuno fel arall rhwng yr ALI a'r corff llywodraethu o dan Gytundeb Partneriaeth.

1.3 Os bydd ALI a'i gorff llywodraethu'n methu â dod i gytundeb, caiff yr ALI, o dan a.197(3) o Ddeddf 2002, lunio Datganiad yn nodi fel y bydd yr ALI a'r corff llywodraethu'n cyflawni'u priod gyfrifoldebau mewn perthynas ag ysgol. Bydd cynnwys Datganiad yr un fath â Chytundeb Partneriaeth.

Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd - Hwb (gov.wales)

## II. PWRPAS Y DDOGFEN HON

2.1 Y mae'r ddogfen hon yn cynrychioli Cytundeb Partneriaeth o dan y ddeddfwriaeth uchod rhwng yr ALI a'r Corff Llywodraethu, er budd yr Ysgol.

## III. TYMOR

3.1 Tymor y Cytundeb hwn yw 3 blynedd o 1 Medi 2024.

## IV. CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD LLEOL

4.1 Sicrhau a hyrwyddo trefn lywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol o fewn ysgolion
4.2 Ymyrryd mewn ysgolion pan fydd angen gwelliannau
4.3 Cytuno ar dargedau heriol gydag ysgolion mewn perthynas â chyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion
4.4 Herio pob ysgol i wella, a darparu cymorth wedi'i raddoli yn ôl yr angen
4.5 Cefnogi gwelliannau i'r dysgu a'r addysgu drwy fentrau lleol, partneriaethau a mentrau cenedlaethol
4.6 Cynorthwyo a hyrwyddo'r broses o ledaenu arfer da rhwng pob ysgol, a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol
4.7 Cynnig hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i Bennaeth yr Ysgol a Llywodraethwr dynodedig Diogelu Plant yr Ysgol
4.8 Cefnogi hyfforddiant craidd ar gyfer staff ysgol er mwyn cwrdd ag anghenion y disgyblion yn well
4.9 Darparu data cynnydd disgyblion a dadansoddiadau safonol o berfformiadau ysgolion

4.10 Dilysu meysydd blaenoriaeth a phrosesau'r ysgol ac adrodd fel bo angen i ysgolion, cyrff llywodraethu, uwch swyddogion yr ALI ac aelodau etholedig
4.11 Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer nodi a darparu ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
4.12 Darparu cyngor, hyfforddiant ac adnoddau priodol i hyrwyddo datblygiad y Gymraeg mewn ysgolion, fel pwnc ac fel cyfrwng, yn unol â Strategaeth y Gymraeg.
4.13 Cynorthwyo ysgolion i gynnal lefelau presenoldeb uchel
4.14 Cynigir cymorth a chyngor i benaethiaid i'w helpu i fodloni argymhellion LIC mewn perthynas â gwaharddiadau, a darparu addysg i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaus o'r ysgol
4.15 Darparu nifer priodol o lefydd dysgu, a sicrhau amgylchedd dysgu priodol ar gyfer pob disgybl
4.16 Ariannu ysgolion gyda fformiwla dryloyw
4.17 Darparu cludiant ysgol yn unol â pholisi trafnidiaeth yr ALI
4.18 Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch
4.19 Cynnig hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i ysgolion a chyrff llywodraethu

## V. CYFRIFOLDEBAU'R CORFF LLYWODRAETHU

| Ymddygiad a chyfrifoldebau: | | Gwybodaeth a mewnbwn oddi wrth: |
|---|---|---|
| 5.1 Dylai Cyrff Llywodraethu ac unigolion gadw at y Cod a'r Egwyddorion Ymddygiad bob amser.<br>5.2 Sefydlu fframwaith strategol trwy osod nodau ac amcanion, mabwysiadu polisïau a gosod targedau er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion.<br>5.3 Monitro cynnydd ac adolygu'r fframwaith ar gyfer yr ysgol yn rheolaidd.<br>5.4 Sicrhau bod y cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang, a bod Cwricwlwm Cymru yn cael ei addysgu yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.<br>5.5 Arwain yr ysgol i hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol ac ymddygiad ar draws y 6 Maes Dysgu Cwricwlwm Cymru.<br>5.6 Hyrwyddo lles a diogelwch disgyblion a staff, gan gynnwys hybu bwyta'n iach a gofynion maeth. | 🡐 | • Dadansoddiad o gynnydd disgyblion.<br>• Dadansoddiad o wybodaeth gan bob rhanddeiliaid gan gynnwys disgyblion, rhieni, y gymuned, yr ALI, ysgolion sy'n bartneriaid ac ysgolion clwstwr.<br>• Adroddiadau tymhorol y Pennaeth ar berfformiad yr ysgol, gan gynnwys ymddygiad a phresenoldeb y disgyblion, a materion staffio a phresenoldeb.<br>• Adolygu polisïau (adolygiad blynyddol o bolisïau statudol, polisïau eraill trwy gytundeb).<br>• Yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth a chyfranogiad/ymgynghoriad â staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr, cytuno ar, a llofnodi'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn derfynol. Monitro ac adolygu cynnydd yn rheolaidd trwy gyfrwng pwyllgorau a chyfarfodydd y corff llywodraethu llawn.<br>• Adolygu'r datblygiad yn rheolaidd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol.<br>• Cysylltu cyfarfodydd Llywodraethwyr â staff yr ysgol |
| 5.7 Gweithredu fel partner allweddol yn natblygiad yr ysgol, i gynorthwyo a herio'r pennaeth a'r uwch arweinwyr gyda gwelliant parhaus a swyddogaethau statudol. | 🡐 | • Adolygu cynllun datblygu'r ysgol sy'n amlinellu blaenoriaethau gwelliant a gweithgareddau'r ysgol. Adolygu perfformiad y Pennaeth yn nhymor yr hydref bob blwyddyn, pan fydd eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | hamcanion a'u targedau yn cael eu hadolygu a'u gosod. |
| 5.8 Bod yn atebol am unrhyw benderfyniadau a chamau a gymerir a bod yn barod i esbonio'i benderfyniadau a'i weithredoedd i unrhyw un perthnasol. | 🡐 | • Bydd cofnodion cyfarfodydd, gan gynnwys dogfennau perthnasol a drafodwyd, ar gael os bydd y cyhoedd am eu gweld.<br>• Mae'r holl wybodaeth bersonol a gedwir gan yr ysgol yn ddiogel ac wedi'i hamddiffyn rhag mynediad heb awdurdod. |
| 5.9 Dileu unrhyw wahaniaethu yn yr ysgol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a pherthynas dda rhwng pawb, waeth beth yw eu gwahaniaethau. | 🡐 | • Paratoir adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr yn unol â'r canllawiau statudol.<br>• Polisi Cydraddoldeb – Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| 5.10 Ethol cadeirydd, is-gadeirydd a Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb Iechyd a Diogelwch bob blwyddyn.<br>5.11 Adolygu strwythur, aelodaeth a chylch gorchwyl y pwyllgor bob blwyddyn.<br>5.12 Darparu adroddiad blynyddol i rieni. | 🡐 | • http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/contents/made<br>• Adroddiad blynyddol i'r rhieni/gofalwyr yn cydlynu gyda'r canllawiau statudol. |
| 5.13 Cytuno ar strwythur staffio'r ysgol yn unol â chyllideb a meysydd blaenoriaeth yr ysgol.<br>5.14 Penodi staff ar gyfer yr ysgol.<br>5.15 Chwarae rôl arweiniol o ran recriwtio staff a rheoli perfformiad, yn unol ag egwyddorion recriwtio diogel a chyfraith a rheoliadau cyflogaeth, gan gynnwys cyflog, materion disgyblu a diswyddo, cwynion, a rheoli perfformiad. | 🡐 | • Cyngor gan y Pennaeth.<br>• Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd). Penodi panel o lywodraethwyr i ddelio â'r broses o benodi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth. Cytuno i ddirprwyo grym i'r Pennaeth (os yn briodol) ar gyfer rhai penodiadau.<br>• Sicrhau bod yr holl staff yn cael profiadau dysgu proffesiynol a gwerthfawr. |

## VI. ADOLYGU

6.1 Cynhelir adolygiad o'r Cytundeb hwn gan yr ALl a'r Corff Llywodraethu heb fod yn llai na 6 mis cyn y dyddiad y bydd y cyfnod yn dod i ben, neu ar unwaith os digwydd unrhyw un o'r pethau canlynol:

- pryder difrifol ynghylch perfformiad yr Ysgol sy'n cyfiawnhau cyflwyno hysbysiad rhybuddio o dan gymal 7 isod
- bod ysgol yn mynd i fesurau arbennig neu fod gwelliannau sylweddol yn cael eu nodi gan arolwg
- bod Gweinidogion Cymru'n gorchymyn cau'r ysgol
- bod cynigion statudol yn cael eu gwneud ac yn dod i rym gan arwain at:
    - uno Ysgolion Cynradd
    - newidiadau i'r ddarpariaeth AAA
    - cyflwyno trefniadau caniataol ar gyfer dethol disgyblion (bandio disgyblion)
    - newid cyfrwng ieithyddol yr ysgol

  - lle bo ALl yn cyflwyno, neu Weinidog yn cymeradwyo, cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion a allai olygu sefydlu, newid neu gau'r ysgol

- os bydd yr ALl yn defnyddio'i bŵer i atal hawl y corff llywodraethu i gyllideb wedi'i dirprwyo
- os bydd yr ALl yn defnyddio'i bŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol
- bod cwynion cyson yn cael eu gwneud yn erbyn ysgol gan randdeiliaid.

Pan geir amgylchiad sy'n ysgogi adolygiad, bydd yr ALl a'r Corff Llywodraethu, cyn pen 6 mis, yn gweithredu'r adolygiad ac, os bydd angen, yn diwygio'r Cytundeb hwn neu (os yn berthnasol) y Datganiad yn unol â hynny.

## VII. HYSBYSIADAU RHYBUDDIO

7.1 O dan a.3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gall awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol.

- **Sail 1**: Mae safonau perfformiad y disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.
- **Sail 2:** Bu chwalfa yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu'i llywodraethu.
- **Sail 3:** Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw beth a wneir gan y disgyblion hynny neu'u rhieni yn cael effaith andwyol ddifrifol, neu'n debygol o gael effaith andwyol ddifrifol, ar addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.
- **Sail 4:** Mae diogelwch disgyblion neu staff yn yr ysgol o dan fygythiad (boed drwy chwalfa mewn disgyblaeth neu fel arall).
- **Sail 5:** Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.
- **Sail 6:** Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol, wrth gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

## VIII. CYDWEITHIO

8.1 Y mae'r ALl a'r Corff Llywodraethu'n cytuno y byddant yn cydweithio'n ddiffuant ac mewn modd agored, cydweithredol ac adeiladol o dan y Cytundeb Partneriaeth hwn ac mewn ysbryd o gyd-ymddiried, gan ymateb, y naill yn brydlon i bob cais rhesymol gan y llall.

## IX. SWYDDOGAETHAU A PHROTOCOLAU

9.1 Y mae manylion swyddogaethau statudol ac anstatudol presennol yr ALl, a'r protocolau a'r gweithdrefnau o ran ei berthynas a'i gyfrifoldebau tuag at y Corff Llywodraethu a'r Ysgol (ac i'r gwrthwyneb), wedi'u nodi yn Adran 2 o'r Cytundeb hwn, ac fe'u hystyrir yn rhan o'r Cytundeb hwn.

## X. CYSWLLT

10.1 Mae cyswllt Ceredigion ar gyfer pob adran wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

# ADRAN 2

## 1. TARGEDAU CYNNYDD DISGYBLION, PRESENOLDEB A GWAHARDDIADAU

### 1.1 CYNNYDD DISGYBLION

Mae sicrhau ac adrodd ar gynnydd disgyblion yn rhan annatod o strategaeth gwella pob ysgol a’r Awdurdod Lleol.  Mae hyn yn caniatáu targedu dysgu proffesiynol ac adnoddau ar y meysydd blaenoriaeth priodol.

Ni fydd data asesu neu gyrhaeddiad crynodol yn ddigonol ar eu pen eu hunain i ysgolion, neu eraill, benderfynu ar gynnydd dysgwyr. Er enghraifft, mae llesiant yn hanfodol fel llwyfan ar gyfer dysgu o ansawdd uchel. Felly, bydd angen i ysgolion dynnu hefyd ar ffynonellau ehangach o wybodaeth a thystiolaeth. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys: gwybodaeth gan athrawon a fydd yn asesu cynnydd dysgwyr; gwybodaeth sy'n ymwneud â chynnydd dysgwyr mewn perthynas ag egwyddorion cynnydd; data am bresenoldeb, ymddygiad a llesiant; sylwadau ar ddysgu ac addysgu; trafodaethau gyda dysgwyr ac athrawon.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
| --- | --- |
| • Trafodaeth broffesiynol ynghylch gwybodaeth yn seiliedig ar gynnydd disgyblion.<br>• Darparu datblygiad proffesiynol ac arweiniad ar ddadansoddi cynnydd disgyblion.<br>• Casglu a chydosod targedau presenoldeb disgyblion unigol bob blwyddyn ar gyfer y blynyddoedd ysgol statudol.<br>• Peidio â chreu trefniadau lleol penodol i gasglu gwybodaeth ar lefel disgyblion unigol; a, lle cesglir data lefel ysgol ni ddylid ei gyfuno. Ni fyddwn yn defnyddio gwybodaeth asesu fel dirprwy ar gyfer safonau yn yr ysgol, nac i raddio a chymharu ysgolion.<br>• Byddwn yn hyrwyddo diwylliant o fyfyrio a gwerthuso agored a gonest ar gyfer gwella.<br>• Byddwn yn rhannu manylion a gwybodaeth berthnasol am ysgolion ymysg ei gilydd, yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan atgyfnerthu eu partneriaeth broffesiynol.<br>• Rydym yn cydnabod bod dadansoddi data a gwybodaeth yn bwysig, ond ni ddylid rhoi mwy o werth arno na ffynonellau tystiolaeth eraill ar | • Dadansoddi cynnydd disgyblion ac addasu cynlluniau fel bo angen.<br>• Trefnu i gynrychiolwyr ysgolion fynychu sesiynau datblygiad proffesiynol a ddarperir gan yr ALI ar gynnydd disgyblion.<br>• Mae ystyried gwybodaeth asesu a gasglwyd i ddeall cynnydd grŵp yn rhan bwysig o brosesau hunanwerthuso a gwella parhaus yr ysgol<br>• Defnyddio gwybodaeth asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr ac i wella ymarfer addysgu sydd hefyd yn gyfrifoldeb proffesiynol craidd staff addysgu ysgol. Felly, dylai Penaethiaid ddefnyddio ' ‘Canllawiau asesu: Cefnogi cynnydd dysgwyr' fel sail ar gyfer trafodaethau proffesiynol a dysgu yn eu hysgolion.<br>• Ni ddylid defnyddio data cymwysterau ac asesu crynodol at ddibenion atebolrwydd ar ben ei hun.<br>• Mae canlyniadau cymwysterau allanol annibynnol, academaidd a galwedigaethol, hefyd o fudd a diddordeb cyhoeddus dilys. Felly, maent wedi’u cynnwys yn naturiol yn yr |

| | |
|---|---|
| gyfer hunanwerthuso (er enghraifft gwrando ar ddysgwyr; arsylwi ar addysgu). Lle caiff ei ddefnyddio, mae'n fwyaf effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a gwella | ystod o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ysgolion, a byddant yn parhau felly. Mae'r arfer hwn o gyhoeddi data cyrhaeddiad cymwysterau allanol ar gyfer tryloywder, nid ar gyfer atebolrwydd. |

# 2. HAWL YSGOLION I GAEL CYMORTH GAN YR ALL

## 2.1 CAMAU A GYMERIR GAN YR ALL I FONITRO YSGOLION

Mae gan yr ALl rôl allweddol o ran monitro ysgolion.

Gwneir y monitro drwy ymweliadau rheolaidd, a bydd adroddiad ar yr ymweliad yn cael ei rannu â'r ysgol a chyrff llywodraethu. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys manylion unrhyw gymorth dilynol gan yr Awdurdod Lleol. Bydd yr ymweliadau'n canolbwyntio ar yr agweddau canlynol:

- cynnydd disgyblion
- ansawdd ac effaith yr addysgu
- ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth
- ansawdd y Cwricwlwm a gynigir
- ansawdd ac effaith y ddarpariaeth cynhwysiant a lles

## 2.2 CYMORTH I YSGOLION A OSODWYD MEWN CATEGORI STATUDOL GAN ESTYN

<table>
<tr><th>ALI</th><th>YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cydymffurfio â gofynion fel y'u nodir yng Nghylchlythyr Rhif: 28/03 gan LIC, sef Ysgolion y Cafwyd bod Angen Mesurau Arbennig neu Welliant Sylweddol Arnynt yn dilyn Arolygiad o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005.</td></tr>
<tr><td>Fel mater o frys bydd yr ALI yn:<br>• Sicrhau bod gan yr ysgol Gynllun Gweithredu Ôl-arolwg priodol a manwl er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd.<br>• Cytuno ar lefel y cymorth i'r ysgol drwy gyfarfodydd cychwynnol a rheolaidd a fydd yn cynnwys y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr (a'r Esgobaeth yn achos ysgolion eglwysig).<br>• Cynnig cymorth ysgol i ysgol lle bo'n briodol.<br>• Sefydlu Bwrdd cynnydd yn unol â chylch gorchwyl cytunedig er mwyn cydweithio i gwrdd â'r argymhellion.<br>• Darparu cymorth ychwanegol sylweddol gan y Gwasanaethau Dysgu cyfan er mwyn mynd i'r afael â diffygion penodol.<br>• Ymgymryd â rôl fwy cadarn o ran monitro Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg yr ysgol ac ymweliadau ychwanegol er mwyn asesu cynnydd yn rheolaidd.<br>• Bydd yr ALI yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu i gefnogi, herio a monitro cynnydd ysgol o ran symud allan o gategoreiddio statudol.<br>• Bydd y Cynghorydd Cymorth Ysgolion yn darparu adroddiadau cyson ar gynnydd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Ysgolion, yn ogystal â Chadeirydd y Llywodraethwyr hyd nes y bernir bod yr ysgol yn barod i ddod allan o fesurau arbennig.<br>• Lle nad yw ysgol yn gwella, bydd yr ALI yn defnyddio'i bwerau ymyrryd statudol.</td><td>Fel mater o frys rhaid i'r ysgol wneud y canlynol:<br>• Cydnabod y diffygion a nodwyd a llunio Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg manwl mewn ymgynghoriad â'r Llywodraethwyr, er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hyn.<br>• Darparu copi o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynghorydd Cymorth Ysgolion ac Estyn.<br>• Sefydlu system fonitro i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu'n cael ei roi ar waith o fewn yr amserlen a gytunwyd.<br>• Mynychu a chyfrannu at unrhyw fyrddau cynnydd a sefydlir.<br>• Darparu adroddiadau cynnydd ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn ôl y gofyn.</td></tr>
</table>

**Sylwer bod gan yr ALI bwerau ymyrryd, sy'n dod yn weithredol pan fydd Estyn wedi enwi ysgol fel un sydd angen mesurau arbennig neu un sydd angen gwelliant sylweddol, neu pan fydd gan yr ALI bryderon difrifol ynghylch y canlyniad tebygol i'r ysgol oni cheir ymyrraeth. Mae'r pwerau ymyrryd hyn yn unol â Deddf Addysg ac Arolygu 2006 (Atodiad 7), ac fe'u gweithredir gan yr ALI yn unol â'r materion o bryder penodol a nodir yn yr ysgol.**

**Bydd yr ALl yn defnyddio'i bwerau ymyrryd mor gyflym â phosib, gan ddechrau gyda rhybuddion ffurfiol i wella, er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol cyn gynted â phosib. Dylai hyn osgoi'r angen i Estyn osod yr ysgol mewn unrhyw gategori statudol.**

**Dogfennau Ategol**

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion sy'n Achosi Pryder

## 3. RÔL YR YSGOLION A'R ALL O RAN DATBLYGU PROSES BONTIO EFFEITHIOL

### 3.1 DYSGWYR OEDRAN CYNRADD, TRWY-OED AC UWCHRADD – PONTIO I'R HOLL GYFNODAU ALLWEDDOL

Mae Ysgolion Uwchradd yn ymwybodol o bwysigrwydd trefniadau pontio effeithiol rhwng y cyfnodau allweddol 2 a 3, CA3 a 4 a CA4 a 5. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynorthwyo pobl ifanc a'u rhieni i ddewis cyrsiau priodol yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cefnogaeth glwstwr, cyngor a dysgu proffesiynol pwrpasol, fel hwyluso adran 57 o'r ddeddf asesu wrth geisio datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.<br>• Gweithio ar y cyd i adeiladu, gwerthuso a gweithredu cynllun pontio effeithiol. | • Gweithio ar y cyd i adeiladu a gweithredu cynllun pontio y cytunwyd arno yn effeithiol. (Gweler eich cynllun pontio clwstwr am fwy o fanylion)<br>• Adolygu a gwella'r cynllun pontio yn barhaus. Rhaid gwneud hyn yn flynyddol, fan lleiaf yn unol â chanllawiau gorfodol Llywodraeth Cymru. |

### 3.2 PONTIO AR DRAWS Y CONTINWWM 3 - 16

Rhaid i bob ysgol fod yn ymwybodol o bwysigrwydd trefniadau pontio effeithiol ar draws y continwwm 3-16. Mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid i ddewis llwybrau priodol 14-16 ac ôl-16.

**Dogfennaeth Cefnogi**
- Canllawiau Pontio o ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd - Hwb (llyw.cymru)
- Mae gan bob clwstwr gynllun pontio unigol sy'n cael ei adolygu'n flynyddol yn unol â Rheoliadau Addysg (Pontio o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd) (Cymru) 2022 (Rheoliadau Pontio 2022) a'r Gofyniad i gynhyrchu cynlluniau a chanllawiau pontio 2022.

## 4. CEFNOGI DYSGU PENODOL MEWN YSGOLION

### 4.1 DYSGU SYLFAEN

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Cynorthwyo ysgolion i roi arfer da ar waith yn y Dysgu Sylfaen a brocera cymorth ysgol i ysgol fel bo angen.<br>• Monitro effaith hyfforddiant proffesiynol ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn y stafell ddosbarth.<br>• Darparu cymorth ymgynghorol yn sgil dadansoddiad o anghenion.<br>• Cynnig cymorth ymgynghorol yn dilyn asesiad o anghenion.<br>• Cynnig datblygiad proffesiynol a chyngor ar arfer da wrth asesu i gynorthwyo pob dysgwr i wneud cynnydd.<br>• Hysbysu ac arwain ysgolion mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. | • Sicrhau bod pob aelod staff yn gallu rhoi arfer da ar waith o fewn y Dysgu Sylfaen<br>• Monitro effaith hyfforddiant proffesiynol yn y stafell ddosbarth a sicrhau gweithredu dilynol<br>• Darparu cymorth, a sicrhau bod argymhellion y Tîm Ymgynghorol yn cael eu rhoi ar waith, a'u monitro.<br>• Datblygu gweithdrefnau asesu sy'n rhan annatod o gynllun cwricwlwm sydd â'r nod cyffredinol o gynorthwyo pob dysgwr i wneud cynnydd.<br>Nodi blaenoriaethau'r ysgol drwy broses hunan-werthuso a thargedu mentrau cenedlaethol a lleol i godi safonau a gwella ansawdd |

### 4.2 CONTINWWM 3-16

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Sicrhau bod ysgolion yn adnabod ac yn gallu cael mynediad amserol at gymorth o ansawdd uchel gan awdurdodau lleol a'r cymorth ehangach, yn ogystal ag ysgolion eraill. Mae hyn yn cael ei wella trwy gynnydd mewn cydweithio a chyfathrebu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol.<br>• Darparu cefnogaeth, adborth ac arweiniad i ysgolion ar gynnwys, ansawdd ac effaith eu trefniadau addysgu a dysgu<br>• Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad dysgu.<br>• Gwerthuso effaith ei threfniadau ei hun i gefnogi'r dysgu ac addysgu gorau mewn ysgolion | • Galluogi pob dysgwr, ac yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, i symud ymlaen ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu potensial llawn; yn gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.<br>• Cyd-lunio cwricwlwm, yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithiol) gyda dealltwriaeth glir o pam fod rhain yn bwysig.<br>• Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi llesiant dysgwyr ac ymarferwyr.<br>• Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n effeithiol ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi mewn sgiliau ymchwilio ac addysgeg yr holl staff. |

| | |
|---|---|
| | • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad dysgu.<br><br>• Ymgorffori myfyrdod, hunanwerthuso a gwella o fewn ysgolion, gydag arweinyddiaeth ysgol dda fel rhag-amod ar gyfer hynny.<br>• Curo calon eu cymunedau – trwy feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ragorol, addysg a hyfforddiant y camau nesaf.<br>• Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau |

## 4.3 DARPARIAETH 14-19

| ALI | Ysgol/Corff Llywodraethu |
|---|---|
| • Sicrhau bod yr ysgolion yn gweithredu gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 ac yn darparu Cwricwlwm Lleol addas.<br>• Hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod holl ddysgwyr Ceredigion yn cael cyfle cyfartal a theg i gael mynediad at ystod eang o lwybrau dysgu.<br>• Sicrhau bod y cyrsiau a ddarperir yn cwrdd ag anghenion a datblygiad economaidd y Sir a'u bod â chyswllt â'r Partneriaeth Dysgu a Sgiliau rhanbarthol. (Yn unol â'r ymchwil LMI).<br>• Sicrhau bod dysgwyr 14-19 yn cael y cyfle i ddatgan barn drwy holiaduron 'Llais y Dysgwyr'.<br>• Hybu a sicrhau cynnydd mewn cyfranogiad gan bobl 14-25 oed mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | • Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-19 oed yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau 2009.<br><br>• Drwy gydweithio â sefydliadau eraill, sicrhau bod 6 elfen Allweddol Llwybrau Dysgu 14-19 yn hygyrch ac o fudd i bob dysgwr.<br>• Hybu'r ysgol fel amgylchedd dysgu i bawb. Darparu hyfforddiant sgiliau priodol i'r dysgwyr drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol.<br>• Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i adael yr ysgol gyda chymwysterau.<br>• Sicrhau bod ystod o weithgareddau a gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu ar gyfer y dysgwyr.<br>• Sicrhau bod y 'Cyngor Ysgol' yn gynrychiadol ac yn gynhwysol, ac yn cyfrannu'n effeithiol at rediad yr ysgol. |

## 5. CEFNOGI DISGYBLION AGORED I NIWED

### 5.1 PRESENOLDEB

Bydd ysgolion a'r ALI yn cytuno i osod a monitro targedau presenoldeb er mwyn cwrdd â thargedau meincnodi cenedlaethol.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Gweithredu set gyson a chyffredin o weithdrefnau presenoldeb.<br>• Monitro a dadansoddi cyfraddau presenoldeb, data a gwybodaeth a rennir gydag ysgolion.<br>• Paratoi adolygiad hunanarfarnu presenoldeb blynyddol gyda phob ysgol.<br>• Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer ysgolion gyda phresenoldeb yn Chwarteli meincnodi PYDd 3 a 4 a'r ysgolion hynny nad ydynt yn rhoi gweithdrefnau presenoldeb cyson ar waith.<br>• Paratoi adroddiadau presenoldeb bob hanner tymor ar gyfer Ysgolion Cynradd, gan dynnu sylw at ddisgyblion sydd â phroblemau presenoldeb ac achosion sy'n parhau.<br>• Paratoi cofnodion o gyfarfodydd presenoldeb wythnosol gydag ysgolion uwchradd, gan dynnu sylw at ddisgyblion sydd â phroblemau presenoldeb ac achosion sy'n parhau.<br>• Derbyn pob atgyfeiriad ar gyfer ymchwiliad yn unol â meini prawf Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yr ALI ar gyfer atgyfeirio.<br>Ymweld ag ysgolion (Swyddogion Cynhwysiant Addysg) yn rheolaidd i roi cyngor ac arweiniad ar wella presenoldeb a materion cysylltiedig. | • Gweithredu set gyson a chyffredin o weithdrefnau presenoldeb.<br>• Cadw cofrestr gyflawn a chywir o'r holl ddisgyblion cofrestredig (mae cofrestr yr ysgol yn ddogfen gyfreithiol a chyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau ei bod wedi'i llenwi ac yn gywir).<br>• Cofnodi presenoldeb pob disgybl ar y gofrestr. Dylid cofnodi bob sesiwn fore a phrynhawn yn ystod y tymor gan ddefnyddio'r system electronig.<br>• Penaethiaid i wirio'r cofrestrau electronig ar ddiwedd bob wythnos i sicrhau nad oes 'dim marciau coll', neu farciau 'N'<br>• Monitro cofrestrau'n rheolaidd a nodi disgyblion sydd â chyfraddau presenoldeb o dan 95%. Dilyn y gweithdrefnau priodol a rhannu'r wybodaeth â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.<br>• Ymateb i adroddiadau presenoldeb hanner tymor o fewn 10 diwrnod gwaith (ysgolion cynradd yn unig).<br>• Anfon cyfraddau presenoldeb at yr ALI yn electronig yn unol â chanllawiau LlC<br>• Penaethiaid i gytuno targedau cyfanswm absenoldeb â chorff llywodraethu'u hysgol bob blwyddyn.<br>• Penaethiaid i adolygu a monitro cyfraddau presenoldeb bob hanner tymor a gweithredu pan fo angen.<br>Gweithredu'r adolygiad hunanarfarnu presenoldeb blynyddol a rhoi ar waith unrhyw gynllun gweithredu a all ddeillio o'r hunanarfarniad. |

**Dogfennau Ategol**

Strategaeth Presenoldeb a Templed Polisi Presenoldeb

## 5.2 YMDDYGIAD

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
| --- | --- |
| • Ceisio gwella cyrhaeddiad addysgol drwy leihau nifer y dyddiau a gollir drwy waharddiadau drwy weithio dan arweiniad (Cytundebau Partneriaethau Rheoliadau Cymru 2007).<br>• Cynnig cymorth a chyngor i athrawon, penaethiaid a Staff Ysgolion i'w helpu i gwrdd ag argymhellion LIC ynghylch gweithdrefnau gwahardd fel y'u hamlinellir yn Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (llyw.cymru); neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill gan LIC.<br>• Gweithio'n unol â'r agenda Teuluoedd yn Gyntaf, gan ystyried y dull Tîm o Amgylch y Teulu/Cofleidiol i gynorthwyo teuluoedd gydag anghenion.<br>• Cynnig cefnogaeth a chyngor i athrawon, Penaethiaid a staff ysgolion i ddatblygu ac adolygu asesiadau risg addas<br>• Darparu hyfforddiant, cyngor a mynediad i System Rheoli Digwyddiadau'r ALI.<br>• Dadansoddi a lledaenu data cymharol am waharddiadau tymor penodol a pharhaol o Ysgolion Uwchradd.<br>• Mynychu pob cyfarfod Llywodraethwyr lle trafodir gwaharddiadau parhaol.<br>• Herio ysgolion nad ydynt yn cwrdd â thargedau a/neu anghenion plant a phobl ifanc.<br>• Cynnig darpariaeth integredig o gymorth cynnar cyffredinol a phenodol, gwybodaeth, cyngor ac ymyriadau ar gyfer pob oed. Gwella agweddau ar lesiant personol, cymdeithasol, addysgol, corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolion.<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu, drwy ddull cynhwysol, i hyrwyddo profiadau addysgol mynegiannol a phositif, drwy gwricwlwm amgen a chyfleoedd gwaith/ gwirfoddoli.<br>• Sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – Unicef UK {UN Convention on the Rights of | • Dilyn argymhellion LIC mewn perthynas â gweithdrefnau gwahardd a nodir yn Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (llyw.cymru); neu unrhyw ddogfennau a ddaw wedi hynny gan LIC.<br>• Gweithio gyda Porth Cymorth Cynnar a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyrhaeddiad i glustnodi a darparu cymorth staffio ac adnoddau i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc fel bo'n briodol.<br>• Gweithio'n unol â Phanel Proffesiynol Porth Cymorth Cynnar fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl.<br>• Gweithio er mwyn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fel yr amlinellir yn Cynhwysiant, lles, ymddygiad a phresenoldeb \| Is-bwnc \| LLYW.CYMRU.<br>• Sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – Unicef UK {UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC) - Unicef UK} yn cael ystyriaeth trwy gydol y broses hon.<br>• Cefnogi agenda Tîm o Amgylch y Teulu i weithredu'r dull Cofleidiol, a chyfathrebu â gwasanaethau ychwanegol i ddarparu cymorth fel bo'n briodol.<br>• Helpu i sicrhau diogelwch a lles staff Porth Cymorth Cynnar a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Cyrhaeddiad drwy rannu gwybodaeth briodol, asesiadau risg cyfredol, a dilyn canllawiau iechyd a diogelwch. |

| | |
|---|---|
| the Child (UNCRC) - Unicef UK} yn cael ystyriaeth trwy gydol y broses hon.<br>• Hyrwyddo a datblygu gwydnwch unigol a theuluol, grymusiad ac annibyniaeth, i wella cyrhaeddiad addysgol, ymgysylltiad, a phrofiadau addysgol positif. | |
| Mae gofyn yn ôl y gyfraith i'r Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion fod â chlerc. Gall y sawl sy'n clercio fod yr un person ag sy'n glerc i'r corff llywodraethu neu gall fod yn rhywun arall. | |

**Dogfennau Ategol:**
Cynhwysiant, lles, ymddygiad a phresenoldeb | Is-bwnc | LLYW.CYMRU
Cynnig Ieuenctid a Chymunedol - Cyngor Sir Ceredigion /.
https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
https://www.cwvys.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/YOUTH-WORK-IN-WALES-PRINCIPLES-AND-PURPOSES.pdf
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/families-first-performance-management-guidance-for-local-authorities_0.pdf;
Ffurflen Rheoli Digwyddiadau (Incident Management Remote Form (info-exchange.com))

## 5.3 POLISI DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWNEGOL YMHOB YSGOL

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Cyfathrebu a chynnig arweiniad i ddarparwyr blynyddoedd cynnar o ran cwrdd ag anghenion disgyblion cyn-ysgol a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol.<br>• Datblygu meini prawf i ysgolion glustnodi disgyblion ar bob cam o'r Gofrestr ADY, ac adolygu darpariaeth yn unol â Chod Ymarfer ADY Cymru 2001, ac yn unol â Strategaeth ADY yr ALI.<br>• Cynnal cyfarfodydd cynllunio a gwerthuso darpariaeth ADY â phob Ysgol.<br>• Cynnig arweiniad a chymorth i ysgolion o ran sut i gwrdd ag anghenion, drwy ymateb wedi'i raddoli.<br>• Dosbarthu adnoddau i ysgolion i gyflawni'r lefel briodol o ddarpariaeth i gwrdd ag anghenion disgyblion yn unol â Strategaeth ADY yr ALI.<br>• Darparu lefel uchel o ddysgu proffesiynol i ysgolion a staff, i gwrdd ag anghenion disgyblion yn unol â strategaeth ADY Ceredigion. | • Enwebu aelod o'r Corff Llywodraethu â chyfrifoldeb am Ddiogelu Plant ac am ADY.<br>• Mynd ati mewn modd cynhwysol i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl.<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Gwacáu Brys Personol (CGBP) ar waith ar gyfer unigolion y mae angen cymorth arnynt i adael mewn argyfwng.<br>• Clustnodi disgyblion y mae eu dysgu neu eu hymddygiad yn destun pryder ar bob lefel o God Ymarfer ADY Cymru 2002.<br>• Sicrhau ymyrraeth gynnar i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, a sicrhau gwahaniaethu priodol, er mwyn diwallu anghenion y disgyblion.<br>• Darparu cymorth wedi'i raddoli i ddisgyblion.<br>• Lle bo ysgolion yn bryderus am ddisgyblion unigol, yn sgil monitro ac adolygu, dylent gyfeirio at Banel Cymorth yr ALI, gan ddefnyddio'r ffurflen Cais am Gymorth Cynhwysiant. |

| | |
|---|---|
| • darparu hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, Tân a Chodi a Chario yn ôl yr angen<br>• Cynnal Asesiadau Statudol o ADY a monitro'r ddarpariaeth fel bo angen. | • Darparu cyngor addysgol o safon uchel fel rhan o'r adolygiad a'r asesiad o anghenion plant.<br>• Pan fydd y gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i dirprwyo i'r ysgol, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl yn yr ysgol. |

**Dogfennau Ategol:**
Anghenion Addysgol Arbennig: Cod Ymarfer ar gyfer Cymru: Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | LLYW.CYMRU
Strategaeth ADY Ceredigion: (Ysgolion ac Addysg - Cyngor Sir Ceredigion)

## 5.4 CYMORTH I BLANT SY'N DERBYN GOFAL (LAC)

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Gweithio'n agos fel partneriaid cynllunio cymunedol gan rannu'r cyfrifoldeb dros blant sy'n derbyn gofal.<br>• Sefydlu gweledigaeth glir a blaenoriaethau i wella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.<br>• Sicrhau bod yna ddull trylwyr a systematig o fonitro cyrhaeddiad, cynnydd academaidd a phresenoldeb plant sy'n derbyn gofal.<br>• Sicrhau bod yna ddull trylwyr a systematig o werthuso gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.<br>• Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. | • Sicrhau bod yna gyfrifoldeb ar y cyd dros nodi a chwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a chael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag llwyddo ym myd Addysg.<br>• Sicrhau bod derbyniadau, rhaglenni dysgu a chymorth yn cael eu trefnu a'u cytuno gyda'r staff perthnasol yn ddi-oed.<br>• Gosod disgwyliadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a sefydlu gwaith partneriaeth cadarn i gwrdd â'u hanghenion.<br>• Hyrwyddo agweddau positif a disgwyliadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chydnabod a dathlu eu llwyddiannau.<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) yn cael eu cwblhau a bod modd mynychu'r cyfarfodydd adolygu aml-asiantaeth.<br>• Defnyddio gwaharddiad fel sancsiwn a defnydd o ddulliau eraill ar wahân i waharddiad cyfnod penodol.<br>• Cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal a rhoi gwrandawiad iddyn nhw.<br>• Rhaid bod gan bob ysgol gydlynydd LAC (Plant sy'n Derbyn Gofal) Dynodedig a rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn hysbys i'r holl staff. |

## 5.5 CYMORTH I DDISGYBLION SYDD Â SAESNEG YN IAITH YCHWANEGOL (SIY)

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Parhau i reoli elfen Lleiafrifoedd Ethnig y Grant Gwella Addysg ar ran ysgolion yr awdurdod.<br>• Darparu cymorth rheolaidd i ysgolion priodol i fonitro cynnydd disgyblion SIY.<br>• Darparu cyngor, cymorth a hyfforddiant ar gwrdd ag anghenion disgyblion o ran cael mynediad at y Cwricwlwm.<br>• Cadw'n gyfredol â'r ymchwil a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch SIY a rhannu arfer effeithiol.<br>• Dosrannu cyllid i'r ysgolion sydd â'r niferoedd uchaf o ddisgyblion SIY i ddarparu cymorth | • Rhoi gwybod i'r gwasanaeth ymgynghorol SIY pan fydd disgyblion newydd yn cyrraedd a bod angen gwasanaethau cymorth.<br>• Cadw cofnodion cywir a chyfredol o ddisgyblion SIY a'u lefelau, a rhannu'r rhain â'r Gwasanaeth Ymgynghorol. Archwilio data perthnasol i nodi meysydd sy'n peri pryder ac ymateb yn briodol i'r her o fynd i'r afael â'r rhain.<br>• Manteisio ar hyfforddiant a gynigir i ehangu'r sail wybodaeth a chynnig darpariaeth gyson a pharhaus ar draws ysgolion. |

| | |
|---|---|
| priodol. Cymorth i ddarparu gwasanaethau arbenigol yn ôl yr angen e.e. gwasanaethau cyfieithu, adnoddau dwyieithog. | • Penaethiaid i sicrhau bod athrawon sydd â disgyblion SIY yn eu dosbarth yn cyfathrebu'n rheolaidd â staff cymorth i sicrhau bod y ddarpariaeth yn hybu cynnydd ac yn gwella mynediad at y cwricwlwm. |

## 5.6 DIOGELU PLANT

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Gall y Swyddog Diogelu Plant a enwir gan yr ALI gynnig cyngor ac arweiniad i Gydlynydd Diogelu Plant/Pennaeth yr Ysgol a Llywodraethwr Diogelu Plant Dynodedig y Corff Llywodraethu.<br>• Bydd yr ALI yn cynnig hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 2 i Gadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig a fydd yn cynnwys recriwtio diogel a'r gweithdrefnau i'w dilyn os gwneir honiadau yn erbyn aelodau staff.<br>• Bydd yr ALI yn trefnu hyfforddiant penodol ar gyfer y Person Diogelu Plant Dynodedig yr Ysgol yn rheolaidd.<br>• Bydd y Swyddog Diogelu Plant a enwir gan yr ALI yn archwilio Polisïau Diogelu ac arferion pob ysgol yn flynyddol.<br>• Cynnig cefnogaeth a chyngor i athrawon, Penaethiaid a staff yr ysgol i ddatblygu ac adolygu asesiadau risg addas fel bo angen. | • Rhaid i'r Corff Llywodraethu enwebu Llywodraethwr Diogelu Plant, a rhaid i'r Ysgol gael aelod staff a enwir fel Cydlynydd Diogelu Plant o fewn yr ysgol. Rhaid i'r Cydlynydd Ysgol a enwir fod yn hysbys i'r holl staff.<br>• Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod y Cadeirydd yn cael ei hysbysu am yr honiad a bydd yn gwahodd y cadeirydd i fynychu cyfarfodydd strategaeth o dan Adran 5 o 'Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ' lle ystyrir honiadau/pryderon ynghylch ymarferwyr a Rhai sydd mewn Swyddi o Ymddiriedaeth. Gwahoddir y Cydlynydd Diogelu Plant/Pennaeth hefyd i bob cyfarfod strategaeth.<br>• Bydd **disgwyl** i'r Cadeirydd a'r Llywodraethwr Dynodedig fynychu hyfforddiant lefel 2 er mwyn iddynt fod yn gyfarwydd â'u rôl a'u cyfrifoldebau.<br>• **Rhaid** i'r Person Diogelu Dynodedig yr Ysgol a'u Dirprwy fynychu hyfforddiant Lefel 2 er mwyn iddo/iddi fod yn gyfarwydd â'i rôl a'i (ch)gyfrifoldebau, sydd hefyd yn cynnwys Hyfforddiant PREVENT.<br>• Anogir pob Llywodraethwr i dderbyn hyfforddiant lefel 1.<br>• Sicrhau bod asesiad risg addas a digonol yn ei le, fel bo angen. |

**Dogfennau Ategol**
**https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/keeping-learners-safe-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act.pdf**

**Cadw dysgwyr yn ddiogel:** **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-04/210419-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-rol-awdurdodau-lleol-cyrff-llywodraethu-pherchnogion-ysgolion-annibynnol-o-dan-ddeddf-addysg.pdf**

## 6. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

### 6.1 CEFNOGI CYNNYDD YN Y DDARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG A GWELLA SAFONAU'R GYMRAEG

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Sicrhau a monitro bod pob ysgol yn darparu'r wybodaeth gywir am ei diffiniad ieithyddol ar CYBLD yn flynyddol; darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am gategori'r ysgol yn unol â'r dynodiad perthnasol.<br>• Adrodd ar gynnydd perthnasol yn erbyn y Cynllun Addysg Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.<br>• Sicrhau bod Polisi Iaith Ysgolion Cyngor Ceredigion yn cael ei weithredu ymhob un o'i ysgolion.<br>• Darparu gwasanaeth Athrawon Cefnogi'r Gymraeg i fonitro a chefnogi cynnydd yn y Gymraeg mewn ysgolion yn seiliedig ar angen.<br>• Darparu cyfleoedd priodol i hwyrddyfodiaid oedran cynradd fynychu canolfannau iaith er mwyn cyflymu proses caffael iaith hwyrddyfodiaid.<br>• Darparu cyngor, hyfforddiant ac adnoddau priodol er mwyn hyrwyddo datblygiad y Gymraeg mewn ysgolion, fel pwnc ac fel cyfrwng. | • Darparu diffiniad ieithyddol cywir ar CYBLD yn flynyddol, darparu gwybodaeth berthnasol i rieni am ddarpariaeth ieithyddol yr ysgol yn unol â'r diffiniad perthnasol a chytunedig.<br>• Creu a monitro cynllun gweithredu'r iaith Gymraeg gyda swyddogion ALI.<br>• Cydweithio a chyd-gynllunio â'r ALI ar dargedau'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg cyfredol (2022-2032).<br>• Cydweithio â'r ALI i weithredu ei Bolisi Iaith Ysgolion yn llwyddiannus er mwyn cefnogi'r weledigaeth a'r nod o gael miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050.<br>• Ysgolion sy'n derbyn y gwasanaeth i gydweithio'n llawn ac yn effeithiol gydag Athrawon Cefnogi'r Gymraeg er mwyn codi safonau'r Gymraeg.<br>• Ysgolion i drafod a hyrwyddo manteision Canolfannau Iaith gyda theuluoedd a disgyblion. Ysgolion i fonitro cynnydd hwyrddyfodiaid i'r Ysgol.<br>• Ysgolion i nodi anghenion datblygu penodol a chlustnodi cyllidebau penodol i gwrdd â gofynion hyfforddi ac adnoddau. |

# 7. CYMORTH BUSNES

## 7.1 DATA / GWYBODAETH

Gan gynnwys cyfrifoldeb yr ALI i gynnal a datblygu systemau gwybodaeth effeithiol gydag ysgolion, a dyletswydd yr ysgolion i gynnal, diweddaru a defnyddio data.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu arweiniad i ysgolion fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn perthynas â chasglu, cadw a darparu data am ddisgyblion (Presenoldeb, Canlyniadau Profion a data Cyfrifiadau Blynyddol).<br>• Cynnal cronfa ddata ganolog o fanylion disgyblion a rheoli gwybodaeth am dderbyniadau, trosglwyddiadau, hawl i Brydau Ysgol am Ddim, statws ADY a LAC ac ati. (Gwybodaeth wedi'i chasglu oddi wrth Rieni ac Ysgolion).<br>• Darparu data perfformiad o safon uchel i bob ysgol ganol ac uwchradd i ategu data Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:<br>  ○ Adroddiadau manwl yn dangos perfformiad CA4/5;<br>  ○ Cymorth ar gyfer systemau tracio disgyblion e.e. mesur CA4/5 dros dro<br>• Sicrhau bod adroddiadau a gwybodaeth berthnasol a dderbynnir oddi wrth LIC ar gael.<br>• Cofrestru ysgolion ar gyfer gwarchod data gyda'r SCG. | • Ymgymryd â threfniadau asesu disgyblion yn unol â rhaglenni a gytunwyd, a darparu'r ALI â gwybodaeth am berfformiad i hwyluso dadansoddiad.<br>• Ymgymryd ag arfarniad a dadansoddiad parhaus effeithiol o ddata er mwyn dangos cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu yn glir. Mynd i'r afael â nhw a'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY).<br>• Anfon data cywir ymlaen at yr ALI o fewn yr amserlen benodedig.<br>• Gwirio bod yr wybodaeth dros dro a ddarperir gan LIC (SSSP, a NEWBEs ac ati) yn gywir, fel y bydd yn bwydo i mewn i Adroddiadau Terfynol yn gywir.<br>• Diweddaru data disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl fanylion yn gywir. |
| Mae'r ALI hefyd yn cynnig mynediad llawn at gofnodion canolog disgyblion drwy'r Ganolfan Athrawon (system wybodaeth ar gyfer rheoli ysgolion). | |

## 7.2 MATERION SAFLEOEDD

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â rheoli safleoedd ysgol.<br>• Darparu cyllid yng nghyllidebau ysgolion at drwsio a chynnal a chadw, a chyllid at brosiectau cyfalaf.<br>• Ymgymryd â gwaith cyfalaf mawr mewn perthynas â safleoedd ysgol.<br>• Darparu arweiniad ynghylch dyletswydd y landlord a dyletswydd yr ysgol fel tenant o ran cynnal a chadw.<br>• Cynghori ysgolion o ran eu cyfrifoldebau mewn perthynas â materion atgyweirio a chynnal a chadw, a chynnal a chadw tiroedd.<br>• Ymgymryd â gwaith yn unol â'r Rhaniad Cyfrifoldebau rhwng yr ALI ac Ysgolion/ Llywodraethwyr fel y manylir arno yn y ddogfen "Cyfrifoldeb am Drwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion y Sir".<br>• Trafod a chynghori ynghylch mân welliannau ar safleoedd ysgol.<br>• Cynnal profion rheolaidd ar wahanol ddyfeisiau<br>• Gwneud gwahanol asesiadau e.e. asbestos, legionela.<br>• Monitro cyflwr safleoedd. | • Rhoi gwybod i'r ALI cyn dechrau unrhyw waith cynnal a chadw sy'n golygu defnyddio offer pŵer.<br>• Sicrhau bod y safle yn cael ei gadw mewn cyflwr da a'i fod yn cwrdd â gofynion Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch o ran safleoedd.<br>• Cwblhau a dychwelyd Archwiliad Iechyd a Diogelwch bob blwyddyn.<br>• Pennu'r gyfran o'r gyllideb weithiol sydd i'w neilltuo at drwsio a chynnal a chadw.<br>• Cytuno ar raglen cynnal a chadw<br>• Dod â materion sy'n destun pryder mewn perthynas â rheoli safleoedd neu diroedd at sylw'r ALI.<br>• Trafod materion sy'n destun pryder mewn perthynas â chynnal a chadw gyda'r Gwasanaethau perthnasol<br>• Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn unol â'r Rhaniad Cyfrifoldebau rhwng yr ALI ac Ysgolion/Llywodraethwyr fel y manylir arno yn y ddogfen "Cyfrifoldeb am Drwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion y Sir".<br>• Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw asesiadau ar yr adeilad cyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw. |
| Mae'r ALI hefyd yn cynnig cymorth, drwy'r CLG, gyda phob agwedd ar waith sy'n ymwneud â rheoli safle'r ysgol.<br>**Oherwydd y gofynion cyfreithiol a'r canlyniadau posib mewn perthynas â'r maes cyfrifoldeb hwn, mae gofyn i ysgolion/llywodraethwyr roi ystyriaeth o ddifrif i'r cwestiwn o lofnodi CLG a ddarperir gan yr ALI, a fydd yn amddiffyn ysgolion/llywodraethwyr os cwyd materion sy'n destun pryder.** | |

## 7.3 MATERION LANDLORDIAID A THENANTIAID

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Cynghori ysgolion ynghylch materion rheoli ystadau, gan gynnwys cwestiynau'n ymwneud â ffiniau, perchnogaeth tir, hawliau tramwy, rhyddfreintiau, fforddfreintiau ac ati. | • Dod â materion sy'n destun pryder mewn perthynas â rheoli safleoedd neu diroedd at sylw'r ALI, a chynghori ymlaen llaw ynghylch unrhyw gytundebau trydydd parti y bwriedir |

| | |
|---|---|
| • Trafod telerau a chaniatáu prydlesi a chytundebau gyda sefydliadau/partneriaid eraill e.e. Clybiau Cyn ac Ar Ôl yr Ysgol. | ymrwymo iddynt all effeithio ar y tir, adeiladau neu unrhyw hawliau a gedwir. |

## 7.4 MATERION YSWIRIANT

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cyngor, a threfnu yswiriant ar gyfer adeiladau a'u cynnwys.<br>• Trefnu yswiriant gweithgareddau oddi ar safle'r ysgolion<br>• Rheoli hawliau yswiriant yn erbyn yr ysgol/Corff Llywodraethu<br>• Cydlynu gwelliannau risg ac archwiliadau peirianegol<br>• Darparu cyngor ar faterion ym ymwneud ag yswiriant | • Trafod anghenion yswiriant gyda'r adran yswiriant<br>• Rhoi gwybod am unrhyw risgiau/hawliau<br>• Darparu unrhyw wybodaeth a ofynnir amdano mewn modd amserol<br>• Rhoi ystyriaeth i reoli risg a lliniaru. |

## 7.5 RHEOLI SAFLEOEDD YSGOL

Yn achos yr holl ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr ALI sy'n berchen yr eiddo ac sydd â statws landlord; mae'r ysgol yn meddiannu ac yn defnyddio'r safle fel tenant. NID yw'r ALI yn berchen ar yr eiddo yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Rhoi caniatâd ysgrifenedig, fel bo'n briodol, i'r Corff Llywodraethu i feddiannu a defnyddio'r safle.<br>• Rhoi cyfarwyddyd penodol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol am y defnydd o safleoedd mae'n berchen arnynt neu'n eu cynnal.<br>• O dan amgylchiadau eithriadol, defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo i roi arweiniad ar y defnydd o ysgolion a gynhelir.<br>• Darparu cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â hurio safleoedd ysgol – Polisi Gosod Ysgolion. | • Cadw mewn cof y budd o sicrhau bod y safle ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned. Fodd bynnag, ni chaiff y Corff Llywodraethu newid defnydd, na chael gwared ag unrhyw elfen o'r safle y mae'r Awdurdod yn berchen arni, e.e. caeau chwarae ac ati, heb gydsyniad ysgrifenedig yr Awdurdod.<br>• Ystyried cytundeb trosglwyddo rheolaeth os mai ei ddiben yw hyrwyddo defnydd o safle'r ysgol gan y gymuned – yn amodol ar y rheoliadau a osodir yn Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008.<br>• Cydymffurfio â pholisi 'Gosod Ysgolion' yr ALI gyda'r trefniadau ar gyfer pob defnydd tymor byr, sesiynol o safleoedd ysgolion a gynhelir (gan gynnwys defnydd sy'n gysylltiedig â dibenion yr ysgol, e.e. digwyddiadau'r gymdeithas rhieni ac athrawon i godi arian i'r ysgol ac ati, neu ddigwyddiadau sydd o fudd i'r gymuned e.e. gweithgareddau cynllun |

| | |
|---|---|
| | chwarae yn ystod y gwyliau ac ati). Dylai'r Corff Llywodraethu ystyried y canllawiau ar gyfer gosod y ffioedd am ddefnydd o'r fath cyn eu gosod, ynghyd ag unrhyw amodau ar ddefnydd. |

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008

## 7.6 MATERION IECHYD A DIOGELWCH

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cyngor ac arweiniad ar bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch.<br>• Cynorthwyo ysgolion i gwrdd â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a diogelwch tân.<br>• Monitro'r sefyllfa i sicrhau bod gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni.<br>• Cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch.<br>• Darparu cyngor ac arweiniad ar faterion iechyd a diogelwch.<br>• Darparu cyngor a chymorth gyda gofynion hyfforddiant iechyd a diogelwch.<br>• Cynorthwyo i gynnal asesiadau risg cymhleth.<br>• Darparu cyngor ar amodau gwaith diogel ar gyfer gweithwyr, disgyblion, ymwelwyr ac eraill ar safle'r ysgol.<br>• Gweithredu cyfrifoldeb cyflogwr am iechyd a diogelwch gweithwyr ar safle'r ysgol.<br>• Darparu mynediad i a hyfforddiant ar System Rheoli Digwyddiadau'r ALI.<br>• Cynorthwyo i gynnal ymchwiliadau cymhleth i ddigwyddiadau.<br>• Rhoi gwybod am unrhyw Anafiadau, Clefydau neu Digwyddiadau Peryglus i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (RhACDP)<br>• Cydweithio ag asiantiaethau gorfodi ar ran yr ysgol e.e. Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch, Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru ac ati.<br>• Cwblhau ac adolygu Asesiad Risg Tân gyda chynrychiolydd yr ysgol | • Datblygu trefniadau rheoli lleol er mwyn gweithredu polisïau a gofynion iechyd a diogelwch yr ALI.<br>• Enwebu Llywodraethwr i fod yn gyfrifol am faterion Iechyd a Diogelwch yr ysgol.<br>• Cynnal Archwiliad Iechyd a Diogelwch blynyddol yn ystod Tymor yr Hydref a sicrhau bod hwn yn cael ei ddychwelyd i'r ALI cyn gwyliau'r Nadolig.<br>• Rheoli safle a/neu weithgareddau'r ysgol o ddydd i ddydd, gan fabwysiadu arferion diogel yn unol â'r asesiadau risg a/neu'r arweiniad a ddarperir gan yr ALI.<br>• Cydweithio â'r ALI, gan gynnwys ei drefniadau monitro, a rhoi gwybod i'r Awdurdod am unrhyw faterion a allai beryglu ei allu, fel cyflogwr, i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau iechyd a diogelwch.<br>• Sicrhau bod pob damwain, digwyddiad neu amod peryglus yn cael ei hysbysu a'i archwilio yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol.<br>• Sicrhau bod pob dogfen a gwiriadau tân wedi'u cwblhau a'u dogfennu, gan gynnwys driliau gwacáu tymhorol a'u storio mewn lleoliad hygyrch.<br>• Annog gweithwyr i gymryd rhan mewn rheoli iechyd, diogelwch a risgiau yn yr ysgol, a bod pwyllgor iechyd a diogelwch effeithiol yn cwrdd yn rheolaidd i gefnogi ymdrechion rheolwyr i ddatblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>• Sicrhau bod darpariaeth ar gyfer uwchraddio, atgyweirio a chynnal a chadw safle'r ysgol yn cadw'r ysgol yn ddiogel drwy:- |

| | |
|---|---|
| • Darparu cyngor ar fesuriadau adfer diogelwch tân, gan gynnwys cynlluniau gweithredu tân a chynlluniau gwacáu brys personol<br>• Darparu Swyddogion Diogelwch Ymbelydredd i roi cyngor ac arweiniad<br>• Sicrhau bod aelodaeth CLEAPSS yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn | ○ Sicrhau bod unrhyw ddiffygion a/neu amodau peryglus a nodir o fewn y gweithle(oedd) yn cael eu hysbysu a'u trin yn brydlon.<br>○ Cynnal archwiliadau a/neu gerdded o amgylch y safle o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y mesurau i reoli peryglon yn dal i fod yn effeithiol, a bod allanfeydd diogel yn cael eu darparu a'u cynnal (e.e. bod llwybrau dianc rhag tân yn glir o rwystrau, a bod y system larwm tân yn gweithio).<br>• Sicrhau bod materion iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried wrth wneud y canlynol:<br>○ Penodi a/neu oruchwylio gweithwyr contract, a sicrhau mai dim ond contractwyr cymwys a gyflogir, yn unol â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch a/neu mynediad perthnasol,<br>○ Dewis, pennu, cyrchu a/neu gyflwyno offer a/neu sylweddau i'r gweithle.<br>• Sicrhau bod gweithwyr neu ddisgyblion yn defnyddio unrhyw offer, peirianwaith, neu sylwedd peryglus yn unol â'r cyfarwyddyd a/neu'r hyfforddiant a gawsant.<br>• Darparu offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer gweithwyr a disgyblion, a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio.<br>• Sicrhau bod staff a llywodraethwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â'r ALl ar arolygon iechyd a diogelwch a dychwelyd ymatebion yn ôl yr amserlen.<br>• Diogelu a Rheoli Safle<br>• Darparu rhestr gyfredol o bersonél sydd wedi'u hyfforddi<br>• Cynnal asesiadau risg addas a digonol gyda chymorth y tîm iechyd a diogelwch<br>• Trafod materion iechyd a diogelwch sy'n achosi pryder gyda'r Awdurdod.<br>• Ysgolion Uwchradd i apwyntio Swyddog Diogelwch Ymbelydredd fel pwynt cyswllt. |

## 7.7 YMWELIADAU ADDYSGOL

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cyngor ac arweiniad ar unrhyw weithgareddau antur ac ymweliadau addysgol tramor.<br>• Cadw cofnodion cywir o'r holl weithgareddau antur ac ymweliadau addysgol tramor.<br>• Cymeradwyo tripiau addysgol sy'n cynnwys gweithgareddau antur ac ymweliadau addysgol tramor.<br>• Monitro samplau o wibdeithiau a thripiau.<br>• Cynorthwyo gydag asesiadau risg pan fo angen.<br>• Cynorthwyo i roi gwybod am, ac ymchwilio i ddigwyddiadau pan fo angen.<br>• Cynorthwyo gyda'r monitro a helpu staff gyda'r system EVOLVE.<br>• Darparu hyfforddiant a chymorth i staff a Chydlynwyr Ymweliadau Addysgol ar ddefnyddio'r system EVOLVE | • Sicrhau bod pob ymweliad addysgol yn cydymffurfio â Pholisi Ymweliadau Addysgol Cyngor Sir Ceredigion.<br>• Cael cymeradwyaeth amlinellol o'r ALI ynghylch unrhyw ymweliadau tramor cyn mynd i gytundeb (o leiaf 28 diwrnod cyn yr ymweliad).<br>• Cael sêl bendith yr ALI ar gyfer unrhyw ymweliadau sy'n cynnwys gweithgareddau antur neu amgylcheddau anodd (o leiaf 28 diwrnod cyn yr ymweliad).<br>• Apwyntio Cydlynydd Ymweliadau Addysgol (CYA)<br>• Y cydlynydd Ymweliadau Addysgol a'r Pennaeth i fynychu Hyfforddiant Cydlynydd Ymweliadau Addysgol. |

## 7.8 Y GWASANAETH ARLWYO

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Rhoi cyngor i staff ysgolion ar ddarparu bwydlen iach sy'n cydymffurfio â gofynion Mesur Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion (Cymru) 2009.<br>• Asesu safonau'r ddarpariaeth fwyd trwy gydol y diwrnod ysgol.<br>• Paratoi bwydlen ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion bwyd arbennig.<br>• Ymchwilio i unrhyw gwynion ynghylch safon prydau ysgol.<br>• Darparu sesiynau arbennig, er enghraifft coginio gyda'r disgyblion, sesiynau blasu, neu drefnu bwydlen arbennig i gefnogi'r cwricwlwm.<br>• Mynychu cyfarfodydd rhieni a'r cyngor ysgol os oes angen.<br>• Darparu bwydlenni a thaflenni gwybodaeth i rieni ynglŷn â bwyta'n iach.<br>• Darparu cyngor ar becynnau bwyd iach.<br>Annog mwy o ddisgyblion i gael prydau ysgol.<br>Monitro'r Fenter Brecwast mewn Ysgolion Cynradd. | • Anfon llythyrau hysbysu at rieni sydd ar ei hôl hi gyda thaliadau am brydau ysgol (os yw'n briodol)<br>• Cyfathrebu unrhyw ofidiau ynghylch y fwydlen neu safon y prydau bwyd.<br>• Rhoi gwybod yn syth os nad yw hi'n bosibl coginio prydau poeth yn yr ysgol.<br>• Sicrhau bod y Ffurflen Diet Sydd Wedi'i Rhagnodi'n Feddygol wedi'i llenwi a'i gwirio gan feddyg ar gyfer plant ag anghenion diet arbennig, ac anfon copi at yr Awdurdod Lleol yn ddi-oed. [Darpariaeth Deiet Arbennig (ceredigion.gov.uk)]<br>• Cynnwys yn adroddiad y llywodraethwyr wybodaeth am y camau a gymerwyd i hybu bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion yr ysgol.<br>• Annog pobl i gymryd prydau bwyd ysgol a llaeth ysgol a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i dderbyn cinio ysgol a llaeth ysgol am ddim yn eu derbyn.<br>• Sicrhau bod ceginau'n cwrdd â safonau glendid bwyd ar gyfer ysgolion sydd wedi optio allan o'r gwasanaeth arlwyo.<br>• Cymryd camau i sicrhau bod disgyblion sy'n dod â phecynnau cinio o gartref yn cydymffurfio â Mesur Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ar gyfer ciniawau ysgol a'r Cynllun Ysgolion Iach.<br>• Sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael am ddim i'r disgyblion bob amser.<br>• Sicrhau bod Gwasanaeth Arlwyo'r ALI yn cael ei hysbysu os derbynnir cais i hurio cegin, ac eithrio mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.<br><br>Bydd yr ALI yn mynd i'r afael â'r materion canlynol o ran ysgolion sy'n mabwysiadu CLG Arlwyo'r ALI:<br>• Sicrhau bod ceginau'n cwrdd â safonau glendid bwyd ac yn gweithio gyda'r ysgolion mewn unrhyw drafodaethau gydag Iechyd yr Amgylchedd. |

| | |
|---|---|
| | • Darparu bwydlenni a thaflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni ar fwyta'n iach trwy wefan y Cyngor/Ysgol.<br>• Sicrhau defnydd o gyflenwyr cymeradwy'r ALI, sydd wedi'u harchwilio gan drydydd parti.<br>• Darparu trefniadau amgen i sicrhau bod disgyblion yn cael prydau oer os bydd toriad yn y cyflenwad trydan neu os bydd yr offer yn methu.<br>• Darparu'r staff â hyfforddiant Iechyd a Diogelwch. |
| ***Ar gyfer Ysgolion sydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth:***<br>Ar yr ALI y disgyn y cyfrifoldeb statudol am unrhyw faterion glendid bwyd sy'n codi a'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â dyletswydd statudol Mesur Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion (Cymru) 2009.<br><br>***Ar gyfer Ysgolion nad ydynt wedi ymrwymo i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth:***<br>Ar y Corff Llywodraethu a'r pennaeth y disgyn y cyfrifoldeb statudol am unrhyw faterion glendid bwyd sy'n codi a'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â dyletswydd statudol Mesur Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion (Cymru) 2009. | |

**Dogfennau Ategol**
Cynllun Gweithredu Blas am Oes

## 7.9 MYNEDIAD I ADDYSG : POLISI DERBYN

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu ystod a nifer priodol o leoedd ysgol.<br>• Cydlynu trefniadau effeithiol ar gyfer derbyn plant i ysgolion.<br>• Cyfrifo rhif capasiti a rhif derbyn yr ysgol.<br>• Paratoi a chyflwyno achosion yr ALI gerbron y Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion.<br>• Cynrychioli'r ALI yn y Fforwm Derbyn i Ysgolion. | • Dilyn polisi Derbyn yr ALI. Dim ond derbyn disgyblion sydd wedi'u derbyn gan Awdurdod Derbyn yr ALI.<br>• Cytuno niferoedd derbyn blynyddol gyda'r Awdurdod.<br>• Rheoli maint dosbarthiadau mewn ffordd briodol. |

**Dogfennau Ategol:**
Polisi Derbyn Disgyblion gan gynnwys Capasiti a Niferoedd Ysgolion

## 8. GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHWYR

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu gwasanaeth i sefydlu Cyrff Llywodraethu/Cyrff Llywodraethu Cysgodol sy'n golygu paratoi a diweddaru Offerynnau Llywodraeth.<br>• Darparu help a chyngor i Lywodraethwyr a Phenaethiaid ar reoli materion rheoleiddiol a gweithdrefnol i'w helpu i gyflawni'u swyddogaethau.<br>• Arwain Fforymau i friffio llywodraethwyr ar fentrau lleol a chenedlaethol newydd, ac i rannu arfer gorau.<br>• Darparu rhaglen hyfforddiant gydlynol ar gyfer Llywodraethwyr, sy'n cydymffurfio â chanllawiau deddfwriaeth ALI/LIC.<br>• Cynnig cyngor, cymorth a hyfforddiant i Gyrff Llywodraethu a/neu'u clercod.<br>• Darparu polisïau, canllawiau ac adnoddau gan gynnwys Agenda bob tymor.<br>• Cynnig arweiniad a chyngor ar y broses o gynnal etholiadau llywodraethwyr. | • Cydymffurfio â Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion \| LLYW.CYMRU.<br>• Hwyluso trefniadau partneriaeth da ag ysgolion eraill, Cyrff Llywodraethu a'r ALI.<br>• Gweithio gyda'r ALI i wella gweithdrefnau recriwtio a dewis, a sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi ar y cyfle cyntaf gan bersonél cymwys.<br>• Gweinyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y llywodraethwyr angenrheidiol.<br>• Gweinyddu'r broses o benodi llywodraethwyr yr awdurdod, a llywodraethwyr ysgol o blith athrawon, staff, rhieni, ac unigolion a gyfetholwyd.<br>• Diweddaru'r ALI ynghylch manylion aelodaeth y Corff Llywodraethu yn ystod tymor yr Hydref ac wrth i'r newidiadau ddigwydd.<br>• Gweithredu unrhyw ofynion deddfwriaethol newydd a gyflwynir gan LIC/ALI o fewn y fframiau amser penodedig.<br>• Sefydlu Is-bwyllgorau gorfodol a chyfrifoldebau Llywodraethwyr a sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau dirprwyedig.<br>• Sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei gofnodi a'i uwch-lwytho i Teams.<br>• Cwblhau'r Adroddiad Blynyddol i Rieni, ei osod ar wefan yr ysgol a'i gyflwyno i'r ALI.<br>• Darparu a chymeradwyo cyllidebau ysgol.<br>• Llunio adroddiad tymhorol gan ddefnyddio'r templed ALI priodol a'i uwchlwytho i Teams 5 diwrnod cyn y cyfarfod.<br>• Sicrhau bod yr holl Lywodraethwyr yn mynychu hyfforddiant gorfodol a ystyrir yn statudol gan LIC neu'r ALI neu hyfforddiant arbenigol fel bo'n ofynnol.<br>• Cadw cofnodion llywodraethwyr: aelodaeth, telerau gwasanaeth a chofnodion cyfarfodydd, ac anfon y rhain at yr ALI bob tymor.<br>• Casglu ffurflenni datgan buddiannau gan y Llywodraethwyr bob tymor yr Hydref a chadw rhain yn yr ysgol. |

| | |
|---|---|
| | • Casglu gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd tymhorol llywodraethwyr ynghylch nifer yr achosion o fwlio yn yr ysgol, a rhoi gwybod i'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol amdanynt.<br>• Caniatáu Swyddogion ALI i fynychu cyfarfodydd BLI i ddarparu cyngor a chanllawiau lle bo'n briodol a lle bo angen.<br>• Cynnal cyfarfodydd mewn dull hybrid er mwyn sicrhau'r presenoldeb a'r hygyrchedd mwyaf posibl. |
| **CLG**<br>Os bydd yr ysgol wedi ymrwymo i'r CLG, darperir gwasanaeth clercio llawn, fel arall Clerc y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am yr holl Wasanaethau Clercio ar gyfer Llywodraethwyr. | |

**Dogfennau Ategol:**
Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion | LLYW.CYMRU

## 9. STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

### 9.1 TREFNIADAU CYFATHREBU

Caiff cymorth i wella ysgolion ei reoli mewn partneriaeth go iawn rhwng ysgolion, yr awdurdod, a'r gymuned ehangach, fel bod gwaith y gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-ddealltwriaeth a chyd-ymrwymiad. Mae grwpiau ymgynghori a llywio, gan gynnwys swyddogion yr Awdurdod a chynrychiolwyr ysgolion yn cwrdd yn rheolaidd i nodi anghenion, pennu'r ddarpariaeth o wasanaethau, a monitro safon y ddarpariaeth honno.

Mae cyfathrebu'r ALI ag ysgolion yn cynnwys:

- Mynediad i'r Ganolfan Athrawon a SIMS (sy'n cadw data disgyblion unigol ac ysgolion)
- Cyfarfodydd busnes a chynadleddau rheolaidd â Phenaethiaid
- Fforymau e.e. Llywodraethwyr, Cyllid a Derbyn
- Cymorth a chyfarfodydd tymhorol ag ysgolion a'r Cynghorydd Cymorth Ysgolion
- Grŵp Ffocws Penaethiaid
- Cyfathrebu ag ysgolion drwy e-bost/cylchlythyr a Teams - Uwchradd, Cynradd a Chanol
- Cylchlythyr Llywodraethwyr chwarterol
- Diweddariadau rheolaidd drwy Swyddfa'r Wasg Ceredigion.

Mewn cydweithrediad â'r grwpiau hyn, cynhyrchir cynlluniau strategol a gweithredol sy'n dangos blaenoriaethau, targedau a pherfformiad yn flynyddol. Gwneir defnydd helaeth hefyd o gyfarfodydd Cyrff Llywodraethu ar gyfer gwella ysgolion drwy osod eitemau rheolaidd ar agendâu.

Defnyddir y fframwaith hwn o ymgynghori ar ddarpariaeth gwasanaethau i ddylanwadu ar gynllunio yn y dyfodol o ran gosod blaenoriaethau, gweithredu strategaethau cyflawni, a sefydlu targedau a meini prawf llwyddiant perthynol. Mae gwybodaeth yn cael ei sianelu drwy gyfarfodydd staff rheolaidd gan sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posib gan weithwyr. Mae swyddogion y Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes ac Ysgolion yn chwarae rhan arweiniol o fewn y fframwaith hwn o ymgynghori a darparu gwasanaethau.

Bydd yr ALI yn nodi rhanddeiliaid perthnasol ac yn penderfynu ar y modd mwyaf priodol o gyfathrebu â'r rhanddeiliaid hyn.

**Dogfennau Ategol**
Strategaeth Iaith Ceredigion
Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru

## 9.2 CWYNION A CHANMOLIAETH

Y Corff Llywodraethu sydd â chyfrifoldeb statudol dros ddatrys cwynion ynghylch ysgolion. Fodd bynnag, gall Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yr ALI ddarparu cyngor a chymorth i'r Corff Llywodraethu os oes angen i sicrhau bod cwynion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn unol â pholisi cwynion yr ysgol ei hun. Rhaid i bob ysgol fod â pholisi cwynion gyfredol sy'n cydymffurfio â 'Gweithdrefnau cwyno cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru (cylchlythyr rhif 011/2012) Llywodraeth Cymru ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir cynnig cyngor a chymorth yn ystod unrhyw gam o'r weithdrefn gwyno ynghylch y broses ymchwilio, sut mae cwynion yn cael eu rheoli a/neu'u hanfon ymlaen, sut i ganolbwyntio ar ddatrysiad, dysgu gwersi o gwynion, a hefyd i ddarparu arweiniad ar ysgrifennu adroddiad neu ymateb clir a chadarn i gŵyn. Mae Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yr ALI hefyd ar gael i ddarparu arweiniad cyffredinol ar egwyddorion ac arferion trafod cwynion yn effeithiol. Bydd yr ALI yn darparu hyfforddiant trafod cwynion i'r Corff Llywodraethu yn flynyddol neu os derbynnir cais o'r fath.

Y Corff Llywodraethu fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cwyn (yn unol â chanllawiau LIC) ac ni fydd unrhyw fecanwaith apelio ar gael i achwynwyr trwy'r ALI. Fodd bynnag, os pennir anghenion hyfforddiant ar unrhyw adeg mewn perthynas â'r ddarpariaeth trafod cwynion, bydd hwn yn cael ei drefnu ar gais y Corff Llywodraethu. Os bydd yr ALI yn dod i'r casgliad bod y broses a ddilynwyd mewn achos penodol yn ddiffygiol, mi all ofyn i'r Corff Llywodraethu i ail-ystyried y mater.

Rhaid rhoi gwybod i'r ALI am unrhyw gwynion ynghylch y Corff Llywodraethu cyfan, neu mewn perthynas â throsedd honedig (megis yn adrannau 4.11 a 4.12 o ganllawiau LIC).

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant i ysgolion a Chyrff Llywodraethu er mwyn iddyn nhw allu delio'n effeithiol â chwynion.<br>• Darparu arweiniad ac enghreifftiau o ymatebion i gwynion er mwyn sicrhau safon uchel o ymateb i gwynion.<br>• Cyngor mewn achosion lle gall fod angen archwiliad annibynnol (yn enwedig os ydy'r gŵyn yn ymwneud â'r Corff Llywodraethu cyfan). | • Mabwysiadu polisi cwynion sy'n cydymffurfio â chanllawiau LIC a sicrhau mynediad llawn i bob rhanddeiliad.<br>• Dilyn polisïau, gweithdrefnau ac arferion mabwysiedig wrth ddelio â chwynion.<br>• Gofyn am gymorth os bydd cwynion yn rhai cymhleth a/neu os bernir bod angen cymorth ychwanegol oddi wrth yr ALI.<br>Sicrhau bod cwyn yn cael ei hanfon ymlaen i'r ALI os bydd cwyn wedi'i gwneud yn erbyn y Corff Llywodraethu cyfan. |

**Dogfennau Ategol:**
Gweithdrefnau Cwynion Cyrff Llywodraethu Ysgolion LIC

## 9.3 RHYDDID GWYBODAETH

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb statudol dros ddelio â cheisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae gweithgaredd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei reoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sydd hefyd yn goruchwylio ceisiadau am wybodaeth mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) – gweler canllawiau ar wahân yn 9.4 isod.

Amcan deddfwriaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw hyrwyddo gweithredu agored a thryloyw ac mae'n gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (megis ysgolion a gynhelir) i ddatblygu a chadw at gynllun cyhoeddi a gymeradwywyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a rhoi hawl i'r cyhoedd yn gyffredinol i gael mynediad at wybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i'r holl wybodaeth a gofnodir ac a gedwir gan yr ysgol, ac mae'n gosod sut y dylech ymateb i geisiadau am gael gweld yr wybodaeth honno. Cofiwch fod unrhyw gais am ryddhau gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gofyn i'r ysgol ryddhau'r wybodaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac nid i'r sawl sy'n gwneud y cais yn unig. Gellir ond cadw gwybodaeth yn ôl dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth os oes yna eithriad priodol perthnasol sy'n gwneud hi'n anghyfreithlon neu'n rhagfarnllyd rhyddhau'r wybodaeth honno i'r cyhoedd. Gellir hefyd dibynnu ar eithriadau gwahanol i hyn, yn dibynnu ar y rhesymau a roir dros beidio â datgelu, a gall Prawf Lles y Cyhoedd fod yn ofynnol ar gyfer rhai o'r rhain.

Gall Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yr ALI ddarparu cyngor i'r Corff Llywodraethu ar reoli ceisiadau a dderbynnir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn arbennig mewn achosion lle gall fod yna eithriad sy'n atal datgelu'r wybodaeth. Gall yr ALI hefyd ddarparu hyfforddiant ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'r Corff Llywodraethu fel bo angen. Fodd bynnag, Corff Llywodraethu'r ysgol sydd â chyfrifoldeb statudol dros y penderfyniad terfynol ynghylch datgelu gwybodaeth dan y Ddeddf, a'r modd y mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cyngor neu arweiniad i ysgolion a Chyrff Llywodraethu ynghylch eithriadau i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<br>• Darparu hyfforddiant ar y Ddeddf os oes angen.<br>• Darparu cymorth i gydnabod, prosesu ac ymateb i geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. | • Delio â cheisiadau am wybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth/gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'i bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r hyn all fod yn ofynnol dan y GDPR (sydd yn wahanol iawn).<br>• Gofyn am gyngor/cymorth oddi wrth yr ALI ynghylch rheoli ceisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf. |

**Canllawiau Ychwanegol:**
Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth parthed Rhyddid Gwybodaeth i Ysgolion

## 9.4 DIOGELU DATA

Mae’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UKGDPR) yn rheoliad Prydeinig sy’n rheoli dulliau o ddefnyddio a phrosesu data personol ar draws yr DU ac sy’n adlewyrchu GDPR yr UE.

Deddf Diogelu Data 2018 yw Deddf Seneddol y DU sy’n galluogi ddarpariaethau’r UKGDPR yn rhan o gyfraith y DU. Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yw’r awdurdod goruchwylio sy’n monitro’r cydymffurfio ac yn derbyn adroddiadau am achosion difrifol o dor-rheoliadau data.

Mae ysgolion yn awdurdodau cyhoeddus ac maent dan ofyniad cyfreithiol i benodi Swyddog Diogelu Data i sicrhau bod y sefydliad yn cwrdd â gofynion yr UKGDPR, a’i fod yn cydymffurfio â’r Rheoliad. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn llofnodi cytundeb gyda’r awdurdod lleol, sy’n cyflawni’r swyddogaeth diogelu data ar eu rhan.

Bydd angen i’r ysgol sicrhau ei bod yn dilyn y gweithdrefnau ac yn rhoi cefnogaeth lawn i’r Swyddog Diogelu Data, gan ddarparu tystiolaeth ac adnoddau fel bo angen.

Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol eu bod yn rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain, gyda'r holl gyfrifoldebau a ysgwyddir gan reolwyr data. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am hysbysiadau preifatrwydd cywir, cyfoes, gofyniad i gychwyn Asesiadau Effaith ar Ddiogelu Data pan fo prosesu arfaethedig yn gofyn amdano, ac i sicrhau y gall testun data arfer eu hawliau mewn modd amserol. Yn aml, ysgolion fydd y pwynt cyswllt cyntaf i unigolion sydd am gael mynediad at ddata personol, ac mae’n hanfodol eu bod yn rhoi gwybod i’r Tîm Diogelu Data am hyn mewn da bryd. Bydd y Tîm Diogelu Data yn cefnogi'r ysgolion i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y UKGDPR.

Mae ysgolion yn casglu ac yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth am unigolion er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. Gwybodaeth sy’n caniatáu i unigolyn byw gael ei adnabod yw data personol yr unigolyn hwnnw. Mae'n bwysig cofio, yng nghyd-destun cyfraith diogelu data, bod plant yn cael eu hystyried yn destun data agored i niwed, a rhaid i ysgolion roi sylw arbennig i degwch, tryloywder, cyfreithlondeb a diogelwch prosesu data personol plant.

Dylid ond prosesu data personol os oes gan yr ysgol sail gyfreithiol dros gyflawni’r prosesu hwnnw. Rhaid cyfyngu data personol i’w brosesu i’r hyn sy’n angenrheidiol at ddibenion y prosesu, dylid ond ei ddefnyddio at y diben y’i cafwyd, rhaid ei brosesu’n ddiogel, ac ni ddylid ei gadw am gyfnod hirach nag sydd angen. Rhaid i ddata personol gael ei brosesu mewn modd agored, ac yn hynny o beth, dylai ysgolion sicrhau bod hysbysebion preifatrwydd, yn amlinellu eu dulliau prosesu, ar gael yn gyhoeddus i unigolion eu darllen.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn gwarchod hawl pobl i breifatrwydd, yn gosod rheolau ar sut y dylai sefydliadau ymhob sector drafod gwybodaeth am unigolion y gellir eu hadnabod, ac yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â sut mae eu data’n cael ei brosesu.

Mae gan unigolion yr hawl (yn amodol ar rai eithriadau a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data) i ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir amdanynt. Dylai unrhyw Geisiadau Mynediad at Ddata o’r fath gael eu cofnodi ar lefel gorfforaethol a’u cyfeirio ar unwaith at sylw swyddog(ion) perthnasol y Tîm Diogelu Data, er mwyn gweithredu arnynt. Mae prydloneb yn arbennig o bwysig oherwydd rhaid i’r Cyngor

ymateb i gais dilys o fewn terfynau amser cyfreithiol penodedig. Mae tîm diogelu data'r Awdurdod Lleol yn cynorthwyo ysgolion a chyrff llywodraethu ysgolion i gwrdd â'r ymrwymiadau statudol hyn. I gynorthwyo ysgolion i gwrdd â'u hymrwymiadau statudol, bydd y tîm diogelu data o bryd i'w gilydd yn cynnal archwiliadau o ddulliau prosesu data personol ysgolion. Gall hyn gynnwys ymweliadau a'r safle.

Mae angen rhoi gwybod i'r Tim Diogelu Data am unrhyw achos o dor-diogelwch data, a bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data gynnal asesiad i benderfynu a ddylid rhoi gwybod i wrthrych y data a/neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y tor-diogelwch. Pan fydd y tor-diogelwch yn ddigon difrifol i warantu rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rhaid i'r tîm diogelu data wneud hynny o fewn 72 awr o'r tor-diogelwch. Mae'n hanfodol felly, os bydd yna achos o dor-diogelwch, bod tîm diogelu data'r Awdurdod yn cael gwybod cyn gynted â phosib.

Gall Tîm Diogelu Data yr ALI ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu os oes angen ynghylch unrhyw faterion diogelu data. Gall yr ALI hefyd ddarparu hyfforddiant ar ddiogelu data i'r Corff Llywodraethu fel bo angen. Fel rheolwr data, mae'r broses o wneud penderfyniadau yn y pen draw o ran prosesu yn gyfrifoldeb i'r ysgol. Mae'n bwysig nodi, os bydd unrhyw ymchwiliad gan yr SCG i brosesu ysgol, y bydd y SCG yn ystyried a oedd yr ysgol wedi gofyn am gyngor gan y SDD, pa gyngor a gafwyd, ac a ddilynwyd y cyngor hwnnw. Gall yr ystyriaethau hyn ddylanwadu ar unrhyw gamau rheoleiddio y mae'r SCG yn penderfynu eu cymryd.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Darparu cyngor neu arweiniad i ysgolion a Chyrff Llywodraethu ynghylch Diogelu Data.<br>• Darparu hyfforddiant ar y GDPR, GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 os oes angen.<br>• Cynorthwyo ysgolion i gwrdd â'u hymrwymiadau dan ddeddfwriaeth Diogelu Data.<br>• Ymateb i dor-diogelwch data ar ran ysgolion.<br>• Darparu cymorth a chyngor i'r Ysgol ar gwblhau unrhyw Asesiadau Effaith Diogelu Data<br>• Darparu cymorth a chyngor ar oblygiadau diogelu data wrth gaffael unrhyw wasanaeth gan yr ysgol, gan gynnwys apiau a meddalwedd addysgiadol | • Cyfeirio ceisiadau am wybodaeth at sylw Tîm Diogelu Data'r ALI.<br>• Gofyn am gyngor/cymorth gan yr ALI mewn perthynas â rheoli ceisiadau am wybodaeth dan Ddeddf Diogelu Data 2018.<br>• Rhoi gwybod i Dîm Diogelu Data'r ALI am unrhyw achosion o dor-diogelwch data.<br>• Cychwyn ar Asesiadau Effaith Diogelu Data pan fo angen a cheisio cyngor gan y SDD<br>• Ystyried yn ofalus goblygiadau diogelu data wrth gaffael unrhyw wasanaeth o unrhyw ffynonellau allanol, gan gynnwys apiau a meddalwedd addysgol a gofyn am gyngor gan y Tîm Diogelu Data<br>• Yn unol ag Erthygl 38 UKGDPR, hysbysu'r SDD mewn modd amserol am unrhyw faterion lle ceisir cyngor diogelu data. |

**Canllawiau Ychwanegol:**
Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i Ysgolion (Schools, universities and colleges | ICO)

## 9.5 MATERION DISGYBLU

Cynghorir y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu'n gryf i ofyn cyngor yr ALI a'i Swyddogion Adnoddau Dynol cyn i'r ysgol gychwyn ar unrhyw weithdrefnau disgyblu mewn achosion o gamymddwyn difrifol, ac yn ystod pob cam wedi hynny. Dylid dilyn 'Canllawiau Diogelu Cymru' a 'Gweithdrefnau Llywodraeth Cymru ar gyfer Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol' wrth ddelio â digwyddiadau disgyblu sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cynnwys yr angen am ymchwiliad allanol lle bo'n briodol.

Does dim rhaid i ysgolion weithredu yn ôl cyngor Adnoddau Dynol mewn materion disgyblu a materion cyflogaeth eraill. Fodd bynnag, os na fydd yr ysgol yn gweithredu yn ôl y cyngor a bod costau'n deillio o hynny, gellir hawlio'r costau yn ôl gan yr ysgol.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Datblygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion enghreifftiol fel bod ysgolion yn cael cyngor a chefnogaeth dda ar faterion cyflogaeth.<br>• Hybu a monitro polisïau ac arferion sy'n sicrhau cyfleoedd cyfartal.<br>• Os hysbysir yr ALI fod honiadau wedi'u gwneud yn erbyn aelod staff, bydd yr ALI yn cynnig cyngor i'r Corff Llywodraethu. | • Mabwysiadu rheolau a gweithdrefnau i reoli ymddygiad a disgyblaeth holl staff yr ysgol (gall ysgolion fabwysiadu polisïau'r ALI neu'u polisïau'u hunain).<br>• Dilyn y polisïau, gweithdrefnau ac arferion a fabwysiadwyd wrth ymdrin â materion disgyblu.<br>• Cadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) Adnoddau Dynol i ddatblygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion rheoli effeithiol mewn perthynas ag Adnoddau Dynol.<br>• Sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob aelod o'r staff a phob myfyriwr.<br>• Ni ddylai'r Corff Llywodraethu fel cyflogwr dderbyn ymddiswyddiad gan aelod o'r staff sy'n destun ymchwiliadau amddiffyn plant neu ymchwiliadau troseddol. Yn hytrach, dylai'r corff llywodraethu ddilyn gweithdrefnau disgyblu i sicrhau bod cofnod cyflogaeth ffurfiol o'r ymchwiliad a'r canlyniad ar gael. |

**Dogfennau Ategol**

disciplinary-and-dismissal-procedures-for-school-staff_0.pdf (gov.wales)

Polisi Disgyblu'r Ysgol

## 9.6 RECRIWTIO DIOGEL

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Yn unol â phrotocolau recriwtio diogel – cynnal gwiriadau cyn penodi, gan gynnwys DBS, geirda a gwiriadau Meddygol ar gyfer pob aelod staff. | • Dilyn y polisïau, gweithdrefnau ac arferion a fabwysiadwyd wrth ddelio â materion recriwtio diogel. |

Penderfyniad yr ysgol, fodd bynnag, yw sut mae'n rheoli ei chyflenwad staffio, ond, mae risgiau o ddefnyddio asiantaethau cyflenwi nad ydynt ar y fframwaith gan nad yw'n ofynnol iddynt ddilyn rheolau llym sy'n gysylltiedig â diogelu, cyflog teg i staff addysgu, sicrwydd yswiriant ac ati. Mae hefyd yn golygu y byddai'n rhaid i'r ysgol wneud y gwiriadau canlynol bob tro y mae'n defnyddio gweithiwr cyflenwi o asiantaeth nad yw ar y fframwaith:

- gwirio am dystiolaeth o gydnabyddiaeth yr Asiantaeth gan y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth https://www.rec.uk.com/membership/member-directory
- gwirio bod telerau ac amodau'r contract gyda'r Asiantaeth Gyflenwi yn datgan mai'r Asiantaeth sy'n gyfrifol am yswiriant atebolrwydd ac nid yr Ysgol
- gwirio pwy yw’r unigolyn trwy gyfrwng ID gwreiddiol, priodol â llun
- gwirio tystysgrif wreiddiol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- gwirio hawl yr unigolyn i weithio yn y DU (cysylltwch ag Adnoddau Dynol os oes angen cymorth arnoch o ran cadarnhau dogfennau)
- gwirio bod geirdaon priodol wedi'u casglu a'u cadarnhau gan yr asiantaeth
- gwirio bod yr asiantaeth wedi cyflawni hanes llawn o ran cyflogaeth
- gwirio bod yr asiantaeth wedi cynnal gwiriad iechyd
- gwirio bod yr asiantaeth wedi cadarnhau pob tystysgrif
- gwirio bod yr unigolyn wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

**Dogfennau Ategol**

DBS: Canllawiau Polisi Recriwtio Diogel ar gyfer Penaethiaid a Llywodraethwyr

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

## 10. GWASANAETHAU CYLLID

### 10.1 MATERION CYLLID

Mae gosod targedau ar lefel y cohort unigol, yr ysgol a'r awdurdod yn rhan annatod o strategaeth yr Awdurdod i wella ysgolion.

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Dosrannu adnoddau ariannol i ysgolion yn unol â fformiwlâu cyllido.<br>• Cadw cofnod o ddosraniadau cyllid a chrynodeb o berfformiadau ariannol pob ysgol sy'n defnyddio system gyfriflyfr yr ALI.<br>• Rhoi atodlen perfformiad ariannol blynyddol unigol i bob ysgol sy'n defnyddio system cyfriflyfr yr ALI ar gyfer ardystiad.<br>• Herio ysgolion sydd mewn diffyg ariannol neu yn ei wynebu. | • Paratoi cyllideb weithiol gytbwys yn unol â'r Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion a Gynhelir.<br>• Monitro perfformiad ariannol yn gyson i sicrhau bod y gyllideb ar darged.<br>• Llofnodi a dychwelyd yr atodlen perfformiad ariannol flynyddol.<br>• Cynnal lefel hyfyw o gronfeydd ariannol wrth gefn.<br>• Hysbysu'r ALI yn syth o unrhyw ddiffyg ariannol a ddaw i'r amlwg.<br>• Sicrhau bod yr holl ddogfennau absenoldeb salwch a thaliadau'n cael eu hanfon yn brydlon. |

**Dogfennau Ategol**
Cynllun Ariannu Ysgolion a Gynhelir

### 10.2 CYLLID CORFFORAETHOL

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Cynnig mynediad i ysgolion i'r systemau rheoli cyllid corfforaethol.<br>• Cynnig gwasanaethau bancio a thaliadau credydwyr i ysgolion. | • Sicrhau bod yr holl ddogfennau absenoldeb a thaliadau salwch yn cael eu cofnodi ar system Ceri. |

## 10.3 CYFLOG, BUDDIANNAU A PHENSIYNAU

| ALI | YSGOL/CORFF LLYWODRAETHU |
|---|---|
| • Cynnig gwasanaeth cyflogres lawn i ysgolion gan gynnwys yr holl daliadau a didyniadau, a chynhyrchu slipiau talu misol.<br>• Gweinyddu'r Pensiwn Athrawon a Chynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran staff ysgolion.<br>• Cwblhau adroddiadau statudol mewn perthynas â thâl a buddiannau. | • Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn da bryd (er enghraifft, staff newydd, staff sy'n gadael a newidiadau i gytundebau).<br>• Sicrhau bod pob gwybodaeth am absenoldeb yn cael ei chofnodi drwy'r system Ceri.<br>• Sicrhau bod yr holl wybodaeth am ffurflenni oriau a threuliau'n cael ei hawdurdodi a'i darparu trwy'r sianeli gofynnol. |

# 11. CYMORTH BUSNES – CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Mae'r ALI yn cydnabod y gofynion a osodir ar ei Benaethiaid a'i Lywodraethwyr, yn enwedig mewn perthynas â'u cyfrifoldebau cyfreithiol, ac yn hyn o beth y mae wedi datblygu nifer o Gytundebau Lefel Gwasanaeth i ddarparu'r cymorth sydd ei angen.

Mae'r CLGau yn lleihau'r baich o ddilyn protocolau a gytunwyd ac yn sicrhau bod camau gweithredu a gymerir yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ac felly'n amddiffyn Penaethiaid a Llywodraethwyr lle gallai canlyniadau eu gweithredoedd, petai'r gwaethaf yn digwydd, gael eu herio mewn llys barn.

Yn y cyd-destun hwn mae'r ALI yn cynghori Llywodraethwyr Ysgol yn gryf i lofnodi'r CLGau a ddarperir, oherwydd gallai peidio â gwneud hynny arwain at oblygiadau cyfreithiol sylweddol i Benaethiaid a Llywodraethwyr.

Mae CLGau ar gael i gynorthwyo ysgolion i reoli:

- Safleoedd
- Cyllid
- Materion Cyfreithiol
- Adnoddau Dynol a'r Gyflogres
- TGCh
- Llywodraethu
- Arlwyo
- Yswiriant Staff Cyflenwi

Mae manylion pellach a chynnwys CLGau unigol ar gael drwy'r adrannau perthnasol.

**I Ysgolion a ymrwymodd i Gytundebau Lefel Gwasanaeth:**

Os caiff canlyniadau camau gweithredu a gymerwyd eu herio, neu mewn achosion o anffawd, ar yr ALI y disgyn y cyfrifoldeb cyfreithiol.

SYLWER: Os caiff ysgol gosbau ariannol o ganlyniad i ddilyn cyngor o dan CLG, bydd y Cyngor yn digolledu'r ysgol fel bo'n briodol. Os na fydd yr ysgol/corff llywodraethu yn dilyn y cyngor bydd y corff llywodraethu'n agored i bob cosb bosib a geir o ganlyniad i'w weithredu/ diffyg gweithredu.

**I Ysgolion <u>nas ymrwymodd</u> i Gytundebau Lefel Gwasanaeth:**

Os caiff canlyniadau camau gweithredu a gymerwyd eu herio, neu mewn achosion o anffawd, ar y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth y disgyn y cyfrifoldeb cyfreithiol.

**Optio allan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth**

Bydd y cytundeb yn para o un flwyddyn ariannol i'r nesaf nes bod y naill ochr neu'r llall yn rhoi gwybod ei fod am dynnu'n ôl o'r cytundeb gan roi o leiaf tri mis o rybudd (h.y. cyn 1af o Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol).

Caiff yr ysgol sy'n rhan o'r cytundeb ei hysbysu cyn y dyddiad hwn o'r dull arfaethedig o gyfrifo cost y cytundeb ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

**Rhoi Cytundebau Lefel Gwasanaeth i Ysgolion ar waith**

1. Does dim gorfodaeth ar ysgolion i ymrwymo i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gynigir gan yr ALl. Mae ysgolion sy'n ymrwymo i CLG gyda'r ALl yn rhwym i'r telerau a geir ym mhob CLG, a all ganiatáu amrywio telerau ac amodau.
2. Bydd gofyn i ysgolion sy'n optio allan o unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth yn groes i'r telerau ac amodau a gytunwyd i gwrdd ag unrhyw gostau neu rwymedigaethau ychwanegol a geir o ganlyniad i hynny. Gall ysgolion fod yn rhwym hefyd i rai contractau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru am wasanaethau, p'un ai ydy'r ysgolion yn cytuno i hynny ai peidio.
3. Dylai ysgolion nodi, er bod gan gyrff llywodraethu'r pŵer o dan bara 3 a. 10 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion i ymrwymo i gytundebau lefel gwasanaeth neu gontractau, eu bod yn gwneud hynny yn y rhan fwyaf o achosion ar ran yr ALl, fel cynhaliwr yr ysgol a pherchennog y cyllid sy'n rhan o'r gyfran gyllidol. Pan fydd gan y corff llywodraethu ddyletswyddau statudol clir, e.e. contractau a wneir gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ar gyfer cyflogi staff, gellir gwneud y cytundeb ar ran y corff llywodraethu'n unig.

 Eitem Agenda 5

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu
**Dyddiad y cyfarfod:** 09/05/2024

**Teitl:** Diweddariad - Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith a Lluosi

**Pwrpas yr adroddiad:** Darparu gwybodaeth am y ddau brosiect

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Wyn Thomas

**Cefndir**

**Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith**

Mae prosiect Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfG).Cychwynnodd y cyllid ar 1 Rhagfyr 2022 a bydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Cafodd y cyllid hwn ei ragflaenu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CCE) a ddaeth i ben ar 31 Tachwedd 2022.

Mae prosiect Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith yn cefnogi dysgwyr drwy gynnig mynediad at ddatblygu sgiliau, profiad/cyfleoedd gwaith â thâl, cefnogaeth mewn swydd a chyfleoedd hyfforddi ac ati a fydd yn arwain at achrediad, cymwysterau a chyflogaeth.

Mae'r prosiect Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith yn gweithio gyda unigolion rhwng 13 a 25 oed sydd mewn perygl o ddod yn NEET (Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant). Mae'n cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg neu hyfforddiant drwy ddarparu ymyriadau dwys i wella eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad yn yr ysgol. Mae'r galw wedi cynyddu ar ôl y pandemig gyda mwy o bobl ifanc yn ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.


Nod prosiect Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith yw sicrhau bod dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu niweidio yn gallu cael mynediad at gwricwlwm galwedigaethol wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion gydag ystod o wahanol gyrsiau, gan roi'r cyfle gorau iddynt allu cyflawni a chyrraedd eu llawn botensial. Ein nod yw datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol dysgwyr a gwella eu cyrhaeddiad a'u presenoldeb gan sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd dilyniant priodol i gyflawni lefelau uwch o gymwysterau neu gyfleoedd profiad gwaith er mwyn cael gwaith.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phobl 16+ gan gynnig cymorth mewn gwaith a phecynnau cofleidiol, a all gynnwys prynu Cyfarpar Diogelu Personol, dillad priodol, costau teithio ac ati. Mae'r cymorth hefyd yn cynnwys mentora, hyfforddi, a darparu cyrsiau hyfforddi i wella sgiliau sylfaenol a sgiliau bywyd. Mae dysgwyr ar raglen Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith hefyd yn cael cyfle i ymgymryd â phrofiad gwaith â thâl / cyfleoedd gwirfoddoli. Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym hefyd yn cynnig cymorth gwaith i gyfranogwyr sydd wedi dod o hyd i waith i sicrhau eu bod yn llwyddo i aros yn y swydd. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ddwys am y 3 mis cyntaf gan leihau'n araf nes y bydd gwiriad terfynol yn dilyn 12 mis.

Cyflwynir prosiect Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith ledled y sir. Rydym yn gweithio ar y cyd â'r tîm Cymorth ac Atal, y tîm Ymyrraeth Gynnar, UCD, a phob un o'r saith Ysgol Uwchradd / Ysgolion Gydol Oed yng Ngheredigion. Cynhelir yr holl gyrsiau galwedigaethol gan Hyfforddiant Ceredigion yng Nghanolfan Ddysgu Llanbadarn a Chanolfan Cwrtnewydd.

## Lluosi

Mae prosiect Lluosi hefyd yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfG). Cychwynnodd y cyllid ar 1 Hydref 2022 a bydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Awdurdod Lleol yn un o chwe darparwr sy'n cynnig y prosiect hwn yng Ngheredigion ar hyn o bryd. (Gweler y map isod)




Mae gan y cynllun Lluosi nifer o ymyriadau a chyfleoedd hyfforddi pwrpasol, sy'n cefnogi pobl ifanc 19+, unigolion a theuluoedd, trwy gynnig mynediad at ddatblygu sgiliau rhifedd trwy amrywiol gyfleoedd hyfforddi ac ati sy'n arwain at achrediad, cymwysterau a chyfleoedd cyflogaeth gwell. Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau a fydd yn galluogi pobl i wneud newidiadau bywyd effeithiol a chyrraedd eu llawn botensial.

Mae Lluosi hefyd yn cefnogi pobl a busnesau drwy gynnig hyfforddiant rhifedd. Efallai y bydd angen i rai ailhyfforddi, ail-sgilio ac uwch-sgilio. Mae cyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb a chyfunol ar gael i sicrhau bod gan bawb fynediad aer mwyn cyflawni eu potensial.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr Porth Cymorth Cynnar i sicrhau ein bod yn cyflwyno darpariaeth all gyrraedd ein dysgwyr mwyaf agored i niwed h.y.-

- *Plant sy'n Derbyn Gofal 19+ oed a'r rhai sy'n gadael gofal.*
- *Pobl ifanc 19+ sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.*
- *Pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol*
- *Pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET.*
- *Pobl ifanc bregus 19+ sydd wedi ymddieithrio o'r farchnad lafur.*
- *Pobl sy'n cael eu heffeithio gan waith sy'n cyfyngu ar gyflyrau iechyd ac anableddau.*
- *Pobl â chyfrifoldebau gofalu.*
- *Pobl dros 50 oed sy'n ddi-waith e.e. oherwydd y pandemig.*

Mae Cynghorwyr Hyfforddiant Lluosi a Gweithwyr Ieuenctid Cymunedol yn cefnogi pobl ifanc 19+, unigolion a theuluoedd i adnabod unrhyw rwystrau posibl a chytuno a gweithredu cynlluniau realistig i'w cynorthwyo i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant rhifedd, a all

arwain at gyflogaeth. Defnyddir nifer o dechnegau a strategaethau sydd wedi'u profi er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn yr offer a'r sgiliau i dyfu a chynnal eu haddysg a/neu gyflogaeth.

Mae prosiect Lluosi yn cael ei gyflwyno ledled y sir. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio â nifer o bartneriaid i ddarparu sgiliau rhifedd / llythrennedd / digidol o fewn ein cymunedau e.e. neuaddau cymunedol / pentref, ysgolion cymunedol, neuaddau eglwys ac ati.

## Y sefyllfa bresennol

### Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith

Ar hyn o bryd rydym yn darparu ystod o gymhwyster achrededig lefel 1 a lefel 2 ar gyfer dysgwyr blwyddyn 10 ac 11. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/2023 cyflawnodd 72 o ddysgwyr achrediadau a mynychodd 81 o ddysgwyr o bob un o'r saith Ysgol Uwchradd / Ysgolion Gydol Oed yng Ngheredigion a'r UCD y Cwricwlwm Amgen.

Cynigiwyd lleoliadau profiad gwaith i 36 o ddysgwyr.

Gweler isod cyrsiau sydd yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan brosiect Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith.

| **Cwrs / *Course*** | **HCT Llanbadarn** | **Cwrtnewydd** | **ICY Tregaron** |
|---|---|---|---|
| Mecanwaith / *Mechanics* | x2 | x2 | |
| Astudiaethau Tir / *Land-based Studies* | x1 | x1 | |
| Adeiladwaith / *Construction* | x1 | x1 | |
| Gwaith Coed / *Carpentry* | x1 | x1 | |
| Lletygarwch / *Hospitality* | x1 | x2 | |
| Gofal Plant / *Childcare* | x1 | x1 | |
| Celf a Dylunio / *Art and Design* | x1 | x1 | |
| Chwaraeon / *Sports* | | | x2 |
| Trin Gwallt / *Hairdressing* | x1 | x1 | |
| Cyfryngau Digidol / *Digital Media* | x1 | | |
| Gwaith Plymwr / *Plumbing* | x1 | | |
| Peirianneg / *Engineering* | x1 | | |

### Lluosi

Mae dros 170 o ddysgwyr unigol wedi ymgymryd a'r prosiect Lluosi hyd yma, gyda rhai yn cymryd rhan mewn sawl cyfle i ddysgu.

Gweler isod y gweithgareddau Ymgysylltu, gweithgareddau Dysgu a'r gweithgareddau cyhoeddusrwydd presennol sydd ar y gweill ar gyfer y prosiect Lluosi.

| **Gweithgareddau ymgysylltu** |
|---|

| |
|---|
| Presenoldeb sy’n parhau mewn gwahanol fannau galw heibio ar draws y sir a chysylltiadau â chysylltwyr cymunedol ac Age Cymru. |
| Digwyddiad cymunedau gwledig yn Nhregaron a sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal. |
| Mynychwyd digwyddiad gofalwyr yn Felinfach gyda rhywfaint o ymgysylltiad. |
| Cyswllt â chanolfannau teulu (parhaus) + paratoi gweithdy ar Gyllidebu ar gyfer Parti yng nghanolfan deulu Tregaron. |
| Cynnal gweithdai trefnu blodau sy’n parhau. |
| Cynnal Cyrsiau Excel sy’n parhau ar gyfer staff y cyngor. |
| Cwrs wedi'i gynllunio ar ddefnyddio ‘Forms’ wedi’i gysylltu â Thaenlenni ar gyfer y Tîm Gofalwyr (Olrhain Cronfa Gofalwyr). |
| Gweithdy ar Gyllidebu ar gyfer Parti a ddarparwyd yng nghanolfannau teuluol Tregaron a'r Borth |
| Cyrsiau wedi'u cynllunio ar gyfer trysoryddion clybiau (ar y cyd â Cheredigion Actif a CAVO). |
| Presenoldeb rheolaidd yng nghanolfannau gwaith Aberystwyth ac Aberteifi. |
| Cefnogaeth i'r grŵp ADY presennol yn Ray Ceredigion, a allai arwain at ddysgu sylweddol.  Posibilrwydd hefyd o weithio gyda grŵp dementia. |
| Cysylltu â'r Tîm Cymorth Cyflogaeth i sicrhau presenoldeb yng nghanolfannau gwaith Aberystwyth ac Aberteifi. |
| Taith ar fws wedi'i chynllunio, i arddangosfa hanes teulu. |
| Gwnaed cyflwyniad i Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan i ennyn diddordeb. |
| Cyflwyniad a roddwyd i Ddigwyddiad Rhwydwaith Pathfinders, gan gynnwys gweithwyr iechyd cyhoeddus y GIG proffesiynol |
| Mae darpar weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant hefyd yn cael eu cyfeirio atom gan dîm Dysgu a Hyfforddiant CSC. |
| Cysylltiad wedi’i wneud â Tai Gorllewin Cymru. |
| Cydweithio wedi’i gynllunio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llanerchaeron er mwyn cydweithio ar wahanol fentrau. |
| Cydweithio wedi'i gynllunio gyda Gŵyl deuluol Crug Mawr – ymchwilio dichonoldeb gosod Record Byd Guinness. |
| Cysylltu â CFfI Tregaron ynghylch cydweithio a chyrsiau posibl. |
| Cydweithio gyda Jig So wedi'i gynllunio ar gyfer cyrsiau teuluol yn Aberteifi. |

| **Gweithgareddau dysgu** |
|---|
| Gweithio gyda phrosiectau grŵp Ysbrydoli'r Gwasanaeth Ieuenctid, gan gynnwys Coginio ar Gyllideb. |
| Cefnogaeth 1-1 i Dîm Cymorth Cyflogaeth - dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio (gan ddefnyddio Excel) – symud ymlaen i gymhwyster ICDL. |
| Cyrsiau wythnosol wedi'u cynllunio gyda chanolfannau teulu yn Nhregaron, Borth a Llandysul, gan gynnwys ymgorffori rhifedd wrth greu murluniau a gerddi cymunedol. |
| Cefnogaeth wythnosol 1-1 ar gyfer atgyfeiriadau gan GIG Gorwelion |
| Cyrsiau wedi'u cynllunio ar gyfer tri grŵp yn Ray Ceredigion, gan ymgorffori rhifedd mewn coginio a garddio sydd i fod i ddechrau ym mis Mai. |
| Cwrs wythnosol yn Nhregaron. |
| Cwrs wythnosol yn Aberaeron |
| Cefnogaeth 1-1 wythnosol i ddysgwyr ag ADY. |
| Sesiwn 1-1 yn cael ei gynnig ar-lein. |
| Grŵp wythnosol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymedrol sy'n cael eu cynnal yn Ray Ceredigion. |
| Dysgwyr cwrs garddio Gorwelion GIG sy'n cael eu cyfeirio gan y GIG. |
| 2 x weithdy fel rhan o Gwrs Lletygarwch Tîm Cymorth Cyflogaeth ar sut i drin arian. |
| Mae cyrsiau ymarferwyr rhifedd yn cael eu cynnig ar draws Cymru. |
| Gweithdai a ddarperir ar ran Mencap ar sut i drin arian. |
| Sector gofal plant – rhifedd wedi'i wreiddio wrth ddarparu cwrs gwarchodwr plant. |

| Gweithgareddau cyhoeddusrwydd |
|---|
| Hysbyseb radio cenedlaethol. |
| Hysbyseb yn Ego. |
| Hysbyseb yn y cylchgrawn gofalwyr. |
| Posteri mewn trefi a phentrefi. |
| Digwyddiadau wedi'u postio ar Dewis Cymru. |
| Cyflwyniadau/cyswllt â thimau allweddol yn CSC a rhanddeiliaid allanol. |
| Sefyll y tu allan i M&S Aberystwyth. |
| Cyfryngau cymdeithasol trwy dudalennau Instagram a Facebook Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| Poster Cyfeirio Lluosi Cynnal Y Cardi. |

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
**Cydweithio:** Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
**Atal:** Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd

**Argymhelliad / Argymhellion:**
Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd

**Enw Cyswllt:** Mark Gleeson

**Swyddogaeth:** Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Dyddiad yr Adroddiad:** 22/04/2024

**Acronymau:**
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfG)
Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE)
Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

**Dyddiad y cyfarfod:** 9 Mai 2024

**Teitl:** Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (02.02.24)

**Pwrpas yr adroddiad:** Cyflwyno cofnodion un o gyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion

**Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:** Er gwybodaeth

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Cefndir**

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn dogfen Llywodraeth Cymru *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw Atodiad B - *y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc***.**

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- *Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.*
- *Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.*
- *Er mwyn i Fforymau / Cynghorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn..*
- *Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.*
- *Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da.* ***Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)***

**Y Sefyllfa Bresennol**

Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion sy’n gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuenctid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae’r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn ‘yn y rôl’. Mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid yn cael eu cynnal yn y Siambr ym Mhenmorfa. Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu a’r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn rhan o’r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.

**Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol:**
**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi’i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.**

Ddim yn berthnasol

**Crynodeb o’r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**Argymhelliad:**

Gofyn i Aelodau’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu nodi cofnodion cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024, er gwybodaeth.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**

Bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

**Enw Cyswllt:** Lowri Evans

**Swydd:** Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu

**Dyddiad yr adroddiad:** 11.04.2024

**Acronymau:** Ddim yn berthnasol

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

**SPSF 3 - ATODIAD B**
**CANLLAWIAU STATUDOL YNGHYLCH CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac maent yn berthnasol I awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, a phryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol *wneud trefniadau y maent yn ystyried sy'n addas i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am ei drefniadau.* Gallai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant hyd at 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae gan CCUHP 54 o erthyglau. Mae erthyglau 1-41 yn nodi sut y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin. Mae'r 13 o erthyglau eraill yn nodi sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i sicrhau y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at eu hawliau.

Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r Confensiwn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifance (Cymru) 2011.
Mae Adran 1 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried sut mae'r hyn maent yn ei wneud yn

cysylltu â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a manteisiwyd ar bob cyfle i nodi sut i wireddu’r hawliau perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae hyn yn treiddio I lawr i'r lefel leol drwy ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan sy'n hawl sylfaenol ac yn hawl galluogi fel y nodir yn Erthygl 12 CCUHP:

> Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch beth maent yn meddwl a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i gael eu barn wedi ei hystyried.

Mae erthyglau’r CCUHP wedi’u crynhoi’n Saith Nod Craidd a ddylai fod yn sail I arferion gwaith unrhyw ddarpariaeth gan wasanaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Nod Craidd 5 yn arbennig yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc gyda'r nod

> Bod pob plenty a person ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin a pharch, ac yn cael eu hil a’u hunaniaeth ddiwylliannol wedi’u cynabod

Bwriad y canllaw hwn felly yw rhoi cyfle i bob plantyn a pherson ifanc gael gwrandawiad a chael cyfrannu at wneud penderfyniadau.

Gall llais a chyfranogiad y dinesydd fod yn erfyn pwysig i ddeall ble mae system yn methu a lle mae diffyg cyd-drefnu rhwng darparwyr gwasanaethau yn gwastraffu adnoddau heb wella canlyniadau, i ailgynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion pobl ac i bwyso a mesur effeithlonrwydd gwasanaeth. Dylai plant a phobl ifanc gael eu hystyried fel dinasyddion nawr, nid dinasyddion y dyfodol. Dylai Awdurdodau Lleol feddwl sut y gallant roi’r grym i blant a phobl ifanc gyfrannu at wneud penderfyniadau a sicrhau bod clust i glywed eu barn. Er y bod yn well gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc

gyfrannu mewn grŵp, dylid ystyried sut y gall unigolion fod yn rhan o brosesau cynllunio a phenderfynu.

**Gofynion**

Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

• hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn cyd-destun eang y CCUHP, fel rhan o'u polisïau, gwasanaethau a'r ymgysylltu ehangach â dinasyddion. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn ymwybodol o'u hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan ac i'w barn gael ei chlywed, a'u hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;

• gwreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys Asesu Llesiant Lleol, y cynllun llesiant lleol ac is-gynlluniau perthnasol;

• mabwysiadu Safonau Cyfranogi Cenedlaethol. Mae cefnogaeth i'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru a cheir llawer o enghreifftiau o arferion da o gyrff sydd wedi mabwysiadu'r safonau fel cyfrwng i sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn ystyrlon ac effeithlon.

• cyhoeddi gwybodaeth am fanteision a threfniadau hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad yn yr awdurdod, a rhannu enghreifftiau o arferion da, er enghraifft, trwy wefannau a thaflenni newyddion yn ogystal ag ar y
Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cydnabod.
cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda 'Young Wales'. Gall y plant a'r bobl ifanc eu hunain gymryd rhan amlwg i godi ymwybyddiaeth am

bwysigrwydd cymryd rhan. Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o adnoddau a allai gefnogi hyn ac y gellid eu haddasu yn ôl anghenion lleol. Yn ogystal â defnyddio adnoddau a’r cyfryngau sy’n rhwydd eu cyrraedd gan blant a phobl ifanc, gellid cynnwys gwybodaeth yn adroddiad cynnydd blynyddol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;

• dylai gwybodaeth a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc fod yn glir ac yn hawdd i'w deall. Dylent ateb eu cwestiynau a'r anghenion a nodwyd ganddynt, yn ogystal â bod yn gywir, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch o ran iaith a fformat.

• sicrhau bod ystod o gyfleoedd a'r gefnogaeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fel unigolion gymryd rhan gael eu hintegreiddio i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd yn ogystal â strwythurau cyfranogi penodol megis fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, rhai sy'n agored i niwed neu rai sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol. Mae gan y fforymau a'r grwpiau hyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i ddefnyddio eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn;

• cefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid Sirol fel corff cynrychiadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac at gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc sy'n fwy ar yr ymylon. Er mwyn i Fforymau/ Cynghorau Ieuenctid Sirol weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn. Dylent gael eu hysbysu gan eu strwythurau democrataidd lleol a'u cysylltu â hwy. Bydd angen iddynt hefyd gysylltu'n effeithiol i mewn i strwythurau cyfranogiad cenedlaethol megis 'Young Wales', Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

• rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ac fel rhan o baratoi'r cynllun llesiant lleol, gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol sef 'y Gymraeg yn ffynnu'.

**Gweithio gyda phartneriaid**

Er bod y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddwyd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn unig, byddem yn eu hannog I weithio'n agos gyda phob un o'u partneriaid perthnasol. Mae gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn arfer da ac mae Adran 25 Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad gyda'r bwriad o wella llesiant plant yn yr ardal. Ymhellach, mae Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi gofyniad ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd I ymgynghori wrth asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal.

Mae llawer o enghreifftiau o bartneriaid sy'n cyfrannu at gyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn ei brif ffrydio i'w meysydd gwaith a'u trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Gwelir rhai o'r rhain ar www.youngwales.wales and www.pupilvoicewales.org.uk.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Mae cwmpas y ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach na chael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Mae'n bwysig fod cyfranogiad yn dod yn rhan o bolisi ac arferion yr holl bartneriaid lleol. Dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso.

Fodd bynnag, gallai'r cynllun llesiant esbonio sut y gellid sicrhau bod pob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau a'u "trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad" wneud cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn ganolog iddynt. Gallai adroddiad cynnydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys crynodeb i esbonio sut mae'r dyletswyddau statudol hyn wedi'u cyflawni a sut y gellid gwneud yn well. Gallai adroddiad cynnydd blynyddol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried y nodweddion gwarchodedig, yn enwedig o ran oed, gan adrodd yn benodol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Hefyd, mae cynlluniau llesiant lleol yn rhoi tystiolaeth i Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) wrth iddynt gynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gallai Arolygiaethau a'r WAO hefyd adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i ddangos pa mor effeithiol y mae plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwrandawiad, i gael llais ac i allu cael mynediad at gyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau lle bynnag y bônt - yn yr ysgol, o gwmpas yn y gymuned neu fel defnyddwyr gwasanaethau.

Ein huchelgais yw i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru wireddu eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn. Efallai y bydd yna weithiau rwystrau i gyflawni hyn, ond drwy weithio mewn ffordd gydweithredol, mae gennym ni i gyd rôl o ran ystyried ffyrdd y gallai'r rhwystrau hyn gael eu dileu neu eu goresgyn. Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc, a rhaid cynnal y momentwm.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am arfer da mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar www.childrensrights.wales neu http://www.childrensrights.wales/images/PDF/Participation_En2.pdf

Mae gwybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arfer da sy'n cefnogi cyfranogiad yng Nghymru ar gael hefyd yn www.youngwales.wales.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o**
**Gyngor Ieuenctid Ceredigion**
**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa**
**ddydd Gwener 02 Chwefror 2024**

(10:00 – 14.00)

**Yn bresennol:**

Ysgol Bro Teifi (Aelod Ceredigion o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig 2023-24)
Ysgol Penglais
Ysgol Penglais
Ysgol Penglais a Hwb Ieuenctid Goats
Ysgol Penglais a Hwb Ieuenctid Goats
Coleg Ceredigion a Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
Coleg Ceredigion a Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig (Cadeirydd y Cyngor Ieuenctid yn 2023-24)
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig ac Urdd Ceredigion
Addysg Ddewisol yn y Cartref a Chlwb Ieuenctid Talybont
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Uwchradd Aberteifi
Ysgol Henry Richard
Ysgol Henry Richard
Ysgol Henry Richard
Grŵp Ieuenctid Ôl-16

**Hefyd yn bresennol:** Gwion Bowen (Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu), Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion), Y Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau), Elen James (Prif Swyddog Addysg, Cyngor Sir Ceredigion) a Gareth Hughes (Cydlynydd y Cwricwlwm Ôl-14, Gwasanaeth Ysgolion – Cyngor Sir Ceredigion)

**Siaradwyr:** Gwion Dafydd (Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd, Gwasanaeth Ysgolion – Cyngor Sir Ceredigion) a Catrin Petche, Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg – Cyngor Sir Ceredigion)

**Ymddiheuriadau:**

(Ysgol Bro Teifi) (Ysgol Bro Teifi) a (Ysgol Bro Pedr a'r Urdd)

**Agenda'r Cyfarfod:**

Agenda Cyfarfod Cyngor Ieuenctid 02.0

| COFNODION | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau** |
| | Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod drwy groesawu'r Cyngor Ieuenctid i'r Siambr.<br><br>Nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Rhannodd GB wybodaeth am y canlynol:<br><br>• Siaradwyr<br>• Offer cyfieithu<br>• Allanfeydd Tân<br>• Toiledau<br>• Cinio a lluniaeth<br><br>Croesawodd GB Rosa Waby fel cadeirydd y cyfarfod.<br><br>Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu hunain gan nodi'r ysgolion / sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli.<br><br>Esboniodd GB y byddai cofrestr yn mynd o amgylch y Siambr yn ystod y cyfarfod. |
| **2** | **Gweithdy ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 yn yr ysgolion – Gwion Dafydd, Cyngor Sir Ceredigion** |
| | PowerPoint Ieuenctid - Adolygiad Ol-16 - 0<br><br>Cyflwynodd Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd, Gwasanaeth Ysgolion Ceredigion, y cynigion ynghylch adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngheredigion.<br><br>Gwnaeth aelodau'r Cyngor Ieuenctid gymryd rhan mewn gwaith grŵp a bu iddynt rannu eu barn wrth ateb y cwestiynau a ofynnwyd iddynt.<br><br>Amlinellodd GD Opsiynau A a B, a gwnaeth yr aelodau drafod manteision ac anfanteision posibl y ddau opsiwn.<br><br>Rhoddwyd y cyfle i'r aelodau drafod y cynigion a rhoi adborth am faterion allweddol gan gynnwys y canlynol: y cyd-destun daearyddol, y trefniadau o ran teithio, y dewis o bynciau, y cyfleusterau, y sefyllfa ariannol, y staff, nifer y disgyblion a'r llwybrau presennol a fyddai ar gael i ddysgwyr.<br><br>Byddai barn aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach a byddai hyn yn rhoi arwydd cynnar inni o safbwyntiau pobl ifanc. |

Gan ystyried yr opsiynau a’r cyfleoedd a’r heriau sy’n gysylltiedig â’r rhain, rhannodd yr aelodau amrywiaeth eang o safbwyntiau gwerthfawr a chraff a bu iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau manwl ynghylch sut y gallai cyflwyno’r newidiadau neu gadw pethau fel yr oeddent ar hyn o bryd effeithio ar bobl ifanc a’r modd y byddent yn derbyn addysg bellach yng Ngheredigion. Ymhlith y pwyntiau cyffredinol a wnaed oedd y canlynol:

- Technoleg: gallai hyn wella’r dewis o ran pynciau a chaniatáu i’r bobl ifanc dderbyn cyfleoedd dysgu nad ydynt yn cael eu cynnig mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd. Roedd y cyfle i ddysgu pynciau drwy gyfrwng e-sgol yn gweithio’n dda i’r disgyblion. Dylid ystyried y disgyblion hynny nad oes ganddynt fynediad at offer TGCh na chysylltedd band eang a sut y gallai hyn effeithio ar ansawdd y dysgu. Hefyd, nid oes modd cwblhau rhai elfennau o’r pynciau ymarferol o bell ac felly rhaid i’r rhain ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth e.e. pynciau megis bioleg neu arlwyo. Mae’r pynciau hyn yn cynnwys arddangosiadau, ac ati, ac mae angen iddynt ddigwydd wyneb yn wyneb yn hytrach nag o bell.
- Staffio: ystyriodd y bobl ifanc sut y gallai'r ddau opsiwn a gynigir effeithio ar y staff ac ar swyddi.
- Amrywiaeth: gall y cyfle o ddod â phobl ifanc ynghyd wella ein profiadau addysg.
- Dwyieithrwydd: mae hyn yn bwysig i bobl ifanc a dylid diogelu addysg Gymraeg wrth gyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig.
- Teithio: mae hwn yn fater pwysig iawn i bobl ifanc. Rhannodd rhai o’r bobl ifanc eu profiadau o deithio dros awr ar y bws i gyrraedd y chweched dosbarth. Dywedwyd y byddai gorfod teithio am fwy o amser cyn cyrraedd canolfan y chweched dosbarth a’r costau a fyddai ynghlwm wrth hynny yn bryder i ran fwyaf yr aelodau. Awgrymodd yr aelodau y byddai treulio mwy o amser ar fws yr ysgol / car yn flinedig ac y gallai hyn effeithio ar weithgareddau allgyrsiol, ar waith rhan-amser ac ar yr amser a fyddai ganddynt i gwblhau eu gwaith cwrs. Codwyd pryder hefyd y gallai hyn effeithio’n fawr ar bentrefi gwledig gan nad oedd fawr ddim bysys ysgol / bysys cyhoeddus mewn rhai ardaloedd.
- Teithio ar draws ffiniau siroedd: ystyriwyd sut y gallai cyflwyno’r newidiadau neu beidio â’u cyflwyno effeithio ar y bobl ifanc sy'n teithio dros y ffin i gael addysg bellach mewn ysgolion neu golegau eraill.
- Perthyn: awgrymodd y bobl ifanc mai dosbarthiadau llai fyddai orau ar gyfer dysgu, gan y byddai modd i’r disgyblion gael mwy o amser a sylw gan yr athrawon. Ychwanegwyd y gellid colli'r teimlad o berthyn mewn dosbarthiadau / ysgolion mwy o faint a mynegwyd pryder y gallai gorfod dechrau mewn ysgol newydd yn 16 oed effeithio’n andwyol ar gyfeillgarwch a pherthynas y disgyblion â’r athrawon. Roedd rhai o’r bobl ifanc yn dewis eu pynciau oherwydd eu hathrawon.
- Nifer y disgyblion: mae angen nifer penodol o ddisgyblion i astudio rhai pynciau ac os nad oes modd cyrraedd y ffigwr hwnnw, nid oes modd cynnig y pwnc ac mae hyn yn gallu effeithio ar lwybrau dysgu pobl ifanc.
- Hybrid: gall yr opsiynau dysgu hybrid fod yn gost-effeithiol o ran teithio a helpu'r amgylchedd ar yr un pryd.
- Cyfleusterau: dylid ystyried cost adeiladau newydd a’r costau parhaus o redeg safleoedd mwy o faint, a yw hwn yn opsiwn mwy cost-effeithiol yn yr hirdymor na cheisio rhoi opsiynau eraill ar waith a fyddai’n mynd i’r afael â'r diffyg presennol?

| | |
|---|---|
| | • Y gymuned: ysgolion yn aml yw canolbwynt ein cymunedau, yn enwedig yr ysgolion sy'n cael eu galw'n 'ysgolion cymunedol'. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Eglurodd GD efallai y byddai holiadur yn dilyn (neu gyfle i fwy o ddisgyblion roi eu barn) a dywedodd y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i'r swyddogion ymweld eto â'r Cyngor Ieuenctid i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad. |
| **3** | **Gweithdai - Is-grŵp yr Amgylchedd ac Is-grŵp Urddas Mislif** |
| | Rhannwyd aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn ddau grŵp: Urddas Mislif a'r Amgylchedd. Roedd modd i'r aelodau nad oeddent wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Ieuenctid ddewis y grŵp yr oeddent am ymuno ag ef.<br><br><u>Is-grŵp yr Amgylchedd</u><br><br>Gan adeiladu ar y syniadau cychwynnol a gyflwynwyd gan yr is-grŵp ar gyfer prosiectau a fyddai'n costio hyd at £500, cafodd yr is-grŵp y dasg o flaenoriaethu tri syniad yr oeddent yn teimlo a fyddai'n werth chweil ac yn rhai y byddent yn dymuno eu hystyried ymhellach dros y misoedd nesaf.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd mai'r tri phrosiect yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt yn y lle cyntaf oedd y canlynol:<br><br>• Cynllun Ailgylchu Poteli Plastig<br>• Biniau penodol ar gyfer ailgylchu cardbord ac yn benodol, bocsys Pitsa<br>• Cefnogi gwaith yr hybiau 'codi sbwriel' yng Ngheredigion<br><br>Gofynnodd yr aelodau i GB fynd ati i ymchwilio ymhellach i'r tri syniad yr oeddent wedi'u cynnig fel prosiectau ac i gyflwyno cynnig drafft realistig yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp. Cytunwyd y byddai aelodau'r is-grŵp yn cyfrannu at y gwaith ac y byddent yn cytuno ar gynnig terfynol ar gyfer prosiect yn ystod y cyfarfod nesaf.<br><br><u>Is-grŵp Urddas Mislif</u><br><br>Gwnaeth aelodau'r Is-grŵp Urddas Mislif barhau â'u gwaith gan nodi'r meysydd yr oeddent am eu blaenoriaethu yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn adeiladu ar y gwaith yr oedd y Cyngor Ieuenctid blaenorol wedi'i gyflawni.<br><br>Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt:<br><br>• Addysg ac ymwybyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau eraill<br>• Sicrhau bod cynnyrch ar gael mewn ysgolion a bod modd eu cael yn rhwydd<br>• Y stigma sy'n gysylltiedig â'r mislif<br>• Cyfleusterau addas mewn toiledau i sicrhau urddas<br>• Dealltwriaeth o gyflyrau meddygol sy'n gysylltiedig â'r mislif |

| | |
|---|---|
| | Byddai cyfarfod rhithiol yn cael ei drefnu maes o law i symud y drafodaeth yn ei blaen ac i ddechrau ar y gwaith o 'newid polisi' mewn ysgolion gan gynnwys yr holl faterion a nodir uchod. |
| **4** | **Gweithdy ar bwysigrwydd Presenoldeb mewn Ysgolion / Sefydliadau Addysg - Catrin Petche, Cyngor Sir Ceredigion** |
| | Cynhaliodd Catrin Petche, Arweinydd Tîm Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg Ceredigion sesiwn ymgysylltu ag aelodau'r Cyngor Ieuenctid am bwysigrwydd presenoldeb mewn ysgolion / sefydliadau addysg.<br><br>Rhannodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu barn a'u sylwadau am y ffactorau sy'n cyfrannu at sicrhau bod pobl ifanc yn bresennol yn yr ysgol a sut y gellir gwella hyn.<br><br>Cymerodd yr aelodau ran mewn gweithgareddau gwaith grŵp er mwyn ennyn trafodaeth am y mater hwn a gwnaethant roi adborth am nifer o'r meysydd allweddol. Mae'r adborth wedi'i nodi isod:<br><br>Ymatebion CI 02.02.24 YC Response |
| **5** | **Diweddariad – Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig** |
| | Rhoddodd Aeron Dafydd, Aelod Ceredigion o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig ddiweddariad.<br><br>Byddai AD a RW yn cwrdd â Ben Lake AS; Elen James, y Prif Swyddog Addysg; Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd Wyn Thomas, yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yr wythnos nesaf.<br><br>Gofynnodd AD i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw faterion allweddol y byddent yn dymuno eu codi yn y cyfarfod. Dywedwyd wrthynt y dylent gysylltu ag AD cyn y cyfarfod os oedd ganddynt unrhyw sylwadau. Byddai AD a RW yn rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf. |
| **6** | **Ffilm Comisiynydd Plant Cymru** |
| | *Oherwydd diffyg amser, byddai'r eitem hon yn cael ei symud i gyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid.* |
| **7** | **Trafodaeth am bynciau llosg fel rhan o Ymgyrch 'Rhoi dy Farn 2024' Pobl Ifanc Lleol Ceredigion** |
| | Rhoi dy Farn 2023' Campaign.pptx |

| | |
|---|---|
| | Darparodd GB wybodaeth am ymgyrch 'Rhoi dy Farn 2024'. Byddai aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn cael cyfle i drafod 'pynciau llosg', h.y. materion sy'n bwysig iddyn nhw, a fyddai wedyn yn cael eu gosod ar y rhestr fer. Yna, byddai'r pynciau mwyaf poblogaidd yn cael eu nodi ar bapur pleidleisio. Bydd y papurau pleidleisio hyn yn cael eu rhannu â'r ysgolion, y colegau a'r grwpiau ieuenctid, gan gynnig y cyfle i bobl ifanc bleidleisio ar y pynciau sydd bwysicaf iddyn nhw. Yna bydd yr holl bleidleisiau'n cael eu casglu ynghyd, a bydd y 4 pwnc sy'n sgorio uchaf yn cael eu trafod yn ystod digwyddiad 'Pawb a'i Farn 2024' yn yr haf.<br><br>Roedd yr 20 pwnc llosg a godwyd ac a drafodwyd gan y Cyngor Ieuenctid fel a ganlyn:<br><br>• Fêpio mewn ysgolion<br>• Addysg Ôl-16<br>• Straen Arholiadau<br>• Bwlio<br>• Cefnogi Gofalwyr Ifanc<br>• Argyfwng Costau Byw<br>• Trafnidiaeth<br>• Yr amgylchedd<br>• Addysg cydberthynas a rhywioldeb<br>• Pleidleisio yn 16 oed<br>• Mannau i bobl ifanc<br>• Adfywio canol y trefi<br>• Tai fforddiadwy<br>• Ynni adnewyddadwy<br>• Camddefnyddio sylweddau<br>• Hyrwyddo'r Gymraeg<br>• Gwasanaethau cymorth i bobl ifanc<br>• Gwasanaethau cymorth i deuluoedd<br>• Diogelu pobl ifanc rhag iddynt gael eu cam-drin<br>• Profiad gwaith<br><br>Gwnaeth y bobl ifanc drafod y pynciau hyn gan gyflwyno dadleuon ynghylch pam y dylid eu cynnwys ar y rhestr fer a'u cynnwys yn y bleidlais eleni. Cafwyd sgyrsiau pellach am y materion a oedd yn codi o dan bob pwnc, er enghraifft – yr argyfwng costau byw a chysylltiad hyn â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.<br><br>Ar ôl hynny, cafodd yr aelodau y cyfle i 'bleidleisio â'u traed' a chafodd y 'pynciau llosg' isod eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer eu cynnwys ym mhleidlais 'Rhoi dy Farn' 2024.<br><br>• Yr Amgylchedd<br>• Costau Byw<br>• Trafnidiaeth<br>• Mannau i bobl ifanc<br>• Y Gymraeg<br>• Gwasanaethau cymorth i bobl ifanc<br>• Iechyd meddwl a llesiant |

| | |
|---|---|
| | • Tai fforddiadwy<br><br>Rhannodd GB yr amserlen ar gyfer pleidlais 'Rhoi dy Farn' a dywedodd y byddai'r canlyniadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid. |
| **8** | **Y trefniadau ar gyfer ymweld â Senedd Cymru** |
| | Taith 'Senedd Cymru' Trip 1.pptx<br><br>Bu i GB atgoffa'r aelodau o'r cyfle i ymweld â'r Senedd yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Bydd yr ymweliad yn cynnwys taith addysgol o amgylch y Senedd a sesiwn holi ac ateb gydag Elin Jones AS. Bydd cyfle i'r bobl ifanc dreulio rhywfaint o amser ym Mae Caerdydd cyn dychwelyd i Geredigion.<br><br>Darperir trafnidiaeth. Rhannodd GB amserlen y diwrnod â'r grŵp. Bu i GB atgoffa'r grŵp i gyflwyno eu ffurflenni aelodaeth os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny a dywedodd y byddai rhywun yn cysylltu â nhw wythnos cyn yr ymweliad i gadarnhau'r trefniadau. |
| **9** | **Rhannu gwybodaeth a dyddiad y cyfarfod nesaf** |
| | Gofynnodd RW a oedd unrhyw un o'r aelodau yn dymuno codi unrhyw fater arall. Ni chodwyd yr un mater arall.<br><br>Rhannodd GB gopïau o ffurflen aelodaeth y gwasanaeth.<br><br>Rhannodd RW wybodaeth am y cyfarfod nesaf a fyddai hefyd yn cael ei gynnal yn y Siambr ar 20/03/2024.<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd 2023-24:<br><br>~~Cyfarfod 1: 20/10/23~~<br>~~Cyfarfod 2: 02/02/24~~<br>Cyfarfod 3: 20/03/24<br>Diwedd tymor, Digwyddiad Pawb a'i Farn: 12/07/23<br><br>Youth Council Flyer 2023.24 (Eng).pdf<br><br>Diolchodd RW i'r aelodau am gymryd rhan yn y cyfarfod ac am hwyluso pethau iddi hi fel y Cadeirydd newydd.<br><br>Diolchodd GB i RW am gadeirio'r cyfarfod ac am wneud hynny mor effeithiol ac effeithlon.<br><br>Esboniodd GB ei bod yn debygol y byddai'r is-grwpiau yn cwrdd cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Ieuenctid, ac y byddai hynny'n debygol o ddigwydd dros MS Teams. Gallai'r is-grwpiau gwrdd yn amlach i sicrhau bod modd i waith y prosiectau / ymgyrchoedd fynd rhagddo. Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu â'r is-grwpiau maes o law. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd RW i bob aelod lofnodi eu henwau ar y daflen wrth iddynt adael Penmorfa ac i aros yn y dderbynfa am eu trafnidiaeth.<br><br>Diolchodd GB i'r grŵp am ail gyfarfod cynhyrchiol a chadarnhaol o Gyngor Ieuenctid 2023-24.<br><br>*Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn rhan o'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.* |

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Mai 2024 |
| **Teitl:** | Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (20.03.24) |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cyflwyno cofnodion un o gyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion |

**Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:** Er gwybodaeth

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Cefndir**

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn dogfen Llywodraeth Cymru *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw Atodiad B - *y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc***.**

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.
- Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.
- Er mwyn i Fforymau / Cynghorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn..
- Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.
- Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da. **Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

**<u>Y Sefyllfa Bresennol</u>**

Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion sy'n gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuenctid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn 'yn y rôl'. Mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid yn cael eu cynnal yn y Siambr ym Mhenmorfa. Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn rhan o'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.**

Ddim yn berthnasol

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**<u>Argymhelliad:</u>**

Gofyn i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu nodi cofnodion cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024, er gwybodaeth.

**<u>Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**

Bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Lowri Evans

**<u>Swydd:</u>** Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu

**<u>Dyddiad yr adroddiad:</u>** 11.04.2024

**<u>Acronymau:</u>** Ddim yn berthnasol

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

**SPSF 3 - ATODIAD B**
**CANLLAWIAU STATUDOL YNGHYLCH CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac maent yn berthnasol I awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, a phryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol *wneud trefniadau y maent yn ystyried sy'n addas i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am ei drefniadau.* Gallai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant hyd at 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae gan CCUHP 54 o erthyglau. Mae erthyglau 1-41 yn nodi sut y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin. Mae'r 13 o erthyglau eraill yn nodi sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i sicrhau y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at eu hawliau.

Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r Confensiwn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifance (Cymru) 2011.
Mae Adran 1 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried sut mae'r hyn maent yn ei wneud yn

cysylltu â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a manteisiwyd ar bob cyfle i nodi sut i wireddu'r hawliau perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae hyn yn treiddio I lawr i'r lefel leol drwy ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan sy'n hawl sylfaenol ac yn hawl galluogi fel y nodir yn Erthygl 12 CCUHP:

> Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch beth maent yn meddwl a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i gael eu barn wedi ei hystyried.

Mae erthyglau'r CCUHP wedi'u crynhoi'n Saith Nod Craidd a ddylai fod yn sail I arferion gwaith unrhyw ddarpariaeth gan wasanaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Nod Craidd 5 yn arbennig yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc gyda'r nod

> Bod pob plenty a person ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin a pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cynabod

Bwriad y canllaw hwn felly yw rhoi cyfle i bob plantyn a pherson ifanc gael gwrandawiad a chael cyfrannu at wneud penderfyniadau.

Gall llais a chyfranogiad y dinesydd fod yn erfyn pwysig i ddeall ble mae system yn methu a lle mae diffyg cyd-drefnu rhwng darparwyr gwasanaethau yn gwastraffu adnoddau heb wella canlyniadau, i ailgynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion pobl ac i bwyso a mesur effeithlonrwydd gwasanaeth. Dylai plant a phobl ifanc gael eu hystyried fel dinasyddion nawr, nid dinasyddion y dyfodol. Dylai Awdurdodau Lleol feddwl sut y gallant roi'r grym i blant a phobl ifanc gyfrannu at wneud penderfyniadau a sicrhau bod clust i glywed eu barn. Er y bod yn well gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc

gyfrannu mewn grŵp, dylid ystyried sut y gall unigolion fod yn rhan o brosesau cynllunio a phenderfynu.

**Gofynion**

Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

• hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn cyd-destun eang y CCUHP, fel rhan o'u polisïau, gwasanaethau a'r ymgysylltu ehangach â dinasyddion. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn ymwybodol o'u hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan ac i'w barn gael ei chlywed, a'u hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;

• gwreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys Asesu Llesiant Lleol, y cynllun llesiant lleol ac is-gynlluniau perthnasol;

• mabwysiadu Safonau Cyfranogi Cenedlaethol. Mae cefnogaeth i'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru a cheir llawer o enghreifftiau o arferion da o gyrff sydd wedi mabwysiadu'r safonau fel cyfrwng i sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn ystyrlon ac effeithlon.

• cyhoeddi gwybodaeth am fanteision a threfniadau hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad yn yr awdurdod, a rhannu enghreifftiau o arferion da, er enghraifft, trwy wefannau a thaflenni newyddion yn ogystal ag ar y
Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cydnabod.
cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda 'Young Wales'. Gall y plant a'r bobl ifanc eu hunain gymryd rhan amlwg i godi ymwybyddiaeth am

bwysigrwydd cymryd rhan. Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o adnoddau a allai gefnogi hyn ac y gellid eu haddasu yn ôl anghenion lleol. Yn ogystal â defnyddio adnoddau a'r cyfryngau sy'n rhwydd eu cyrraedd gan blant a phobl ifanc, gellid cynnwys gwybodaeth yn adroddiad cynnydd blynyddol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;

• dylai gwybodaeth a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc fod yn glir ac yn hawdd i'w deall. Dylent ateb eu cwestiynau a'r anghenion a nodwyd ganddynt, yn ogystal â bod yn gywir, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch o ran iaith a fformat.

• sicrhau bod ystod o gyfleoedd a'r gefnogaeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fel unigolion gymryd rhan gael eu hintegreiddio i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd yn ogystal â strwythurau cyfranogi penodol megis fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, rhai sy'n agored i niwed neu rai sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol. Mae gan y fforymau a'r grwpiau hyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i ddefnyddio eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn;

• cefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid Sirol fel corff cynrychiadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac at gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc sy'n fwy ar yr ymylon. Er mwyn i Fforymau/ Cynghorau Ieuenctid Sirol weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn. Dylent gael eu hysbysu gan eu strwythurau democrataidd lleol a'u cysylltu â hwy. Bydd angen iddynt hefyd gysylltu'n effeithiol i mewn i strwythurau cyfranogiad cenedlaethol megis 'Young Wales', Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

• rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ac fel rhan o baratoi'r cynllun llesiant lleol, gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol sef 'y Gymraeg yn ffynnu'.

**Gweithio gyda phartneriaid**

Er bod y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddwyd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn unig, byddem yn eu hannog I weithio'n agos gyda phob un o'u partneriaid perthnasol. Mae gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn arfer da ac mae Adran 25 Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad gyda'r bwriad o wella llesiant plant yn yr ardal. Ymhellach, mae Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi gofyniad ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd I ymgynghori wrth asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal.

Mae llawer o enghreifftiau o bartneriaid sy'n cyfrannu at gyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn ei brif ffrydio i'w meysydd gwaith a'u trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Gwelir rhai o'r rhain ar www.youngwales.wales and www.pupilvoicewales.org.uk.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Mae cwmpas y ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach na chael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Mae'n bwysig fod cyfranogiad yn dod yn rhan o bolisi ac arferion yr holl bartneriaid lleol. Dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso.

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 3 – Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)

Fodd bynnag, gallai'r cynllun llesiant esbonio sut y gellid sicrhau bod pob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau a'u "trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad" wneud cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn ganolog iddynt. Gallai adroddiad cynnydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys crynodeb i esbonio sut mae'r dyletswyddau statudol hyn wedi'u cyflawni a sut y gellid gwneud yn well. Gallai adroddiad cynnydd blynyddol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried y nodweddion gwarchodedig, yn enwedig o ran oed, gan adrodd yn benodol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Hefyd, mae cynlluniau llesiant lleol yn rhoi tystiolaeth i Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) wrth iddynt gynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gallai Arolygiaethau a'r WAO hefyd adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i ddangos pa mor effeithiol y mae plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwrandawiad, i gael llais ac i allu cael mynediad at gyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau lle bynnag y bônt - yn yr ysgol, o gwmpas yn y gymuned neu fel defnyddwyr gwasanaethau.

Ein huchelgais yw i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru wireddu eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn. Efallai y bydd yna weithiau rwystrau i gyflawni hyn, ond drwy weithio mewn ffordd gydweithredol, mae gennym ni i gyd rôl o ran ystyried ffyrdd y gallai'r rhwystrau hyn gael eu dileu neu eu goresgyn. Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc, a rhaid cynnal y momentwm.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am arfer da mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar www.childrensrights.wales neu http://www.childrensrights.wales/images/PDF/Participation_En2.pdf

Mae gwybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arfer da sy'n cefnogi cyfranogiad yng Nghymru ar gael hefyd yn www.youngwales.wales.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o**
**Gyngor Ieuenctid Ceredigion**
**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa**
**ddydd Mercher 20 Mawrth 2024**

(10:00 – 14.00)

**Yn bresennol:**

Ysgol Bro Teifi (Aelod Ceredigion o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig 2023-24)
Ysgol Penglais a Hwb Ieuenctid Goats
Ysgol Penglais a Hwb Ieuenctid Goats
Coleg Ceredigion a Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
Coleg Ceredigion a Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
Ysgol Gyfun Penweddig
Ysgol Gyfun Penweddig ac Urdd Ceredigion
Addysg Ddewisol yn y Cartref a Chlwb Ieuenctid Talybont
Ysgol Gyfun Aberaeron
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Henry Richard
Ysgol Henry Richard

**Hefyd yn bresennol:** Gwion Bowen (Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu), Lowri Evans (Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu – Cyngor Sir Ceredigion), Greg Jones (Swyddog Corfforaethol Dros Dro, Porth Cymorth Cynnar) a'r Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)

**Siaradwyr:** Louise Grove-White (Swyddog Prosiect, Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol)

**Ymddiheuriadau:**

(Ysgol Gyfun Penweddig (Cadeirydd Cyngor Ieuenctid 2023-24), (Ysgol Penglais), (Ysgol Penglais), Elen James (Prif Swyddog Addysg, Cyngor Sir Ceredigion), (Ysgol Gyfun Penweddig), (Ysgol Gyfun Penweddig), (Ysgol Uwchradd Aberteifi), (Ysgol Gyfun Aberaeron), (Ysgol Gyfun Aberaeron), (Ysgol Gyfun Aberaeron), (Ysgol Bro Pedr), (Ysgol Bro Teifi), (Ysgol Bro Teifi) a (Ysgol Bro Pedr a'r Urdd)

**Agenda'r Cyfarfod:**

Agenda Cyfarfod Cyngor Ieuenctid 20.3

| MINUTES | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau** |
| | Agorodd Gwion Bowen y cyfarfod drwy groesawu'r Cyngor Ieuenctid i'r Siambr.<br><br>Nodwyd yr ymddiheuriadau. |

| | |
|---|---|
| | Rhannodd GB wybodaeth am y canlynol:<br><br>• Siaradwyr<br>• Offer cyfieithu<br>• Allanfeydd Tân<br>• Toiledau<br>• Cinio a lluniaeth<br><br>Rhannodd GB yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law oddi wrth Rosa Waby, Cadeirydd y Cyngor Ieuenctid. Byddai GB yn cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Rosa.<br><br>Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid eu hunain gan nodi'r ysgolion / sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli.<br><br>Esboniodd GB y byddai cofrestr yn mynd o amgylch y Siambr yn ystod y cyfarfod.<br><br>Hwn oedd cyfarfod ffurfiol diwethaf Cyngor Ieuenctid Ceredigion ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, byddai cyfarfodydd yr is-grwpiau yn parhau i gael eu cynnal o bell a byddai unrhyw gyfarfodydd i gadarnhau trefniadau terfynol digwyddiad 'Pawb a'i Farn' ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Gorffennaf 2024 hefyd yn cael eu cynnal o bell yn ôl yr angen. |
| **2** | **Cyflwyniad y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – Louis Grove-White** |
| | Youth Council Meeting 20.03.24.pptx<br><br>Rhannodd LG-W gyflwyniad PwyntPwer gan ddechrau drwy roi cefndir llwybr ei gyrfa ei hun. Roedd LG-W yn gweithio fel Swyddog Prosiect ar ran Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a oedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â 3 partneriaeth arall ar draws Cymru. Roedd yn gweithio o dan adain Tyfu Canolbarth Cymru ac esboniodd sut yr oedd y Fargen Dwf yn chwarae rôl allweddol gan fod yn gatalydd o ran adfywiad a thwf economaidd yng Nghanolbarth Cymru. Dywedwyd bod £110m yn cael ei fuddsoddi ar draws rhanbarth Ceredigion a Phowys. Esboniodd LG-W fod 9 brosiectau allweddol yn cael eu hadolygu ac y byddent yn derbyn cyfran o'r cyllid.<br><br>Amcanion y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol oedd gweithio gyda chyflogwyr i nodi'r sgiliau allweddol y mae eu hangen yn y farchnad lafur leol gan sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddi yn cyd-fynd â'r galw. Hefyd, soniodd LG-W am y Gwarant i Bobl Ifanc sef ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth i bawb rhwng 16 a 24, sy'n byw yng Nghymru ac sydd mewn perygl o fod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant) fel y gallant sicrhau lle yn y byd gwaith, dderbyn addysg neu gael hyfforddiant.<br><br>Cafodd y bobl ifanc y cyfle i gymryd rhan mewn arolwg rhyngweithiol gan ddefnyddio platfform Mentimeter. Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u cynnwys isod.<br><br>Ceredigion Youth Council Survey.pdf |

Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn awyddus i ddeall profiadau pobl ifanc o ran derbyn cyngor am yrfaoedd, ac roedd ar hyn o bryd yn ystyried model arbennig ar gyfer Canolbarth Cymru.

Cafodd y bobl ifanc y cyfle i weld porthol gyrfaoedd rhyngweithiol o'r enw Gyrfa 360 a baratowyd ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gan gwmni o'r enw One Step North. Cafodd y bobl ifanc y cyfle i rannu eu barn a'u hadborth cychwynnol am y datblygiad hwn. Nid oedd y cysyniad ar-lein hwn wedi'i rannu'n gyhoeddus eto. Byddai modd i bob person ifanc yng Ngheredigion a Phowys ddefnyddio'r ffynhonnell wybodaeth hon yn ystod eu haddysg uwchradd a'r gobaith oedd y byddai'n eu hannog nhw i wneud penderfyniadau gwybodus wrth iddynt ddewis gyrfa.

**3 Gweithdai - Is-grŵp yr Amgylchedd ac Is-grŵp Urddas Mislif**

Rhannwyd aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn ddau grŵp: Urddas Mislif a'r Amgylchedd. Roedd modd i'r aelodau nad oeddent wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Ieuenctid ddewis y grŵp yr oeddent am ymuno ag ef.

<u>Is-grŵp yr Amgylchedd</u>

Yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd 3 phrosiect posibl (gwerth £500) i ymchwilio ymhellach iddynt, sef:

1) Cynllun Ailgylchu Poteli Plastig
2) Biniau penodol ar gyfer ailgylchu cardbord ac yn benodol, bocsys Pitsa
3) Cefnogi gwaith yr hybiau 'codi sbwriel' yng Ngheredigion

Ar ôl ymchwilio ymhellach, daethpwyd i'r casgliad mai'r prosiect mwyaf priodol a realistig i'r is-grŵp ei ddatblygu fyddai 'cefnogi gwaith yr hybiau 'codi sbwriel' yng Ngheredigion'. Cytunwyd y byddai cyflwyno cynllun ailgylchu poteli plastig a mynd ati i gyflwyno biniau ailgylchu newydd ar gyfer cardbord yn rhy uchelgeisiol fel prosiect cychwynnol yr is-grŵp a byddai'n anodd hefyd cadw o fewn y gyllideb.

Yn sgil hyn, paratowyd cynnig drafft ar gyfer y prosiect. Roedd y cynnig yn cynnwys trefnu cyfarfod â Richard Thomas, Swyddog Prosiect Cadwch Gymru'n Daclus i archwilio'r syniad ymhellach; prynu cyfarpar ychwanegol ar gyfer 'codi sbwriel' i gefnogi'r hybiau 'codi sbwriel' presennol; creu deunydd hyrwyddo a fyddai'n tynnu sylw at yr angen i roi sbwriel yn y bin yn hytrach na'i daflu ar y llawr (gan dargedu pobl ifanc) a threfnu dau ddiwrnod i godi sbwriel yn ystod gwyliau'r haf gan helpu i hyrwyddo'r cynllun 'codi sbwriel' gwirfoddol yng Ngheredigion. Rhagwelwyd y byddai modd cwrdd â chynrychiolydd Cadwch Gymru'n Daclus cyn diwedd mis Ebrill 2024.

Draft project template is grwp amg

<u>Is-grŵp Urddas Mislif</u>

| | |
|---|---|
| | Roedd yr is-grŵp Urddas Mislif wedi cwrdd ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Ieuenctid yn y Siambr. Yn ystod cyfarfodydd rhithiol o'r is-grŵp, gwnaeth yr aelodau gwrdd â Dr Robyn Jackowich, Darlithydd yn Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd a gyflwynodd astudiaeth y brifysgol ynghylch 'Poenau Difrifol adeg y Mislif', a Laurie Hughes, Athrawes Ymgynghorol Lles yng Ngwasanaethau Ysgolion Ceredigion i drafod y blaenoriaethau ar hyn o bryd.<br><br>Bu i'r grŵp adolygu fersiwn ddrafft 'Canllawiau ynghylch y Mislif i Ysgolion Ceredigion' a rhoi adborth yn ei chylch. Byddai LE yn mynd ati i'w diweddaru yn unol â'r sylwadau a roddwyd a byddai'n rhannu'r canllawiau er mwyn derbyn sylwadau terfynol.<br><br>Roedd y canllawiau yn ystyried y meysydd canlynol:<br><br>• Cyflwyniad<br>• Cefndir<br>• Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif: Llywodraeth Cymru<br>• Cynllun Urddas Mislif Ceredigion<br>• Dull gweithredu ar gyfer yr ysgol gyfan<br>• Cynnyrch mislif<br>• Dillad sbar<br>• Hyfforddiant a dysgu proffesiynol<br>• Addysg ac ymwybyddiaeth ynghylch y mislif<br>• Urddas wrth ddefnyddio toiledau<br>• Y mislif ac ymarfer corff<br>• Poenau difrifol adeg mislif ac Endometriosis<br>• Adnoddau defnyddiol<br>• Cwestiynau cyffredin<br>• Cysylltiadau defnyddiol<br>• Ysgolion sy'n dangos agweddau cadarnhaol tuag at y mislif: Templed ar gyfer y Fframwaith<br><br>Rhannodd yr aelodau syniadau am feysydd a oedd ar goll o'r canllawiau neu feysydd a oedd angen eu haddasu.<br><br>Gofynnwyd i aelodau'r is-grŵp a fyddent ar gael i fod yn bresennol yng nghyfarfod Fforwm Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ceredigion i gyflwyno'r canllawiau cyn iddynt gael eu cyhoeddi a'u rhannu'n eang ag ysgolion Ceredigion. Byddai LE yn trefnu bod y canllawiau yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Penaethiaid ym mis Mehefin. |
| **4** | **Diweddariad - Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig** |
| | Rhoddodd Aeron Dafydd (Aelod Ceredigion o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig) ddiweddariad am y cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng Rosa Waby (Cadeirydd y Cyngor Ieuenctid), Ben Lake AS, Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, Wyn Thomas, yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Elen James, Prif Swyddog Addysg. |

| | |
|---|---|
| | Ymhlith y materion a drafodwyd oedd y canlynol:<br><br>• Trafnidiaeth<br>• Addysg Ôl-16<br>• Ail gartrefi<br>• Argyfwng Costau Byw<br>• Yr Amgylchedd / Sero Net<br>• Y Gymraeg<br>• Presenoldeb mewn Ysgolion<br>• Y Meini Prawf ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg<br><br>Rhannodd GB ddiweddariad ynglŷn â rhaglen genedlaethol Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig. |
| **5** | **Adborth ynghylch Ymweliad y Cyngor Ieuenctid â'r Senedd a Strwythur y Rhaglen** |
| | Gofynnodd GB i'r aelodau am eu hadborth a'u profiadau yn dilyn yr ymweliad â Senedd Cymru yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2024.<br><br>Bu 13 aelod o Gyngor Ieuenctid Ceredigion ar ymweliad â'r Senedd ym Mae Caerdydd gan fynd ar daith addysgol o amgylch yr adeilad a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gydag Elin Jones AS.<br><br>Cododd y bobl ifanc gwestiynau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw, gan gynnwys trafnidiaeth, addysg, fêpio ac awtistiaeth.<br><br>Eglurodd GB fod yr ymweliad â'r Senedd yn ychwanegiad newydd i raglen graidd y Cyngor Ieuenctid, ac nad oedd hyn wedi'i gynnwys ar y rhaglen er 2015. Ychwanegodd fod adborth y bobl ifanc yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno bod ymweld â'r Senedd yn rhywbeth gwerthfawr.<br><br>Dywedodd yr aelodau eu bod wedi mwynhau'r profiad ac iddo fod yn brofiad gwerth chweil. Roeddent o'r farn y dylai'r ymweliad barhau i fod yn rhan o raglen flynyddol y Cyngor Ieuenctid. Awgrymodd yr aelodau efallai y tro nesaf y byddai'n well mynd ar ddiwrnod ysgol yn hytrach nag yn ystod y gwyliau. |
| **6** | **Trafodaeth ynghylch Canlyniadau 'Rhoi dy Farn 2024'** |
| | Cafodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid drafodaeth ynghylch canlyniadau'r bleidlais flynyddol a gynhaliwyd fel rhan o ymgyrch 'Rhoi dy Farn'. Ar ôl ystyried rhestr eang o bynciau pwysig, dewiswyd rhestr fer o bynciau. Byddai'r cwestiynau a gyflwynir i banel Pawb a'i Farn' yn seiliedig ar y pynciau a dderbyniodd y nifer mwyaf o bleidleisiau.<br><br>Pleidleisiodd 2031 o bobl ifanc a rhannwyd y canlyniadau ar y sgrin fel y gellid eu trafod. |

Canlyniadau Rhoi Dy Farn - in order 2024.p

Diolchwyd i CJ (Coleg Ceredigion) a oedd wedi cynorthwyo GB i gasglu'r pleidleisiau o Gampws Aberystwyth.

Esboniodd GB fod papurau pleidleisio wedi dod i law oddi wrth holl ysgolion uwchradd Ceredigion, yr Unedau Cyfeirio Disgyblion, Coleg Ceredigion, Hyfforddiant Ceredigion a nifer o grwpiau ieuenctid.

**7 Ffilm Comisiynydd Plant Cymru**

Rhannwyd ychydig o wybodaeth am Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes. Roedd Rocio wedi dechrau yn y rôl ym mis Ebrill 2022 a hi fydd y comisiynydd am 7 mlynedd.

Rhannwyd ffilm a oedd wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar ag aelodau'r Cyngor Ieuenctid. Roedd y ffilm yn tynnu sylw at flaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Byddai Comisiynydd Plant Cymru yn ymuno â phanel digwyddiad diwedd blwyddyn y Cyngor Ieuenctid sef 'Pawb A'i Farn Ceredigion 2024' a gynhelir yn Siambr y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2024.

CCFW Film.pptx

**8 Paratoi ar gyfer digwyddiad Pawb a'i Farn 2024: Y cwestiynau a'r panel**

Yn dilyn trafodaeth ynghylch canlyniadau pleidlais 'Rhoi dy Farn', cafodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid y cyfle i ystyried eu cwestiynau wrth baratoi ar gyfer digwyddiad 'Pawb a'i Farn' yn nhymor yr haf.

Byddai cwestiynau pwysig ynghylch y pynciau canlynol yn cael eu gofyn i banel o wneuthurwyr polisi ac unigolion sy'n dylanwadu ar bolisi:

- Tai Fforddiadwy
- Costau Byw
- Trafnidiaeth
- Iechyd Meddwl a Llesiant

Rhannwyd yr aelodau i grwpiau fel y gallent drafod y materion hyn a pharatoi cwestiynau cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Ieuenctid ehangach.

Byddai'r cwestiynau yn cael eu gofyn i'r panel yn y Gymraeg a'r Saesneg a phenderfynodd y bobl ifanc y byddai'r aelodau canlynol yn gofyn y cwestiynau:

- Tai Fforddiadwy (CJ a CJ)

| | |
|---|---|
| | • Costau Byw (MB a DD)<br>• Trafnidiaeth (TD a LIN)<br>• Iechyd Meddwl a Llesiant (MB a CM)<br><br>Roedd dau aelod o banel Pawb a'i Farn wedi'u cadarnhau (Ben Lake AS a Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru). Byddai dau aelod arall yn cael eu cadarnhau'n fuan. |
| **9** | **Rhannu gwybodaeth a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| | Gofynnodd RW a oedd unrhyw un o'r aelodau yn dymuno codi unrhyw fater arall. Ni chodwyd yr un mater arall.<br><br>Rhannodd GB wybodaeth am gynllun teithiau rhatach Llywodraeth Cymru sef 'Fy Ngherdyn Teithio'. Roedd y wybodaeth hefyd wedi'i rhannu ar lwyfan MS Teams y Cyngor Ieuenctid.<br><br>Rhannodd GB wybodaeth am y 'cyfarfod' nesaf sef y digwyddiad diwedd tymor yn y Siambr ar 12/07/2024. Byddai trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ac yn ogystal ag aelodau'r Cyngor Ieuenctid, byddai cyfle i'r ysgolion ddod â disgyblion ychwanegol i fod yn rhan o'r gynulleidfa.<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd 2023-24:<br><br>~~Cyfarfod 1: 20/10/23~~<br>~~Cyfarfod 2: 02/02/24~~<br>~~Cyfarfod 3: 20/03/24~~<br>Diwedd tymor, Digwyddiad Pawb a'i Farn: 12/07/23<br><br>Youth Council Flyer 2023.24 (Eng).pdf<br><br>Diolchodd GB i'r aelodau am fod yn bresennol ac am gymryd rhan yn y cyfarfod.<br><br>Gofynnodd RW i bob aelod lofnodi eu henwau ar y daflen wrth iddynt adael Penmorfa ac i aros yn y dderbynfa am eu trafnidiaeth.<br>.<br><br>*Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn rhan o'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.* |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu**

**DYDDIAD:** **9 Mai 2024**

**LLEOLIAD:** **Hybrid**

**TEITL:** Diweddariad Ffrwd Waith Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Rhoi adborth ar waith y ffrwd waith**

**RHESWM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:**

**CEFNDIR:**

Sefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu bedair ffrwd waith yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2012 er mwyn codi ymwybyddiaeth, at bwrpas hyfforddi, archwilio pynciau'n fanylach ac ar gyfer nodi agweddau y mae angen craffu pellach arnynt fel rhan o'r broses flaengynllunio rhaglenni gwaith. Adolygwyd y ffrydiau gwaith yn ystod 2022, a symleiddiwyd y pedair ffrwd waith yn dair (fel y nodir isod). Rhannwyd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu rhwng y tair ffrwd waith newydd ac mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu ac yn cyfrannu at y tri.

| Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol | Sicrhau tegwch i bob disgybl | Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon i gyflawni ein blaenoriaethau |
|---|---|---|
| Cynghorydd:<br>Endaf Edwards<br>Chris James<br>Euros Davies<br>Rhodri Davies<br>Elizabeth Evans | Cynghorydd:<br>Endaf Edwards<br>Chris James<br>Paul Hinge<br>Marc Davies<br>Amanda Edwards<br>Mark Strong<br>Ann Bowen Morgan | Cynghorydd:<br>Endaf Edwards<br>Chris James<br>Meirion Davies<br>Eryl Evans<br>Gareth Lloyd |

Gwahoddir holl Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gyfarfodydd cyfredol y ffrwd waith.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
**Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol**
**Ymweliad ag Ysgol Henry Richard ac Ysgol Y Dderi**

Cyfarfu'r ffrwd waith 'Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol' ar 19 Ionawr 2024. Mynychodd y ffrwd waith Ysgol Henry Richard yn ystod y bore.

Rhoddodd Aled Rumble, Cydlynydd Cwricwlwm i Gymru, gyflwyniad ar y Cwricwlwm i Gymru a oedd yn adeiladu ar y cyflwyniad a roddwyd yn ystod ymweliad ffrwd waith ag Ysgol Plascrug ddeuddeg mis ynghynt. Cafodd yr Aelodau gyflwyniad wedyn gan ddau ddisgybl blwyddyn 8 a ddechreuodd ar daith y cwricwlwm ym mlwyddyn 7. Gwnaethant ddarparu'r enghraifft o ddysgu am y diwydiant gwlân. Yr ysgogiad ar gyfer hyn oedd taith i'r Llyfrgell Genedlaethol i ddysgu am y diwydiant amaeth a gwlân yn Nhregaron a ddatblygodd yn syniad o ‘fomio-gwlân’ yr ysgol er mwyn rhoi golwg fodern i hen draddodiad lleol.


Yn ystod cyfnod clo Covid gwëwyd sgwariau gwlân gan y disgyblion a'r gymuned. Unodd y prosiect unigryw hwn yr ysgol gyda'r gymuned. Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol roedd y coed wedi’u gwisgo yn y sgwariau gwlân. Yna tynnwyd y sgwariau gwlân i lawr, eu golchi, a bu disgyblion blwyddyn 7 yn creu ‘Blancedi Hapus’ a oedd yn glynu wrth egwyddor yr ysgol o ‘Ail-Garu’. Roedd y ffrwd waith yn cydnabod sut roedd yr ysgol wedi llwyddo i gyfuno'r blaenoriaethau cenedlaethol i'r blaenoriaethau lleol.

Arweiniodd y Prif Ddisgyblion Elin Williams a Delun Davies daith o amgylch yr ysgol i'r ffrwd waith gan dynnu sylw at bwysigrwydd hanes Tregaron a bod yr hanes/traddodiadau lleol yn chwarae rhan bwysig yn eu cwricwlwm.


Clywodd y ffrwd waith fod y Diwrnodau Pontio yn effeithiol iawn yn dod â disgyblion o ysgolion eraill at ei gilydd, gan gynnwys cynnal barbeciw a chymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan ddisgyblion.

'Cyngor Disglair', y cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwricwlwm Ysgol Henry Richard yn canolbwyntio ar y disgybl, h.y. mae gan ddisgyblion gyfle i gyfrannu at gwricwlwm yr ysgolion er mwyn ei wneud yn bersonol, yn addas ac yn gyfoes.

Gweledigaeth y disgyblion ar gyfer Ysgol Henry Richard:




Amlinellwyd Cwricwlwm yr ysgolion i'r ffrwd waith gan ddisgyblion. Fe'i cynlluniwyd gan ddisgyblion ac fe'i dangosir isod. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar am y daith o amgylch yr ysgol a'r cyfle i arsylwi gwerthoedd ac ethos yr ysgol mewn dull ymarferol.






Yna aeth y ffrwd waith i Ysgol Y Dderi lle'r oedd disgyblion wedi paratoi pryd dau gwrs i'r Aelodau gyda chynnyrch wedi'i dyfu yng ngardd yr ysgol a chynnyrch lleol. Roedd y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwybod o ble mae'r cynhwysion yn dod a beth sydd yn y bwyd rydych chi'n ei fwyta. Trwy gwestiynu eich ffynonellau bwyd a gwneud newidiadau i'r hyn a roddwch ar eich plât, mae disgyblion yn dysgu y gallwch gefnogi eich cymuned leol, gwella ansawdd maethol yn ogystal â blas y bwyd sydd ar eich plât. Aeth disgyblion blwyddyn 6 â'r Aelodau ar daith o amgylch yr ysgol gan ymweld â phob ystafell ddosbarth i alluogi'r Aelodau i arsylwi ar addysgu ac i drafod dysgu gyda disgyblion. Roedd y daith hefyd yn cynnwys ymweliad â gardd yr ysgol lle bu'r disgyblion yn esbonio manteision cael gardd ysgol.



**<u>Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon i gyflawni ein blaenoriaethau</u>**

**Ymweliad ag Ysgol Uwchradd Aberteifi**
Cyfarfu'r ffrwd waith 'Sicrhau Seilwaith Effeithiol ac Effeithlon i gyflawni ein Blaenoriaethau' ar 6 Rhagfyr 2023. Mynychodd y ffrwd waith ymweliad ag Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Fel rhan o'r ffrwd Waith Safonau Ysgolion Monitro, mynychodd y Pennaeth a Chadeirydd llywodraethwyr gyfarfod ffrwd waith yn flaenorol i drafod perfformiad a safonau eu hysgolion.

Cafwyd cyflwyniad gan bob ysgol ar y meysydd canlynol ar yr adeg hon:
a. Presenoldeb
b. Heriau
c. Cyfraddau Gwahardd
d. Canlyniadau Cyfnodau Allweddol
e. Arweinyddiaeth
f. Data Gwella Ysgolion Rhanbarthol
g. Diogelu

Cafodd meysydd arfer da a meysydd her eu hadrodd i'r Prif Bwyllgor. Roedd Ysgol Uwchradd Aberteifi ar y agored iawn yn eu hawydd i'r Pwyllgor Craffu ymweld â nhw i gael gwell gwerthfawrogiad o'r heriau corfforol yr oeddent yn eu hwynebu (o ran y seilwaith adeiladu) yn ogystal â gweld yr hyn y maent eisoes wedi'i gyflawni gydag adnoddau cyfyngedig. Derbyniodd y Pwyllgor y gwahoddiad caredig gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Chris Evans a'r Pennaeth, Mrs Nicola James ac ymwelodd â'r ysgol yn 2017. Yn dilyn y cyfarfod argymhellodd y pwyllgor craffu y dylai'r ysgol fod yn flaenoriaeth ar gyfer cyllido.

Ar 6 Rhagfyr 2023 cynhaliodd y ffrwd waith ymweliad dilynol a derbyniodd gyflwyniad a thaith gynhwysfawr o amgylch yr ysgol dan arweiniad y Pennaeth.

Rhoddodd y daith, yn dilyn  y cyflwyniad, gyfle i'r Aelodau weld drostynt eu hunain y newidiadau a wnaed yn dilyn y buddsoddiad a'r estyniad i'r ysgol.  Yn ystod y prosiect adnewyddu ac estyniad gwerth £2.73m gwelodd yr ysgol o'r 1950au, adnewyddiad gan ehangu 423m2, i gyfanswm o 1766m2

Mae'r gwaith yn cynnwys golwg newydd i'r brif fynedfa a derbynfa'r ysgol, estyniad newydd wedi'i gysylltu sy'n dod â'r ddau adeilad ynghyd, lle newydd ar gyfer staff cefnogi ac estyniad cefn deulawr gydag allanfeydd tân ychwanegol a thoiledau, a bydd lifft newydd yn darparu mynediad i'r bloc Iau.





**Ailstrwythuro ysgolion**

Cyfarfu'r ffrwd waith 'Sicrhau Seilwaith Effeithiol ac Effeithlon i Gwrdd â'n Blaenoriaethau' ar 1 Chwefror 2024 i drafod ailstrwythuro ysgolion.  Roedd swyddogion wedi cyfarfod â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ym mis Medi i ystyried heriau'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf sy'n wynebu ysgolion. Roedd yn rhaid iddynt ystyried goblygiadau hyn wrth gynllunio defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau i sicrhau seilwaith cynaliadwy ein hysgolion ar gyfer y dyfodol.  Cyfeiriwyd at yr Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Seilwaith Addysg Gynaliadwy yn ystod y trafodaethau ac amlygwyd yr egwyddorion craidd. Trafodwyd Papur Llywodraeth Cymru 'Canllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer adolygu trefniadau ysgolion' a'r ffactorau i'w hystyried, sef:

- Capasiti ysgolion
- Capasiti sbâr
- Nifer y disgyblion dros y 3 blynedd diwethaf

- Nifer y disgyblion rhagamcanol
- Amser dysgu Penaethiaid
- Cyflwr yr adeilad
- Ôl-groniad costau cynnal a chadw
- Cost fesul disgybl

Atgoffwyd yr aelodau o'r broses ar gyfer adolygu ysgolion a'r rôl y mae craffu yn ei chwarae yn y broses.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.**
Na

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor: AMH**
**Cydweithio: AMH**
**Cynnwys: AMH**
**Atal: AMH**
**Integreiddio: AMH**

**ARGYMHELLIAD(AU):**
Nodi gwaith y ffrwd waith

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD(AU):**

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans
**Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau
**Dyddiad yr Adroddiad:** 15/04/24
**Acronymau:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU**
**a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Iau, 8 Chwefror 2024**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), Cynghorwyr Chris James, Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Eryl Evans, Paul Hinge, Gareth Lloyd Mark Strong ac Ann Bowen Morgan

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies, Catrin M S Davies, Wyn Thomas, Alun Williams, Keith Henson, Matthew Vaux, Clive Davies. (Aelodau Cabinet).
Cynghorwyr Caryl Roberts, Rhodri Evans, Ceris Jones, Keith Evans, Hugh Hughes, Gwyn Wigley Evans.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Eifion Evans, Barry Rees, James Starbuck, Duncan Hall, Lowri Edwards, Elin Prysor, Elen James, Clive Williams, Kirsty Dawson, Carys Fowles, Lisa Evans,

(1.30 - 4.15 pm)

1 **Croeso ac Ymddiheuriadau**
Dim

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
Datganodd yr aelodau fuddiant personol ond nid oedd yn rhagfarnu fel llywodraethwyr ysgol a benodwyd gan y Cyngor.

3 **Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25**
Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
**Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**

- Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25:**
£1.539m o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion
£696k o'r gyllideb sy'n cael ei chadw ar gyfer y Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
**Y gyllideb bresennol:** £56.8m (gan gynnwys £47.5m a ddirprwyir i ysgolion)

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, tudalennau 15-16 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

**Argymhellion:**
O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
   a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
   b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
   c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
   d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
   e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
   f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
   g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

**Rheswm dros yr argymhellion:**
Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNODD Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno y byddai cynigion a nodwyd yn y dyfodol o ran arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen yn cael eu rhoi ar y flaenraglen graffu pan fo'n briodol.

**4 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf ac i drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion**

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn rhai cywir.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 9 Mai 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell Ddydd Iau, 21 Mawrth 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Paul Hinge, Chris James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Mark Strong.

(12.15pm-12.17pm)

**1 Ymddiheuriadau**
Dim.

**2 Datgan diddordebau personol / diddordebau personol sy'n rhagfarnu**
Dim.

**3 Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.**
Cynigiodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Amanda Edwards bod y Cynghorydd Chris James yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cynghorydd Chris James yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

**4 Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.**
Cynigiodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Amanda Edwards bod y Cynghorydd Eryl Evans yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cynghorydd Eryl Evans yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **9 May 2024** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2024/25** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 3/5/2024 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenrhaglen waith craffu 2024/25

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Sy'n Dysgu*** | | | |
| 9 Mai 2024 | Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith & Multiply<br><br>Cytundeb Partneriaeth 2024 – 27'<br><br>Cofnodion Cyngor Ieuenctid<br><br>Adroddiad PACC | Mark Gleeson<br><br>Eirian Davies / Elen James<br><br>Lowri Evans<br><br>Anwen Orrells | |
| 16 Gorffennaf 2024 | Ail-strwythuro Ysgolion<br><br>Trefniadau Arolygu newydd ESTYN<br><br>Cyllid Ysgolion<br><br>Adroddiad blynyddol yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru | Nia James / Clive Williams<br><br>Gareth Lanagan / Rhianydd James / Clive Williams<br><br>Carys Fowles/Elen James<br><br>Carys Davies | |
| 17 Hydref 2024 | Canlyniadau Lefel A & TGAU 2024<br><br>Astudiaeth Dichonolrwydd | Gwion Dafydd / Elen James<br><br>John Hayes / Gwion Dafydd / Elen James | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddiadau ESTYN ar Ysgolion | Rhianydd James / Clive Williams | |
| 21 Tachwedd 2024 | Adroddiad ar Waith y Fforwm Lles & Ymddygiad<br><br>Diweddariad ar ADY | Sami Connolly & Huw Bonner / Elen James<br><br>Bethan Payne / Clive Williams | |
| 6 Chwefror 2025 | Cyllideb | | |
| 8 Mai 2025 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | | | |
| Ffrydiau waith | 1. Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol<br><br>2. Sicrhau ecwiti i bob disgybl<br><br>3. Sicrhau is adeiledd effeithiol ac effeithlon i gwrdd â'n blaenoriaethau | | |